

# Uwch 2 (B2) Dysgu Cymraeg

[www.dysgucymraeg.cymru](http://www.dysgucymraeg.cymru)



Dysgu  
Learn

## Croeso!

Croeso i'r Cwrs Uwch 2. Yn y cwrs yma, byddwch chi'n mwynhau darnau darllen, gwylio a gwrando sy'n dod o lyfrau neu gylchgronau Cymraeg, ac o raglenni ar Radio Cymru ac S4C. Bydd yr eirfa ar ddechrau'r uned yn eich helpu i ddeall y darnau hyn, felly bydd yn well dysgu'r eirfa cyn y wers. Mae'r darnau gwrando a gwylio ar ein gwefan - [www.dysgucymraeg.cymu](http://www.dysgucymraeg.cymu) – ac mae darnau ychwanegol (*additional*) ac ymarferion eraill yma i'ch helpu chi gyda geirfa a gramadeg hefyd. Mae adrannau Gwaith cartref yng nghefn y llyfr yma. Mae thema ym mhob uned – gobeithio byddwch chi'n mwynhau'r dewis o themâu. Yn yr unedau adolygu, mae gofyn i chi wneud rhywbeth ymarferol (*practical*) fel dosbarth.

Mae'n bwysig ymarfer eich sgiliau mor aml â phosib y tu allan i'r dosbarth - gwrandewch ar Radio Cymru, gwylwch S4C a darllenwch yn Gymraeg! Bydd eich tiwtor hefyd yn dweud wrthoch chi am lawer o gyfleoedd i ymarfer a defnyddio eich Cymraeg.

Does dim fersiwn de a gogledd o Uwch 2.

Pob lwc!

## Cynnwys

<b>Uned</b>	<b>Thema</b>	<b>Patrwm</b>
<b>1</b>	De a Gogledd	Tafodieithoedd <i>Dialects</i>
<b>2</b>	Fuoch chi erioed yn...?	Gorffennol cryno 'bod' (e.e. bues i, buest ti)
<b>3</b>	Chwedlau Cymru	Treigladau
<b>4</b>	Operâu sebon	Yr amodol (e.e. byddwn i)
<b>5</b>	Sefydliadau	Y cymal enwol (e.e. dw i'n meddwl bod..., dw i'n meddwl iddo fe ennill)
<b>6</b>	Rhyfel	Yr amhersonol: -wyd, -ir, -id
<b>7</b>	Diwydiant	Cymalau <i>Clauses 'a'</i> (e.e. y dyn a welais i)
<b>8</b>	Chwaraeon	Cymalau negyddol (e.e. dw i'n gwybod na fydd e'n ennill)
<b>9</b>	Papurau Bro	Adolygu
<b>10</b>	Gwlad y Menig Gwynion?	Ansoddeiriau benywaidd a lluosog
<b>11</b>	Hiwmor	Wedi'i, wedi'u (e.e. wy wedi'i ferwi)
<b>12</b>	Cefndryd Celtaidd	Geiriau lluosog
<b>13</b>	Gwnewch y Pethau Bychain	Cyfieithu <i>for</i> : ar gyfer, i, dros, er mwyn, am

## Uned 1 – De a Gogledd

### Nod yr uned hon yw...

- Dysgu am dafodieithoedd Cymru
- Dysgu am lefydd yn y de a'r gogledd
- Dysgu a defnyddio geirfa ac idiomau newydd

## Geirfa

● enwau benywaidd	<i>feminine nouns</i>
● enwau gwrywaidd	<i>masculine nouns</i>
● berfau	<i>verbs</i>
● ansoddeiriau	<i>adjectives</i>
● arall	<i>other</i>

**awel(on)** *breeze(s)*

**tafodiaith** *dialect(s)*

**(tafodieithoedd)**

**enghraifft** *example(s)*

**(enghreifftiau)**

**cyffroi** *to get excited*

**loetran** *to loiter*

**perffeithio** *to perfect*

**sisial** *to whisper*

**anhawster** *difficulty*  
**(anawsterau)** *(difficulties)*

**camdealltwriaeth** *misunderstanding(s)*  
**(au)**

**cyfrif(on)** *account(s)*

**cynnydd** *progress;*  
*increase*

**dŵr (dyfroedd)** *water(s)*

**eiddo** *property*

**incwm** *income*

**beiddgar** *daring, bold*

**cofiadwy** *memorable*

**credadwy** *believable,*  
*credible*

**dymunol** *pleasant*

**dibynnol** *reliant*

**euraidd** *golden*

**gor-hoff** *overly fond*

**treisgar** *violent*

**eisoes** *yn barod*  
**o ganlyniad i** *as a result of*

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

## Siaradwch



1. Gyda'ch partner, ceisiwch ddod o hyd i'r disgrifiad gorau o bob gair.

Gair	Disgrifiad
anarferol	ddim yn garedig nac yn ddymunol
cyffroi	yr un pwysica, y prif un
dychmygol	peth sy'n gallu gwneud bywyd yn haws
hunlun	y gwrthwyneb i 'diflasu'
pennaf	ddim yn real
pwyllog	gallwch chi ddefnyddio ffôn i dynnu llun fel hyn
teclyn	ddim yn gyffredin
treisgar	yn araf ac yn ofalus

2. Dewiswch **ddau** gerdyn sy'n eich disgrifio chi'n dda, ac **un** cerdyn sydd ddim yn eich disgrifio chi'n dda o gwbl!
3. Mae llawer o ansoddeiriau eraill, fel treisgar, sy'n gorffen â **-gar**. Ydych chi'n gwybod beth maen nhw'n ei feddwl? Ceisiwch ddyfalu, gyda'ch partner.

amyneddgar ..... anniolchgar .....

hawddgar ..... petrusgar .....

cyfeillgar ..... gweithgar .....

4. Gan ddefnyddio eich geirfa newydd, cyfieithwch y brawddegau hyn:

1. *She was wearing an unusual dress.*

.....

2. *I never take selfies.*

.....

3. *Aled is writing about an imaginary country.*

.....

4. *You have to drive slowly and carefully on this road.*

.....

5. *I get excited when I go shopping for new shoes.*

.....



## Help llaw - Pennaf

Gallwch chi ddefnyddio **pennaf** wrth siarad am bethau da a drwg!

ffrind pennaf = *best friend*

gelyn pennaf = *worst enemy*

Dyma enghreifftiau eraill o **pennaf**:

Ar bobl ifanc mae'r epidemig ffliw wedi effeithio'n bennaf.

*The flu epidemic has mainly affected young people.*

Hi sy'n bennaf cyfrifol am y cyfrifon.

*She's mainly responsible for the accounts.*

Mae ein staff yn broffesiynol, yn drefnus, ac yn bennaf oll, yn gyfeillgar.

*Our staff are professional, organised, and most of all, friendly.*


Garddwr oedd e, yn bennaf.

*In the main, he was a gardener.*

### Llenwch y bylchau yn y brawddegau hyn. Bydd angen i chi ddefnyddio ymadroddion sy'n cynnwys **pennaf**.

1. Maen nhw gyda'i gilydd drwy'r amser. Maen nhw'n ..... ers y Cylch Meithrin.
2. Ti sy'n ..... am y llanast, felly ti ddylai dacluso.
3. Faswn i ddim yn siarad fel yna gyda fy ..... ! Mae'n ofnadwy!
4. Mae'r cynnydd ym mhris bwyd yn ..... ar deuluoedd incwm isel.
5. Rhaglen deledu i blant yw hon ..... ond mae llawer o rieni yn mwynhau ei gwyllo hi hefyd.
6. Mae pobl yn ei gofio e, ..... , achos ei fod e'n ganwr arbennig o dda.

## Tafodieithoedd Cymru





## Gwyllo a gwrando 1

Byddwch chi'n gwyllo fideo o Dr Iwan Rees yn siarad am dafodieithoedd y Gymraeg, ac yna'n clywed rhai o'r tafodieithoedd hyn.

1. Yn ôl Dr Iwan Rees, beth yw **tafodiaith**?

2. Mae Dr Iwan Rees yn sôn am barau o eiriau sy'n golygu'r un peth, er enghraifft **allwedd** yn y de a **goriad** yn y gogledd. Allwch chi feddwl am ddwy enghraifft arall?

3. Sut mae ystyr **blin** yn wahanol yn y de a'r gogledd?

4. Pam mae gogledd Ceredigion yn cael ei galw'n **ardal drawsnewid** (*transition zone*)?

5. Rhwch un enghraifft leol o'r gair **bachgen / hogyn**.

6. Pa lythyren sy'n cael ei dweud yn wahanol yn y gogledd a'r de?

7. Mae Dr Iwan Rees yn dweud bod ffactorau heblaw am ddaearyddiaeth yn effeithio ar dafodiaith person. Beth ydyn nhw?

8. Byddwch chi'n gwyllo dau fideo sy'n dangos enghreifftiau o dafodiaith. Ysgrifennwch un nodwedd ar y tafodieithoedd yn y tabl.

Ardal	
Nodweddion	

### Siaradwch

- Pa dafodiaith rydych chi'n ei defnyddio wrth siarad Cymraeg?
- Beth yw eich tafodiaith yn eich mamiaith?
- Pa dafodieithoedd rydych chi'n eu hoffi?
- Ydych chi'n cael trafferth deall rhai tafodieithoedd?
- Ydych chi'n deall pob tafodiaith yn eich mamiaith?







## Darllen 1 – Dafydd Hywel: Hunangofiant Alff Garnant (Gomer, 2013)

Dyma ran o hunangofiant yr actor o Ddyffryn Aman, Dafydd Hywel.

**Geirfa:** anhawster  
gor-hoff

cofiadwy  
perffeithio

ishws (eisoes)  
credadwy

dibynnol

Yn **amal**, pan wi'n **ca'i anhawster** cysgu, wi'n meddwl am **ddyddie** ysgol a choleg ac am **gyfnode cofiadwy** yn **'y** mywyd i. Fel wi **ishws** wedi **gweud**, do'n ni ddim yn gyfoethog fel teulu ac ro'dd pob **c'inog** yn help mawr i **gadw'r ddisgyl yn wastad** gartre. Fe ddechreues i helpu Jac y **Lla'th** adeg gwylie ysgol pan o'n i'n rhyw un ar ddeg **o'd**, a Jac yn **ddibynnol** bryd hynny ar gart a cheffyl. Rhai **blynyddo'dd** yn ddiweddarach, ei fab, Wyn, brynodd y cerbyd letrig cynta yn Nyffryn Aman, a ninne **o ganlyniad** yn **cwpla'r** rownd yn gynt. Ro'n i'n codi am hanner awr wedi pedwar y bore ac yn **dod i ben sha** canol y prynhawn. Rhaid gweud, do'n i ddim yn **or-hoff** o'r job o gasglu'r arian gan fod rhai wedi **perffeithio**'r grefft o **raffu celwydde** a rhestru esgusodion reit **gredadwy**.

Hawlfraint Dafydd Hywel. Cyhoeddwyd *Dafydd Hywel: Hunangofiant Alff Garnant* yn 2013. Atgynhyrchwyd trwy ganiatâd Gwasg Gomer.

### 1. Beth yw'r geiriau hyn mewn Cymraeg safonol?

amal .....	ca'i .....	dyddie .....
cyfnode .....	'y .....	gweud .....
c'inog .....	lla'th .....	o'd .....
blynyddo'dd .....	cwpla .....	sha .....

Beth sy wedi'i ysgrifennu yn lle 'dw i' a 'roedd'?

.....

### 2. Beth yw ystyr yr idiomau hyn? Trafodwch!

o ganlyniad .....

dod i ben .....

rhaffu celwyddau .....

**Siaradwch:** Oeddech chi'n gweithio pan oeddech chi yn yr ysgol neu'r coleg?  
Beth oedd eich swydd gynta chi?

## Darllen 2 – Cyw Haul gan Twm Miall (Y Lolfa, 1988)



### Geirfa: beiddgar

Mae'r nofel hon yn sôn am ddyn ifanc o'r enw Bleddyn, sy'n byw mewn pentref bach yng ngogledd-orllewin Cymru ar ddechrau'r 1970au. Cafodd y nofel lawer o sylw pan gafodd ei chyhoeddi achos ei darlun **beiddgar** o fywydau pobl ifanc, a'r iaith anffurfiol sy'n cael ei defnyddio.

\*\*\*\*\*

Mi fethais i fwyta dim drwy'r dydd, dim hyd yn oed darn o dôst ac roeddwn i'n smocio fel stemar. Pan ddaeth yr hen bobol **adra** o'r gwaith, dyma nhw'n **deud** wrtha i am fynd i bolisho fy sgidia a gwisgo'r dillad roeddwn i wedi eu cael yn **newydd sbon danlli** i fynd i gnebrwn Yncl Jo – crys a thei, jaced a thrywsus **gora**. Mae'n gas **genna** i wisgo dillad felna, roeddwn nhw'n gwneud i mi deimlo'n lot gwaeth a doeddwn i ddim yn teimlo fel fi fy hun rywsut – accdio mae rhywun bob tro mae o'n eu gwisgo dillad gwahanol i'r rheini mae o'n eu gwisgo fel arfer. Roedd y ddau ohonyn nhw'n ffyshian o'm cwmpas i, un yn gwneud fy nhei i a'r llall yn brwshio'r jaced efo'r brwsh dillad sydd yn dŵad allan o'r drôr ryw unwaith neu ddwywaith mewn **blwyddyn gron**. 'Cofia neud hyn' a 'cofia neud llall' oedd hi wedyn; **'isda** i fyny'n syth a phaid â **gorweddian**, tria neud dy hun yn debyg i **rw bath**, siarada'n **uchal** ac yn glir er mwyn i bawb gal dy **glywad** di a jyst consyntretia ar y **cwestiyna** ac ar be fydd Mr Huws yn ddeud'. Roedd hi'n ddigon hawdd iddyn nhw siarad, doeddwn nhw ddim yn gorfod mynd ar brawf i'r **sêt fawr** o flaen Huws. Mi benderfynais i un peth ar fy ffordd allan o'r tŷ – hwn oedd y tro olaf; nefyr agen, not on iwar neli.

### 1. Beth ydy'r geiriau hyn mewn Cymraeg safonol?

adra .....	deud .....	gora .....
genna i .....	isda .....	rw bath .....
uchal .....	clywad .....	cwestiyna .....

Ar beth dych chi'n sylwi am y rhan fwyaf o'r geiriau hyn?

### 2. Beth ydy ystyr y geiriau hyn? Trafodwch!

newydd sbon danlli      blwyddyn gron      gorweddian      sêt fawr

### 3. Nodwch o leiaf bum gair yn y darn sy'n amlwg yn dod o'r Saesneg.

.....

.....

**Beth yw eich barn chi am ddefnyddio llawer o Saesneg wrth siarad Cymraeg?**





## Gwyllo a gwrando 2 - Mae'n wlad i mi...

Byddwch chi'n gwyllo fideo o Georgia Ruth yn canu rhan o'r gân **Mae'n wlad i mi** a ffilmwyd i gyd-fynd â'r tymor rygbi. Mae'r ffilm yn cyfuno rhai o olygfeydd naturiol harddaf Cymru yn y De a'r Gogledd ac eiliadau cofiadwy mewn gemau rygbi. Mwynhewch!

Nesaf, byddwch chi'n gwrando ar Georgia Ruth yn canu'r gân gyfan. Gwrandewch am y geiriau hyn:


eiddo  
sisial

awel  
euraidd

dyfroedd  
gwyrddlas

loetran  
clychau

Edrychwch ar y map a nodi ble mae'r llefydd sy'n cael eu henwi yn y gân. Mae'r rhestr o dan y map.



**1. Mae'n wlad i mi ac mae'n wlad i tithe** (tithau). Rydyn ni'n defnyddio tithau i gyfleu'r ystyr *you too*. Edrychwch ar yr isod:

A: Diolch yn fawr i ti.

B: Ac i tithau.

Mae **finnau** (*me too*) hefyd yn gyffredin iawn:

A: Dw i'n oer.

B: A finnau.

**2. Mi fûm yn crwydro.** Mae bûm yn ffurfiol ar gyfer bues i. Ydych chi'n gallu dyfalu ffurfiau ffurfiol ar gyfer beth yw'r isod:

myned

---

rwyf

---

yr oedd

---

i'm

---

**3. Moelydd meithion.** Lluosog maith yw meithion. Beth yw...?

*blackberries*

---

*The All Blacks*

---

*The Blue Birds*

---

*other books*

---

**4.** Beth yw'r lluosog?

traeth

---

llwybr

---

dŵr

---

ton

---

cloch

---

### Rhestr wirio

Dw i'n gallu...

deall y prif wahaniaethau rhwng Cymraeg y de a Chymraeg y gogledd.	
deall a defnyddio idiomau a geirfa newydd.	

Y tro nesa - Dewch â 3 llun ohonoch chi ar wyliau.

## Uned 2 – Fuoch chi erioed yn ...?

### Nod yr uned hon yw...

- Defnyddio amser gorffennol y ferf 'bod' (bues, buest, buodd ac ati)
- Siarad am wyliau a theithio
- Dysgu a defnyddio geirfa ac idiomau newydd

## Geirfa

**anghrediniaeth** *disbelief*

**gwep(iau)** *face(s)*

**gwres** *heat; heating;  
temperature*

**lludw** *ash(es)*

**moethusrwydd** *luxury*

**naws** *atmosphere,  
ambience*

**ffoli (ar)** *to be besotted  
(with)*

**troedio** *to tread*

**ymhyfrydu (yn)** *to take a delight (in)*

**apelgar** *appealing*

**crasboeth** *scorching*

**syfrdan** *astonished*

**syfrdanol** *astonishing*

**ar hyd y blynyddoedd** *over the years*

**hynod o (brysur)** *(prysur) iawn, iawn*

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

## Tafodiaith

Gyda'ch partner, trafodwch y geiriau yn y tabl. O ble mae'r geiriau hyn yn dod? Ydych chi'n defnyddio'r geiriau hyn, neu eiriau gwahanol?

Gair	De / Gogledd?	Beth rydych chi'n ei ddweud?	Geiriau eraill sy'n golygu'r un peth?
pres			
crwt			
losin			
hogan			
goriad			
dishgled			



## Siaradwch

Beth yw eich hoff eiriau Cymraeg chi? Pam?

### Gorffennol cryno bod

Dych/Dach chi'n hoffi siopa? Ydw, bues i/mi fues i yn y dre dydd Sadwrn.  
 Dych/Dach chi'n hoffi ffilmiau?  
 Dych/Dach chi'n hoffi gwneud ymarfer corff?  
 Dych/Dach chi'n hoffi gwyllo rygbi?

Aeth hi allan neithiwr? Naddo, buodd/mi fuodd hi yn y tŷ drwy'r nos.  
 Aethon nhw allan neithiwr?  
 Aeth John allan neithiwr?  
 Est ti allan neithiwr?  
 Aethoch chi allan neithiwr?  
 Aeth Siân allan neithiwr?



## Help llaw

<b>Bues i</b>	<b>Mi fues i</b>
<b>Buest ti</b>	<b>Mi fuest ti</b>
<b>Buodd e/hi</b>	<b>Mi fuodd o/hi</b>
<b>Buon ni</b>	<b>Mi fuon ni</b>
<b>Buoch chi</b>	<b>Mi fuoch chi</b>
<b>Buon nhw</b>	<b>Mi fuon nhw</b>

Weithiau, mae'n anodd gwybod pryd i ddefnyddio **bues i**, a phryd i ddefnyddio **ro'n i/roeddw i**. Rydyn ni'n defnyddio **bues i** pan mae'r weithred wedi digwydd ac wedi gorffen.

- Bues i yn Sbaen ar fy ngwyliau yn yr haf.

Basen ni hefyd yn gallu dweud **Es i i Sbaen** a basai'r frawddeg yn golygu bron yr un peth. Ond...

- Ro'n i yn Sbaen pan glywais i'r newyddion da.

Mae **roedd** ac yn y blaen yn cyfeirio at rywbeth sy'n digwydd dros gyfnod o amser.

**A:** Mae eich gwallt chi'n edrych yn hyfryd.

**B:** Diolch, **bues i** yn Salon Sali. **Ro'n i'n** mynd i Salon Siwsi pan o'n i'n byw yng Nghaernarfon.

Hefyd, mae'n rhaid defnyddio **roedd** wrth drafod amser penodol. Er enghraifft:

- **Roeddwn i** mewn cyngerdd am wyth o'r gloch neithiwr.
- **Bues i** mewn cyngerdd neithiwr.

### Gyda'ch partner, meddyliwch am bedwar cwestiwn sy'n dechrau â Fuoch chi / Fuest ti, a gofynnwch y cwestiynau i bedwar person.

Er enghraifft: Fuoch chi'n sgïo erioed?

Fuoch chi yn rhywle arbennig ar eich gwyliau diwethaf?

Fuest ti yn Ibiza gyda ffrindiau ysgol ar ôl gadael yr ysgol?

---



---



---



---

## Deialog

De	Gogledd
<b>A:</b> Fuoch chi ar eich gwyliau eleni?	<b>A:</b> Fuoch chi ar eich gwyliau eleni?
<b>B:</b> Do, buon ni yn yr Eidal ym mis Gorffennaf.	<b>B:</b> Do, mi fuon ni yn yr Eidal ym mis Gorffennaf.
<b>A:</b> O, buon ni yn yr Eidal y llynedd. Fwynheuocho chi?	<b>A:</b> O, mi fuon ni yn yr Eidal y llynedd. Wnaethoch chi fwynhau?
<b>B:</b> Do, ond roedd hi'n grasboeth ac yn hynod o brysur yn y dinasoedd. Buon ni yn Fenis, Fflorens a Rhufain – dinasoedd hyfryd, rhaid dweud.	<b>B:</b> Do, ond roedd hi'n grasboeth ac yn hynod o brysur yn y dinasoedd. Mi fuon ni yn Fenis, Fflorens a Rhufain – dinasoedd hyfryd, rhaid deud.
<b>A:</b> Buoch chi'n teithio o gwmpas tipyn, felly! Dim ond yn ardal Llyn Garda buon ni. Fuon ddim yno am amser hir, dim ond am dair noson.	<b>A:</b> Mi fuoch chi'n teithio o gwmpas tipyn, felly! Dim ond yn Llyn Garda buon ni. Fuon ni ddim yno am amser hir, dim ond am dair noson.
<b>B:</b> Dw i wedi clywed ei bod hi'n ardal hyfryd. Sut dywydd gawsoch chi?	<b>A:</b> Dw i wed clywed bod hi'n ardal hyfryd. Sut dywydd gaethoch chi?
<b>A:</b> Cynnes braf. Roedd hi'n berffaith i mi – dw i'n llosgi'n ofnadwy yn yr haul.	<b>B:</b> Cynnes braf. Roedd hi'n berffaith i mi – dw i'n llosgi'n ofnadwy yn yr haul.



### Gyda'ch partner, llenwch y bylchau yn y cardiau post hyn:

S'mae!

Dan ni'n cael amser da iawn yn Barcelona.

\_\_\_\_\_ ni i weld y Sagrada Familia ddydd Llun. \_\_\_\_\_ adeiladwyr yn gweithio yno – maen nhw'n gobeithio gorffen y gwaith erbyn tua 2030! Mae'r tywydd yn hyfryd. \_\_\_\_\_ ni yn Sitges ddydd Mawrth, ar lan y môr. Aethon ni yno ar y trê'n ond \_\_\_\_\_ hi ddim yn siwrna hir. Ddydd Mercher, \_\_\_\_\_ ni yng nghastell Monjuic. \_\_\_\_\_ y golygfeydd yn syfrdanol. \_\_\_\_\_ ni wedi blino wedyn, felly \_\_\_\_\_ ni'n eistedd mewn caffi ar y Ramblas am weddill y prynhawn, yn yfed Cava oer ac yn gwyltio pobl yn mynd a dŵad. Bendigedig!

Hwyl am y tro,  
Mei a Jo



100 Stryd yr Eglwys,  
Heol Ddu,  
Abercastell,  
Cymru.



Shwmae?

Dw i'n cael amser gwych yma yn Tallinn. \_\_\_\_\_ i ar daith gerdded o gwmpas yr hen ddinas ddoe. \_\_\_\_\_ yr adeiladau'n anhygoel – fel lluniau mewn stori tylwyth teg! Heddiw, \_\_\_\_\_ i yn y farchnad Nadolig. \_\_\_\_\_ pob math o bethau ar werth: gemwaith, crefftau, teganau a bwydydd blasus. \_\_\_\_\_ rhaid cael gwin cynnes i dwymo, wrth gwrs! \_\_\_\_\_ i mewn bwyty traddodiadol neithiwr. Ces i rosolje, sef salad tatws, betys a phenwaig, a gwydraid mawr o gwrw. Ro'n i wedi bwriadu mynd i'r amgueddfa awyr agored bore 'ma, ond \_\_\_\_\_ i ddim yn y diwedd achos ei bod hi mor oer! Felly, bydda i'n crwydro'r siopau a'r caffis cyn dal yr awyren adref heno. Gwela i chi cyn hir! Martha X



26 Heol y Llan,  
Cwm Mawr,  
Cymru.







## Gwranddo

### Mordeithiau (Cofio, Radio Cymru)

Byddwch chi'n gwranddo ar Ann Pash yn siarad â'r cyflwynydd John Hardy am fordeithiau.

**1. Rhowch gylch o gwmpas y geiriau hyn pan fyddwch chi'n eu clywed nhw:**

ffoli                                      ar hyd y blynyddoedd                                      naws  
moethusrwydd                      tân ar fy nghroen i

**2. Nodwch dair ffaith bwysig yn y darn hwn.**

.....

.....

.....

**3. Trafodwch arwyddocâd y rhifau hyn yn y darn gwranddo:**

ugain .....

trigain .....

dwy .....

deg .....

tair .....

**4. Gwrandewch yn ofalus ar Ann yn siarad. Beth mae hi'n ei ddweud yn lle...**

fy mam a fy nhad .....

arni hi .....

chwaer .....



## Siaradwch

**Defnyddiwch yr holiadur isod i siarad am wyliau, e.e. Fuoch chi erioed ar fordaith? Ydy'r math yma o wyliau yn apelio atoch chi?**

Enw	Ar fordaith	Ar wyliau gwersylla	Ar wyliau cerdded	Ar wyliau 'all inclusive'	Ar wyliau mewn bws



## Darllen

### **Milionêrs gan Marlyn Samuel (Gwasg y Bwthyn, 2014)**

**Geirfa:**      **apelgar**                      **troedio**                      **gwres**                      **syfrdan**  
                          **anhrediniaeth**                      **gwep**                      **ymhyfrydu**                      **syfrdanol**

'Mauritius! Y chi! Dach chi'n mynd i Mauritius?!' Roedd wynebau Gwyn a Nicola yn bictiwr.

Syniad Mal oedd Mauritius. A deud y gwir, mi fysa Majorca neu Menorca wedi **gwneud y tro** yn iawn i Wendi. Unrhyw le, dim ond iddi gael haul.

'Mauritius. Awn ni i Mauritius. Fanno ma'r milionêrs 'ma i gyd yn mynd ar eu holides,' medda fo amser te, a phawb yn claddu i mewn i wledd Cantonese.

'Ma fanno'n bell – yng Nghefnfor India,' meddai Gari'n wybodus.

'Y lle neis 'na ydi o, 'te, efo'r byngalos posh 'na ar *stilts* allan yn y môr.'

'Ddim y Maldives ydi fanno?' holodd Gari.

Ar ôl trip arall i Lerpwl, **y tro hwn** i drefnu pasborts i bawb, bwciodd Wendi wyliau i'r pump ohonyn nhw yn un o'r gwestai mwyaf moethus yn Mauritius. Ond suddodd ei chalon pan sylwodd ei bod hi'n daith ddeuddeg awr. Roedd ffleit dwy awr a hanner i Majorca yn fwy **apelgar** bob munud.

'Dan ni'n mynd wsnos i fory,' meddai Wendi ar ôl iddi dynnu ei hesgidiau a **throedio** tu ôl i Nicola i'r gegin. Roedd y llawr yn gynnes braf, diolch i'r gwres o dan y llawr.

'I ffwrdd? Lle dach chi'n ca'l mynd, felly?' holodd ei brawd heb drafferthu i droi rownd, yn rhy brysur yn gwneud paned o goffi o'i beiriant.

'Mynd efo tocens o'r *Sun* dach chi eto, ia?' gwenodd Nicola. 'Lle dach chi'n ca'l mynd y tro 'ma, 'ta? I Blackpool aethoch chi llynedd, ia?'

'I Mauritius.'

'Mauritius?' Roedd Gwyn wedi troi rownd, ei holl sylw ar Wendi.

'Ia. Mauritius.'

'Y Mauritius?' holodd Nicola, a honno yr un mor **syfrdan**.

'Ia. Pam? Oes 'na fwy nag un Mauritius?'

'Mauritius?' meddai Gwyn wedyn, yr **anghrediniaeth** yn glir ar ei hen **wep**. 'Dach chi wedi ennill y loteri neu rw bath?'

'Do.' **Ymhyfyrdodd** Wendi ym mhob eiliad o weld **ymateb** ei brawd a'i chwaer-yng-nghyfraith i'w newydd **syfrdanol**.

### Mae'r darn yn cynnwys dau ymadrodd sy'n defnyddio 'tro'.

#### Cyfieithwch:

gwneud y tro .....

y tro hwn .....

### Llenwch y bylchau â'r geiriau cywir (sy'n cynnwys 'tro' neu 'troi'), gan dreiglo a newid ffurf y ferf os oes angen.

1. Gyda'r nos, mae Sioned yn hoffi mynd â'r ci am .....
2. Roedd olwynion y car yn ..... a .....
3. "Hwyl! Tan y ..... nesa!"
4. Penderfynodd Elwyn ei bod hi'n bryd ..... am adre.
5. " ..... eich cadeiriau i wynebu'r blaen, os gwelwch yn dda."
6. Roedd Nia wedi cael siom; roedd Lisa wedi gwneud ..... gwael â hi.
7. "Dy ..... di yw hi i fynd â'r biniau allan," meddai Jac wrth weld y lori ludw.
8. "Paid â ..... dy gefn arna i!" gwaeddodd Mam yn flin.

### Rhestr wirio

Dw i'n gallu...

defnyddio gorffennol cryno 'bod'.	
trafod gwyliau a theithio.	

## Uned 3 – Chwedlau Cymru

### Nod yr uned hon yw...

- Ymarfer y treigladau a dysgu am y treiglad meddal wrth drafod amser
- Dysgu am chwedlau Cymru, a siarad amdany'n nhw
- Dysgu a defnyddio geirfa ac idiomau newydd

### Geirfa

<b>cosb(au)</b>	<i>punishment(s)</i>
<b>deintyddfa</b>	<i>dentist's</i>
<b>(deintyddfeydd)</b>	<i>surgery (surgeries)</i>
<b>dewines(au)</b>	<i>sorceress(es), enchantress(es)</i>
<b>gwaywffon</b>	<i>spear(s), javelin(s)</i>
<b>(gwaywffyn)</b>	
<b>llawysgrif(au)</b>	<i>manuscript(s)</i>
<b>melltith(ion)</b>	<i>curses(s)</i>

<b>cael gwared ar</b>	<i>to get rid of</i>
<b>dial</b>	<i>to revenge; to avenge</i>
<b>diflannu</b>	<i>to disappear</i>
<b>esgus</b>	<i>to pretend</i>
<b>ysbrydoli</b>	<i>to inspire</i>

<b>arf(au)</b>	<i>weapon(s)</i>
<b>brenin</b>	<i>king(s)</i>
<b>(brenhinoedd)</b>	
<b>bwch</b>	<i>gafr ifanc</i>
<b>cafn(au)</b>	<i>trough(s)</i>
<b>cyfeillgarwch</b>	<i>friendship</i>
<b>diflaniad(au)</b>	<i>disappearance(s)</i>
<b>tywysog(ion)</b>	<i>prince(s)</i>

<b>ar ffurf</b>	<i>in the form of</i>
<b>hud a lledrith</b>	<i>magic and enchantment</i>
<b>medden nhw</b>	<i>so they say</i>
<b>seiliedig ar</b>	<i>based on</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

## Treigladau!

Beth ydy enwau'r **tri** threigladau? Pa lythrennau sy'n cael eu heffeithio?  
Sut mae'r llythrennau'n newid?

Treigladau	Treigladau	Treigladau

## Help llaw



### Treiglo adferfau amser

Rydyn ni'n treiglo diwrnod penodol, e.e.

Does dim gwerau **ddydd Llun** (y dydd Llun nesaf).

Ond, os ydyn ni'n cyfeirio at ddiwrnod yn gyffredinol, rydyn ni'n defnyddio **ar**:

Mae'r dosbarth yn digwydd **ar ddydd Llun** (hynny yw, bob dydd Llun neu unrhyw ddydd Llun).

Dw i'n mynd i ddosbarth salsa **ar fore Gwener** = bob bore Gwener.

Ond: Dw i'n mynd i ddosbarth salsa **fore Gwener** = fore Gwener nesaf.

Es i i ddosbarth **fore Gwener** = fore Gwener diwethaf.

Weithiau, mae pobl yn defnyddio **y** gyda **Sul** i ddangos eu bod nhw'n siarad am bob dydd Sul yn gyffredinol, er enghraifft:

Fyddwch chi'n mynd i'r capel **ar y Sul**?

Mae **y Sul** hefyd yn gallu golygu 'y penwythnos', er enghraifft:

Fyddwch chi'n mynd i ffwrdd **dros y Sul**?

Fyddwch chi'n **bwrw'r Sul** yn rhywle? = Fyddwch chi'n treulio'r penwythnos yn rhywle?

Byddwn ni hefyd yn treiglo'n feddal mewn ymadroddion sy'n cynnwys **yn ôl**, e.e. Symudais i i Aberheli **bum** mlynedd yn ôl.

1. Gofynnwch i o leiaf 5 berson ydyn nhw'n gwneud rhywbeth cyson yn ystod yr wythnos.

Enw	ar ddydd Llon	ar ddydd Mawrth	ar ddydd Mercher	ar ddydd Iau	ar ddydd Gwener	ar ddydd Sadwrn	ar ddydd Sul

2. Rhwch y geiriau cywir yn y bylchau hyn: **dydd, ddydd,** neu **ar ddydd.**

- i. .... Llon maen nhw'n casglu sbwriel yn ein stryd ni.
- ii. Does dim casgliad sbwriel ..... Llon achos ei bod hi'n wyl banc.
- iii. Mae angen i ni gael cyfarfod. Beth am gwrdd yn fy swyddfa ..... Mercher?
- iv. Dw i fel arfer yn cael brechwast mewn caffi ..... Sul.
- v. Welaist ti'r gêm ..... Sadwrn?
- vi. .... Gwener yw fy hoff ddiwrnod i.
- vii. Dw i'n mynd i ddosbarth ioga bob wythnos, ..... Mawrth.
- viii. Mae ..... Iau yn ddiwrnod prysur yn y salon trin gwallt.
- ix. Fydd hi ddim yn y gwaith ..... Gwener achos ei bod hi'n mynd at y deintydd.
- x. Dw i'n hoffi mynd i'r farchnad ..... Mercher.

## Darllen



### *Pedair Cainc y Mabinogi*


<b>Geirfa:</b>	<b>seiliedig diflaniad diflannu</b>	<b>llawysgrif brenin cyfeillgarwch</b>	<b>hud a lledrith cawr</b>
----------------	---	--	--------------------------------

Pedair chwedl o'r Oesoedd Canol yw *Pedair Cainc y Mabinogi*. Mae cainc yn golygu 'cangen', ac ystyr 'Mabinogi' yw stori am blentyndod. Cymeriad Pryderi sy'n cysylltu'r pedair chwedl â'i gilydd, er nad yw e'n amlwg iawn ym mhob chwedl.

Mae'r *Pedair Cainc* yn dyddio'n ôl ganrifoedd, i tua 1050 – 1120. Does neb yn gwybod pwy oedd eu hawdur, ond cawson nhw eu trosglwyddo ar lafar am ganrifoedd cyn iddyn nhw gael eu hysgrifennu. Mae rhai cymeriadau'n **seiliedig ar** dduwiau Celtaidd, fel Lleu Llaw Gyffes (Lugh yn Iwerddon a Lugus yn yr Alban), a Rhiannon (Epona, duwies Geltaidd y ceffylau).


Gallwch chi weld y chwedlau yn *Llyfr Gwyn Rhydderch* – **llawysgrif** o'r bedwaredd ganrif ar ddeg sy'n cael ei chadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

Er bod y chwedlau'n llawn **hud a lledrith**, maen nhw'n aml yn digwydd mewn llefydd cyfarwydd i ni heddiw, fel Arberth yn sir Benfro a Harlech yng Ngwynedd.



#### **Y Gainc Gyntaf: Pwyll Pendefig Dyfed**

Mae'r tywysog Pwyll yn ymweld ag Annwfn, sef byd arall o dan y ddaear. Rydyn ni'n cael hanes priodas Pwyll â Rhiannon a **diflaniad** rhyfedd eu mab, Pryderi.



#### **Yr Ail Gainc: Branwen Ferch Llŷr**

Mae Branwen yn priodi Matholwch, **brenin** Iwerddon. Dydy ei hanner brawd hi, Efnisien, ddim yn hapus am hyn ac aiff pethau o ddrwg i waeth. All hyd yn oed Bendigeidfran y **cawr** ddim datrys y sefyllfa. Dyma'r stori fwy crefftus (a thrasig).



#### **Y Drydedd Gainc: Manawydan Fab Llŷr**

Mae hud ar Ddyfed a phopeth wedi **diflannu** yn y niwl! Rhaid i Manawydan achub Rhiannon a Pryderi. **Cyfeillgarwch** yw thema'r chwedl hon.





### Y Bedwaredd Gainc: Math Fab Mathonwy

**dewines**      **melltith**      **arfau**      **daear**      **cael gwared ar**      **esgus**  
**cafn**          **to**              **bwch**      **dod o hyd i**      **ar ffurf**          **cosb**  
**carreg**

Math fab Mathonwy ydy teitl y Bedwaredd Gainc, ond mae'r stori am ei fab a'r **ddewines** Arianrhod yn bennaf.

Mae Arianrhod wedi rhoi **melltith** ar ei mab. Chaiff o ddim enw, **arfau** na gwraig sy'n un o 'ferched y **ddaear**'. Ond, mae Gwydion, ei brawd, yn llwyddo i dorri'r ddwy **feltith** gyntaf. Caiff y mab ei alw'n Llew Llaw Gyffes, ac mae'n derbyn **arfau**. Yna, trwy hud a lledrith, mae Math a Gwydion yn creu gwraig o flodau i Llew, ac yn ei galw hi'n Blodeuwedd.

Ond, mae Blodeuwedd yn dechrau teimlo'n unig achos bod Llew yn treulio llawer o amser i ffwrdd. Un diwrnod, mae hi'n cyfarfod Gronw Pebr. Mae'r ddau'n syrthio mewn cariad, ac yn cynllunio i **gael gwared ar** Llew.

Mae Blodeuwedd yn **esgus** ei bod hi'n poeni am Llew, ac yn holi sut gallai rhywun ei ladd. Mae o'n esbonio bod hynny'n broses gymhleth iawn! Yn gyntaf, mae'n rhaid iddo fo ymolchi mewn **cafn** â **tho** arno ar lan afon, ac yna sefyll ag un droed ar ymyl y **cafn** a'r llall ar gefn **bwch**. Wedyn, gall rhywun ei ladd â gwaywffon. Ond nid â gwaywffon gyffredin! Mae'n rhaid treulio blwyddyn yn gwneud y waywffon, a hynny adeg gwasanaeth y Sul yn unig.

Mae Blodeuwedd yn dweud hyn wrth Gronw, a'r ddau yn paratoi i ladd Llew. Ar ôl blwyddyn, mae'r waywffon yn barod, a Blodeuwedd yn perswadio Llew i ymolchi mewn **cafn** ac yn y blaen, i ddangos sut medrai rhywun ei ladd. Wrth gwrs, mae Gronw yn barod, ac yn taflu'r waywffon at Llew.

OND, dydy Llew ddim yn marw. Mae o'n troi'n eryr, ac yn hedfan i ffwrdd.

Wedi hynny, mae Blodeuwedd a Gronw yn priodi. Ond, mae Gwydion yn **dod o hyd i** Llew (**ar ffurf** eryr) ac yn ei droi'n ôl yn ddyn, ond mae o'n sâl iawn.



I ddial, mae Gwydion yn chwilio am Blodeuwedd ac yn dod o hyd iddi wrth Lyn y Morynion. Ond yn hytrach na'i lladd, mae'n rhoi **cosb** waeth iddi, sef ei throi hi'n dylluan.

Cosb Gronw ydy sefyll ar lan Afon Cynfal a chael ei ladd gan waywffon Lleu. Hyd heddiw, mae **carreg** a thwll ynddi ar lan Afon Cynfal sy'n cael ei galw'n Llech Ronw.

### 1. Heb edrych yn ôl ar y darn, cyfieithwch:

- i. the fourteenth century* .....
- ii. The National Library of Wales* .....
- iii. Things go from bad to worse.* .....
- iv. resolve the situation* .....
- v. until today* .....

### 2. Edrychwch ar y geiriau isod. Allwch chi feddwl am dri gair sy'n gysylltiedig â nhw, e.e. sŵn > swnllyd? Mae rhai geiriau i'ch helpu yn y darn darllen.

plentyn	crefft
.....	.....
.....	.....
.....	.....
cyfaill	priodi
.....	.....
.....	.....
.....	.....

### 3. Rhowch y llythrennau coll yn y geiriau hyn, gan dreiglo os oes angen – mae'r trefnolion ar y chwith a'r rhifau ar y dde.

- |                           |                        |
|---------------------------|------------------------|
| 1. Y ferch __yntaf.       | 1. Y __air __erch.     |
| 2. Y bachgen __yntaf.     | 2. Y __au __achgen.    |
| 3. Y __r_d_dd ferch.      | 3. Y __ri __achgen.    |
| 4. Yr __il __achgen.      | 4. Y dd__ __erch.      |
| 5. Y __edw __dd ferch.    | 5. Y __edwar __achgen. |
| 6. Y __ryd_dd __achgen.   | 6. Y __um __erch.      |
| 7. Yr __il __erch.        | 7. Y __ed__ __erch.    |
| 8. Y __edw__rydd bachgen. | 8. Y __um __achgen.    |



## Siaradwch

- Oes diddordeb gennych chi mewn chwedlau?
- Ydych chi'n mwynhau llyfrau a ffilmiau sydd wedi'u hysbrydoli gan chwedlau, e.e. *The Lord of the Rings*, *Game of Thrones* ac ati?
- Neu ydy hi'n well gennych chi ffilmiau a llyfrau am bobl a digwyddiadau cyfoes?
- Beth am gemau fel *Dungeons and Dragons* ac ail-greu brwydrau?



## Gwyllo a gwrando

### **Cynefin: Bryn Saeth, Bro Ffestiniog (Rondo, 2018)**

**Geirfa:**            medden nhw            gwaywffon            eryr            dial

Byddwch chi'n gwyllo Siôn Tomos Owen yn adrodd rhan o Bedwaredd Gainc y Mabinogi, sy'n sôn am Llew Llaw Gyffes, Blodeuwedd a Gronw Pebr.

#### **1. Ar ôl gwyllo'r fideo, cwblhewch y brawddegau hyn:**

Mae pobl yn credu bod stori o'r ..... wedi digwydd ym Mryn Saeth.

Yn 1934, cafodd ..... arbennig ei darganfod ar waelod ..... Cynfal.

Roedd y graig yn arbennig achos bod .....

Doedd Llew ddim yn hapus achos .....

Rhedodd Llew ar ôl ..... a .....

Taflodd Gronw ..... at Llew.

Cafodd Llew ei droi'n .....

Ar ddiwedd y stori, daeth hi'n amser i Llew .....

Ro'n nhw ar lannau'r ..... unwaith eto.

Taflodd Llew ..... at Gronw.

Aeth y waywffon trwy'r .....

Aeth y waywffon yn syth trwy ..... Gronw.

Llech Ronw yw'r enw ar y ..... nawr.

Enw'r fferm yw Bryn Saeth, achos .....

## 2. 'Rhedodd Llew ar eu holau nhw ...'

Gallwch chi ddefnyddio **olau** neu **ôl** gyda **ni**, **chi** (lluosog) a **nhw**.  
Allwch chi lenwi'r bylchau yma?

ar .....i	ar .....ni
ar .....di	ar .....chi
ar .....e/o	ar .....nhw
ar .....hi	

Mae'r un peth yn wir am **o flaen**. Mae'n bosib defnyddio **blaen** neu **blaenau** gyda **ni**, **chi** (lluosog), a **nhw**.

o ..... i	o' ..... ni
o ..... di	o' ..... chi
o' ..... e/o	o' ..... nhw
o' ..... hi	

## 3. Mae llawer o enwau benywaidd yn y fideo yma. Allwch chi restru rhai ohonyn nhw? Sut rydyn ni'n gwybod eu bod nhw'n fenywaidd?

.....

.....

.....

## 4. Mae Siôn Tomos Owen yn dweud "So chi'n cael hela 'da gwaywffon rhagor".

Allwch chi feddwl am ffordd arall o ddweud hynny?

.....

.....

.....



## Gwyllo a gwrando

Gwylwch yr Athro Sioned Davies yn adrodd hanes chwedl Branwen. Gyda'ch partner, meddyliwch am o leiaf 3 chwestiwn i'w gofyn am y chwedl.

---

---

---

---

---

---

---

### Rhestr wirio

Dw i'n gallu...

treiglo adferfau amser yn feddal.	
trafod chwedlau.	

## Uned 4 – Dramâu teledu ac operâu sebon

### Nod yr uned hon yw...

- Adolygu ac ymarfer yr amodol
- Siarad am ddramâu teledu ac operâu sebon
- Dysgu a defnyddio geirfa ac idiomau newydd

## Geirfa

**camlas (camlesi)** *canal(s)*

**achlysurol** *occasional;  
casual*

**afreal** *unrealistic*

**amheus** *doubtful;  
suspicious*

**difrifol** *serious*

**diniwed** *blameless,  
innocent;*

**ethnig** *ethnic*

**hoiwy** *gay*

**parhaol** *permanent*

**snobyddlyd** *snobby*

**cydraddoldeb** *equality*

**dihiryn (dihirod)** *rascal(s),  
scoundrel(s),  
villain(s)*

**goddefgarwch** *tolerance*

**iselder** *depression*

**llosgfynydd(oedd)** *volcano(es)*

**nod(au)** *aim(s)*

**tlodi** *poverty*

**canolbwyntio** *to concentrate*

**delio (â)** *to deal (with)*

**haeddu** *to deserve*

**hybu** *to promote*

**lleoli** *to locate*

**ystyried** *to consider*

**newyddion da o lawenydd mawr**

*glad tidings of great joy /  
good news of great joy*

**yn fyw ac yn iach**

*alive and well*

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

## Yr amodol

### 1. Adolygu **baswn i / faswn i ddim**.

Trafodwch y sefyllfaoedd ar y cardiau, a dywedwch beth **fasech** chi'n ei wneud, a beth **fasech chi ddim** yn ei wneud.

### 2. Mae'r geiriau isod ar eich cardiau chi.

Gyda'ch partner, meddylwch am dri ymadrodd / gair sy'n defnyddio'r geiriau hyn, neu elfennau ohonyn nhw.

Er enghraifft: byrddio → bwrdd → bwrdd smwddio

#### byrddio

.....  
 .....  
 .....

#### bywyd

.....  
 .....  
 .....

#### Ilogsfynydd

.....  
 .....  
 .....

## Help llaw



Hyd yn hyn, rydyn ni wedi canolbwyntio ar ffurfiau amodol **baswn i** ac yn y blaen. Ond mae'n siŵr y byddwch wedi sylwi ar ffurf amodol arall sy'n cael ei defnyddio, sef **byddwn i** – sydd â **bydd**, fel ffurfiau'r dyfodol, ond gyda **-wn, -et, -ai, -en, -ech, -en**, sy'n perthyn i'r amodol. Dyma rediad y ffurf hon:

**Byddwn i**

**Byddet ti**

**Byddai o/fe/hi**

**Bydden ni**

**Byddech chi**

**Bydden nhw**

Fel arfer, y ffurfiau hyn sy'n cael eu defnyddio wrth ysgrifennu. Yn y de, mae pobl yn defnyddio'r ffurfiau hyn ar lafar hefyd – yn enwedig yn y de-orllewin.

Dydy'r ffurfiau **taswn i, tasai'r tywydd** ac ati ddim yn newid.

**Llenwch y bylchau yn y brawddegau hyn**, gan ddefnyddio'r ffurfiau amodol uchod. Efallai bydd angen i chi dreiglo weithiau.

1. .... ti'n gallu dod am swper heno, yn lle nos fory?
2. Tasai Elis yn ddigon heini, ..... 'n rhedeg marathon.
3. Beth ..... nhw'n wneud heb dy help di?
4. .... i byth yn nofio yn y môr ar ddiwrnod oer fel heddiw.
5. .... i'n poeni tasai siop y pentref yn cau.
6. Dw i'n meddwl ..... chi'n mwynhau'r ffilm 'na – mae hi'n ddoniol iawn.
7. .... hi ddim yn hapus taswn i'n rhannu'r gyfrinach gyda ti.
8. .... John byth yn fy nghredu i – mae'n rhaid i ti ddweud wrtho fe.
9. .... chi'n cael eich cosbi tasech chi'n meiddio twyllo yn y prawf yma.
10. .... nhw ddim yn hoffi mynd ar wyliau i wlad boeth.
11. .... chi'n cael trafferth siopa ar-lein heb fy help i.
12. .... Jac byth yn dweud celwydd – mae e mor ddiniwed.

## Storom eirfa – Drâmau teledu ac operâu sebon

Nodwch o leia chwe gair ar y thema yn y blwch isod.

## Siaradwch



- Ydych chi'n gwyllo opera sebon neu ddramâu teledu?
- Beth yw'r dramâu teledu mwya poblogaidd ar hyn o bryd?
- Os nad ydych chi'n gwyllo opera sebon – pam?
- Oeddech chi'n gwyllo opera sebon pan oeddech chi'n blentyn?
- Pa fath o raglenni rydych chi'n eu hoffi orau?
- Ydych chi erioed wedi gweld *Pobol y Cwm*?
- Ydych chi erioed wedi gweld drama teledu Gymraeg?
- Ydych chi'n hoff o unrhyw ddihiryn mewn drama neu opera sebon?

## Deialog – Rownd A Rownd

Opera sebon wedi'i lleoli yn Ynys Môn ydy *Rownd a Rownd*. Mae hi'n cael ei ffilmio ym Mhorthaethwy ac yn cael ei darlledu ddwywaith yr wythnos ar S4C.

Yn wreiddiol, opera sebon i blant oedd *Rownd a Rownd*. Roedd hi'n canolbwyntio ar bobl ifanc oedd yn gwneud rownd bapur newydd. Erbyn hyn, mae hi'n cael ei darlledu gyda rhaglenni oedolion ac yn delio â themâu anodd ar brydiau. Er hynny, mae llawer o hiwmor yn *Rownd a Rownd* ac mae hi'n boblogaidd gyda phobl o bob oed.

Byddwch chi'n darllen deialog rhwng dwy chwaer, Dani a Britney.

1. Dewiswch y fersiwn o'r ddeialog sy'n addas i chi. Edrychwch arni gyda'ch partner, ffeindiwch yr amodol ynddi hi, ac ysgrifennwch y ffurfiau amodol.

- 
2. Sut byddech chi'n ysgrifennu'r ffurfiau yma fel arfer?
- 

3. Tanlinellwch yr holl elfennau llafar, neu'r dafodiaith yn y ddeialog.

4. Darllenwch y ddeialog gyda'ch partner, gan gymryd tro i wneud y ddwy ran.



Fersiwn wreiddiol (y gogledd)	Fersiwn y de
<p><b><u>BRITNEY</u></b> 'Nath hi sôn rwbath am y pres sy arnyn nhw i'r dyn treth wedyn?</p> <p><b><u>DANI</u></b> Na. Dim byd.</p> <p><b><u>BRITNEY</u></b> Bechod.</p> <p><b><u>DANI</u></b> Ia, dw i'n gwbod.</p> <p><b><u>BRITNEY</u></b> Pam 'nei di'm cynnig talu drostyn nhw?</p> <p><b><u>DANI</u></b> Fi?</p> <p><b><u>BRITNEY</u></b> Ia. Ma' gin ti ddigon o bres, does?</p> <p><b><u>DANI</u></b> Ond 'y mhres i 'dio.</p> <p><b><u>BRITNEY</u></b> Dw i'n gwbod, ond tasa gin i bres, 'swn i'n gynnig o iddyn nhw.</p> <p><b><u>DANI</u></b> (AMHEUS IAWN) O bysat?!</p> <p><b><u>BRITNEY</u></b> Byswn. Faint o bres Wyn sgin ti ar ôl?</p> <p><b><u>DANI</u></b> Meindia dy fusnas!</p> <p><b><u>BRITNEY</u></b> Gin ti ddigon ma' siŵr, does?</p> <p><b><u>DANI</u></b> Oes, ella.</p> <p><b><u>BRITNEY</u></b> A fysa chdi'n ga'l o'n ôl ginnyn nhw. Dim ond benthg fysa fo. 'Sw'n i'n 'neud 'sw'n i'n chdi.</p>	<p><b><u>BRITNEY</u></b> 'Wedodd hi rywbeth am yr arian sy arnyn nhw i'r dyn treth wedyn?</p> <p><b><u>DANI</u></b> Na. Dim byd.</p> <p><b><u>BRITNEY</u></b> Trueni.</p> <p><b><u>DANI</u></b> Ie, dw i'n gwbod.</p> <p><b><u>BRITNEY</u></b> Pam 'nei di ddim cynnig talu drostyn nhw?</p> <p><b><u>DANI</u></b> Fi?</p> <p><b><u>BRITNEY</u></b> Ie. Mae digon o arian 'da ti, on'd oes e?</p> <p><b><u>DANI</u></b> Ond fy arian i yw e.</p> <p><b><u>BRITNEY</u></b> Dw i'n gwbod, ond tase arian 'da fi, byddwn i'n 'i gynnig e iddyn nhw.</p> <p><b><u>DANI</u></b> (AMHEUS IAWN) O fyddet ti?!</p> <p><b><u>BRITNEY</u></b> Byddwn. Faint o arian Wyn sy 'da ti ar ôl?</p> <p><b><u>DANI</u></b> Meindia dy fusnes!</p> <p><b><u>BRITNEY</u></b> Mae digon 'da ti, on'd oes e?</p> <p><b><u>DANI</u></b> Oes, falle.</p> <p><b><u>BRITNEY</u></b> A byddet ti'n 'i ga'l e'n ôl wrthyn nhw. Dim ond benthg fydde fe. Byddwn i'n neud, yn dy le di.</p>



## Gwyllo a gwrando – Anti Marian yn ymddeol

Byddwch chi'n gwyllo cyfweiliad â Buddug Williams, adeg ei hymddeoliad ar ôl blynyddoedd yn actio ar *Pobol y Cwm*.

Rhowch ✓ wrth y geiriau a'r ymadroddion hyn pan fyddwch chi'n eu clywed nhw.

achlysurol

yn fyw ac yn iach

newyddion da o lawenydd mawr

### Dewiswch yr atebion cywir a rhowch groes yn y blwch.

O ble mae Buddug Williams yn dod?	Pontypridd Pontyberem Pont-y-pŵl	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Mae Anti Marian yn dweud "Paid ti â meddwl bo' ti'n mynd i ga'l tamed o'r _____ 'na!" Beth?	cawl pizza lasagne	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Mae Buddug Williams yn dweud bod Anti Marian fel mam i rywun. Pwy?	Denzil Sioned Cheryl	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dydy Buddug Williams ddim yn gallu mynd i rywle ar brynhawn dydd Mercher. Ble?	Pontyberem Caerfyrddin Cefneithin	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Beth fydd Buddug Williams yn gweld ei eisiau fwya ar ôl ymddeol?	y cyflog y cwmni perfformio	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Bydd Buddug Williams yn parhau i wyllo *Pobol y Cwm*. Pam? Ysgrifennwch ddau reswm isod.

1. ....
2. ....

## Siaradwch



### Os ydych chi wedi ymddeol:

- Beth ydych chi'n mwynhau ei wneud ers ymddeol?
- Beth ydych chi'n gweld ei eisiau / colli fwya ers ymddeol?

### Os nad ydych chi wedi ymddeol:

- Beth ydych chi'n edrych ymlaen at ei wneud ar ôl ymddeol?
- Neu ydych chi'n bwriadu gweithio cyn hired ag y gallwch chi?
- Sut mae eich teulu a ffrindiau i chi wedi ymdopi â bywyd ar ôl ymddeol?
- Pa mor bwysig ydy'r teledu i bobl sy wedi ymddeol?



## Darllen – Operâu sebon

<b>parhaol</b>	<b>ystyried</b>	<b>haeddu</b>	<b>nod</b>	<b>afreal</b>	<b>difrifol</b>
<b>snobyddlyd</b>	<b>tlodi</b>	<b>iselder</b>	<b>hoiw</b>	<b>ethnig</b>	<b>hybu</b>
<b>cydraddoldeb</b>		<b>goddefgarwch</b>			

Mae llawer ohonon ni'n defnyddio'r term 'operâu sebon' i ddisgrifio dramâu teledu fel *Eastenders*, *Coronation Street*, *Hollyoaks*, *Emmerdale*, *Pobol y Cwm* a *Rownd a Rownd* neu ddramâu radio fel *The Archers*.

Cafodd y term ei ddefnyddio gyntaf oherwydd bod cwmnïau sebon yn noddi dramâu radio cynnar America'r 1930au. Ond os gwylwch chi wobrau BAFTA ar y teledu, chlywch chi mo'r term yn cael ei ddefnyddio. 'Dramâu **Parhaol**' yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio erbyn hyn.

Pam tybed? Wel, mae llawer o bobl yn y byd darlledu yn **ystyried** bod disgrifio drama fel 'opera sebon' yn hen ffasiwn. Maen nhw'n credu bod y term yn gwneud i bobl feddwl am ddrama rad, nad yw cystal â drama 'go iawn'. Maen nhw o'r farn bod y term yn awgrymu bod dramâu o'r fath yn llai pwysig.

Ond mae lle i ddadlau nad yw 'operâu sebon' yn **haeddu** cael eu **hystyried** o'r un safon â dramâu eraill. Maen nhw'n rhatach i'w cynhyrchu, a'u prif nod yw denu'r gynulleidfa i wyllo'r sianel am weddill y noson. Maen nhw am wneud y gynulleidfa yn gaeth iddyn nhw.

Mae'n rhaid iddyn nhw gynnwys storïau gor-ddramatig, felly, er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'r gynulleidfa byth yn diflasu. Mae popeth yn ddrama fawr. Mae'n rhaid i bopeth symud yn gyflym iawn, ac felly mae llawer o ddadlau a gweiddi. Maen nhw'n gwbl **afreal** yn hynny o beth.

O ganlyniad, does dim cymaint o syniadau yn cael eu trafod mewn operâu sebon ag sydd mewn dramâu mwy **difrifol**. Yr hyn sy'n digwydd sy'n bwysig mewn 'opera sebon' tra bo dramâu 'go iawn' yn **ystyried** pam mae pethau'n digwydd.

Ond mae hynny'n eithaf **snobyddlyd** mewn gwirionedd! Mae 'operâu sebon' yn gallu delio â phethau pwysig, er enghraifft, salwch, **tlodi**, **iselder** a thrais. Maen nhw hefyd yn cynnig cwmni i bobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain.

Maen nhw hefyd yn gallu codi ymwybyddiaeth am faterion pwysig. Drwy gynnwys cymeriadau **hoiw** a chymeriadau o leiafrifoedd ethnig, er enghraifft, gall opera sebon **hybu cydraddoldeb** a **goddefgarwch** at ein gilydd.

Mae'n amhosibl gwadu bod gan raglenni o'r fath le pwysig iawn ar y cyfryngau – beth bynnag rydyn ni'n eu galw nhw!

1. Ydych chi'n gallu crynhoi prif negeseuon yr erthygl mewn pum pwynt?

.....

.....

.....

.....

.....

2. Edrychwch ar y diffiniad ar y chwith, ac ysgrifennwch yr ymadrodd gorau o'r darn sy'n cyfateb i'r diffiniad. Ceisiwch wneud hyn heb edrych ar y darn yn gyntaf.

<i>Pobol y Cwm a Rownd a Rownd</i>	
<i>Game of Thrones a Line of Duty</i>	
ble mae actorion <i>Coronation Street</i> ac <i>Eastenders</i> yn gallu ennill rhywbeth ddim yn fodern	
y peth mawr rydych chi eisiau ei gyflawni	
cael pobl i wyllo'ch sianel chi	
yr amser rhwng swper ac amser gwely	
dysgu pobl am fater arbennig	
pobl o gymunedau du ac Asiaidd yng Nghymru	
helpu pobl i ddeall bod pawb yn gyfartal	

### Rhestr wirio

Dw i'n gallu...

defnyddio ffurfiau cryno amodol y ferf.	
siarad am ddramâu teledu ac operâu sebon gan ddefnyddio geirfa ac ymadroddion newydd.	

## Uned 5 – Sefydliadau

### Nod yr uned hon yw...

- Adolygu'r cymal enwol (fy mod i, y bydda i ac ati)
- Siarad am rai o sefydliadau Cymru
- Dysgu a defnyddio geirfa ac idiomau newydd

## Geirfa

<b>caer (caerau, ceyrydd)</b>	<i>fort(s)</i>
<b>cenedl (cenhedloedd)</b>	<i>nation(s)</i>
<b>daeareg</b>	<i>geology</i>
<b>gwasg (gweisg)</b>	<i>press(es)</i>
<b>hawlfraint (hawlfreintiau)</b>	<i>copyright(s)</i>
<b>llechen (llechi)</b>	<i>slate(s)</i>
<b>lleng(oedd)</b>	<i>legion(s)</i>

<b>amneidio</b>	<i>to beckon, to nod</i>
<b>arloesi</b>	<i>to pioneer</i>
<b>buddsoddi</b>	<i>to invest</i>
<b>cyfeirio (at)</b>	<i>to refer (to)</i>
<b>cyfleu</b>	<i>to convey</i>
<b>dethol</b>	<i>to select</i>
<b>meithrin</b>	<i>to nurture</i>
<b>nodi</b>	<i>to note</i>
<b>tasgu</b>	<i>to splash, to scatter</i>
<b>tisian</b>	<i>to sneeze</i>
<b>ymddiswyddo</b>	<i>to resign</i>

<b>o blaid</b>	<i>in favour of</i>
<b>y Rhufeiniaid</b>	<i>the Romans</i>
<b>yn gyfan gwbl</b>	<i>completely</i>

<b>adnodd(au)</b>	<i>resource(s)</i>
<b>atyniad(au)</b>	<i>attraction(s)</i>
<b>canmlwyddiant</b>	<i>centenary</i>
<b>deunydd(iau)</b>	<i>material(s)</i>
<b>cymal(au)</b>	<i>clause(s); joint(s)</i>
<b>e-ddarllenwr(-wyr)</b>	<i>e-reader(s)</i>
<b>gwystl(on)</b>	<i>hostage(s)</i>
<b>modd</b>	<i>manner; means</i>
<b>mudiad(au)</b>	<i>movement(s)</i>
<b>pencadlys(oedd)</b>	<i>headquarter(s)</i>
<b>pwyslais</b>	<i>emphasis</i>
<b>sefydliad(au)</b>	<i>institution(s)</i>
<b>symudiad(au)</b>	<i>movement(s)</i>
<b>trywydd(au)</b>	<i>trail(s), path(s)</i>
<b>undeb(au)</b>	<i>union(s)</i>

<b>diedifar</b>	<i>unrepentant</i>
<b>glofaol</b>	<i>coal-mining</i>
<b>rhagweladwy</b>	<i>foreseeable, predictable</i>
<b>ysgrifenedig</b>	<i>written</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

## Adolygu'r amodol (baswn/byddwn a taswn)

Unwch y paru i greu cwestiynau, ac yna gofynnwch y cwestiynau i'ch partner.

Tasech chi'n dathlu eich pen-blwydd heddiw,	fyddech chi'n bwyta pethau melys o gwbl?
Tasech chi'n gweld rhywun yn 'smygu mewn lle cyhoeddus,	fasech chi'n mentro allan yn y car?
Tasech chi'n byw yn Llundain,	fyddech chi'n troi at y we?
Tasech chi ar ddeiet,	fasech chi eisiau i bawb gael gwybod?
Tasech chi eisiau gwyliau rhad,	fyddech chi'n dweud rhywbeth?
Tasech chi'n ddeunaw oed eto,	fasech chi'n ystyried cyfnewid tŷ?
Tasai hi'n bwrw eira,	fasech chi'n ei derbyn hi?
Tasech chi eisiau prynu teledu newydd,	fyddech chi'n dilyn yr un trywydd?
Tasech chi'n cael cynnig swydd newydd dramor,	fasech chi'n mynd i'r theatr yn aml?

**Ymatebwch i'r brawddegau isod, gan ddefnyddio'r ferf sy mewn cromfachau a 'bod wedi'. Dilynwch y patrwm:**

Aethon ni i Ffrainc ar y fferi. (gallu)

**Gallech chi fod wedi hedfan.**

1. Hedfanon ni i Iwerddon.  
(gallu) .....
2. Roedd eisiau help arnon ni ddoe.  
(dyl-) .....
3. Ro'n i'n byw yn Lerpwl yn y chwedegau.  
(hoffi/licio) .....
4. Gwelais i rywun yn ymddwyn yn amheus iawn yn y stryd ddoe.  
(dyl-) .....
5. Dw i'n ymddiheuro am y camddealltwriaeth.  
(dyl-) .....
6. Roedd yr olygfa'n wych o gopa'r Wyddfa ddydd Sadwrn.  
(hoffi/licio) .....

## Cam-

Meddyliwch am y gair **camddealltwriaeth**. Nodwch isod o leia chwe gair arall sy'n dechrau gyda **cam-**:

.....

.....

.....

.....

Edrychwch ar y tair brawddeg isod. Yna, cyfieithwch y tri ymadrodd:

Ni chafodd y gôl ei chaniatáu achos bod y chwaraewr yn camsefyll.  
Cafodd y bachgen bach gam yn y gystadleuaeth – dylai fe fod wedi ennill.  
Roedd un o'r staff yn cael amser caled yn y cyfarfod felly roedd rhaid i mi achub ei gam.

*to be offside* \_\_\_\_\_

*to suffer an injustice* \_\_\_\_\_

*to defend/to stand up for* \_\_\_\_\_

## Sefydliadau Cymru

Ysgrifennwch enwau rhai o sefydliadau Cymru yn y blwch hwn:

## Y cymal enwol

Unwch y ddau hanner i greu un frawddeg, gan ddefnyddio cymal enwol:

Dw i'n gwybod...	Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth.
Dw i'n siŵr...	Mae Canolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd.
Dw i'n meddwl...	Bydd yr Urdd yn mynd o nerth i nerth.
Dw i'n sicr...	Saith safle sy gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru.
Dw i'n gwybod...	Mae pencadlys Mudiad Meithrin yn Aberystwyth.
Dw i'n siŵr...	Ym Mangor mae'r 'Coleg ar y Bryn'.
Dw i'n meddwl...	Bydd mwy o sefydliadau cenedlaethol yn y dyfodol.
Dw i'n gobeithio...	Dw i'n mynd i ddysgu mwy am sefydliadau Cymru.





## Help llaw – Y Cymal Enwol

Hyd yn hyn, rydych chi wedi dysgu'r rheolau isod:

- Pan fydd y cymal yn y **presennol** neu'r **amherffaith**, mae eisiau defnyddio **bod**:  
Dw i'n gwybod bod Dafydd yn chwaraewr da.  
Ro'n i'n gwybod bod Dafydd yn teimlo'n sâl ddoe.

- Mae **bod** yn newid gyda rhagenwau:  
fy mod i                      ein bod ni  
dy fod ti                      eich bod chi  
ei fod e/o, ei bod hi      eu bod nhw

- Os bydd y cymal yn y **dyfodol** neu'r **amodol**, mae eisiau defnyddio **y** (er nad ydyn ni'n clywed **y** yn yr iaith lafar yn aml):

Dw i'n gobeithio y bydd hi'n braf yfory.  
Roedden nhw'n meddwl y byddai'r tîm yn ennill y cwpan.  
Mae'n bosib y dylwn i wneud rhagor o waith.  
Maen nhw'n dweud y gallai hi fwrw glaw fory.

- Os bydd **pwyslais** yn y cymal, rhaid i ni ddefnyddio **mai** neu **taw**:  
Clywais i mai John fydd y capten newydd.  
Maen nhw'n dweud taw Siân gafodd y swydd.

Ond, mae un rheol arall i'w dysgu. Beth sy'n digwydd pan fydd y cymal yn y **gorffennol cryno**? Edrychwch ar yr isod:

- |                                   |   |   |
|-----------------------------------|---|---|
| Enillais i'r raffl y tro diwetha. | > | Dw i'n meddwl <b>i mi ennill</b> y raffl y tro diwetha.       |
| Cerddodd pawb allan o'r cyfarfod. | > | 'Dyn ni wedi clywed <b>i bawb gerdded</b> allan o'r cyfarfod. |

Rydyn ni'n defnyddio'r patrwm gyda'r arddodiad **i**, (fel **Rhaid i fi fynd** ac **Ar ôl i mi fynd**). Beth bynnag, ar lafar rydych chi'n aml yn clywed pobl yn dweud 'Dw i'n meddwl enillais i'r raffl y tro diwetha', felly does dim angen poeni gormod am hyn.

Rhowch gynnig ar gyfieithu'r brawddegau isod, gan ddefnyddio'r arddodiad **i**.

1. *I think I left my file in class last week.*

.....

2. *I'm sure I understood correctly.*

.....

3. *I heard he forgot to do the homework.*

.....

4. *They are saying that the Prime Minister resigned after the cabinet meeting.*

5. *I think she was born on Tuesday.*

Isod, mae rhestr o sefydliadau Cymreig ac yn y blwch mae rhestr o ddyddiadau. Penderfynwch ym mha flwyddyn y cafodd y sefydliadau eu sefydlu. Defnyddiwch y patrwm newydd i ymarfer: 'Dyn/Dan ni'n meddwl/gwybod i S4C gael ei sefydlu yn xx.'

**Cadw**  
**Cymdeithas Bêl-droed Cymru**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**  
**Gwasg Prifysgol Cymru**  
**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

<b>1982</b>	<b>2000</b>
<b>1881</b>	<b>1999</b>
<b>1907</b>	<b>1922</b>
<b>1876</b>	<b>1984</b>

## Amgueddfa Cymru

### Siaradwch




- Pryd buoch chi mewn amgueddfa ddiwetha?
- Pa un yw eich hoff amgueddfa?
- Ydych chi'n meddwl y dylai fod mynediad am ddim i bob amgueddfa?
- Beth yw pwrpas amgueddfa?
- Trafodwch yr amgueddfa sy fwya lleol i chi fel grŵp.



## Gwrando



Mae saith amgueddfa'n rhan o Amgueddfa Cymru. Cyn gwrando ar y darn, ceisiwch lenwi'r tabl isod drwy roi enwau'r amgueddfeydd ac un peth amdany'n nhw. Wrth wrando, nodwch neu gwiriwch enw'r amgueddfa ac ysgrifennwch un ffaith newydd.



Ble?	Enw'r Amgueddfa	Beth rydych chi'n ei wybod?	Ffaith newydd
Caerdydd	.....	.....	.....
Sain Ffagan	.....	.....	.....
Abertawe	.....	.....	.....
Blaenafon	.....	.....	.....
Llanberis	.....	.....	.....
Caerllion	.....	.....	.....
Dre-fach Felindre	.....	.....	.....

## Gwyllo a gwrando – Croeso i Sain Ffagan



Ym mis Gorffennaf 2019 cyhoeddwyd mai Sain Ffagan oedd Amgueddfa'r Flwyddyn – gwobr uchel iawn ei statws.

1. Gwylwch y ffilm a nodwch arwyddocâd y llefydd canlynol:

Stockholm \_\_\_\_\_

Plymouth \_\_\_\_\_

Rhyd-y-car \_\_\_\_\_

Pontarddulais \_\_\_\_\_

Ynys Môn \_\_\_\_\_

2. Nodwch un ffaith ddiddorol a ddysgoch chi am Sain Ffagan.

\_\_\_\_\_

3. Y tro hwn, gwrandewch yn ofalus a llenwch y bylchau:

i. Roedd e eisiau sefydlu cartref i ddiwylliant, iaith, treftadaeth a \_\_\_\_\_ Cymru.

ii. \_\_\_\_\_ llawer o adeiladau o bob cwr o Gymru.

iii. \_\_\_\_\_ hen furluniau lliwgar \_\_\_\_\_.

4. Ceisiwch wrando am y geiriau yn y darn sy'n dod o'r geiriau isod. Ydych chi'n gallu meddwl am ragor?

i. arbennig \_\_\_\_\_

ii. gwaith \_\_\_\_\_

iii. lle \_\_\_\_\_

5. Yn olaf, gorffennwch yr ymadroddion hyn:

i. newydd \_\_\_\_\_

ii. dan \_\_\_\_\_

iii. dweud eu \_\_\_\_\_

## Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Ysgrifennwch o leia 10 gair sy'n gysylltiedig â llyfrgelloedd.



## Siaradwch



Trafodwch y datganiadau isod:

- Mae angen buddsoddi mwy o arian mewn llyfrgelloedd.
- Mae pobl yn teimlo'n gryf o blaid llyfrgelloedd, ond mewn gwirionedd does neb yn eu defnyddio.
- Tasai rhaid i fi ddewis rhwng cadw llyfrgell, canolfan i'r henoed neu barc chwarae ar agor, byddwn i'n dewis...



## Gwrando

Gwrandewch ar Rhodri Glyn Thomas, Llywydd y Llyfrgell Genedlaethol yn siarad ac atebwch y cwestiynau:

Pam mae'n rhaid i'r Llyfrgell dderbyn popeth?

---



---

Beth yw'r peth pwysig am y Llyfrgell?

---



---

Enwch dri pheth sy yn y Llyfrgell.

---



---



---

Gwrandewch eto a cheisiwch lenwi'r bylchau:

Dych chi wedi disgrifio rhai o \_\_\_\_\_ 'r Llyfrgell.

Rhaid i ni dderbyn popeth \_\_\_\_\_ gyflwyno/gynnig.

Mae yna \_\_\_\_\_ enfawr.

Mae yna \_\_\_\_\_ o luniau.

Mae'n \_\_\_\_\_ i'n cyfeirio ni i'r dyfodol.

## Modd

Mewn rhan arall o'r cyfweiliad, mae Rhodri Glyn Tomos yn dweud, "Mae modd i bobl weithio yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg." Driliwch eich partner:

Faint o arian dych chi'n gallu ei wario mewn hanner awr? Mae modd gwario miloedd.

Pa mor bell dych chi'n gallu rhedeg mewn hanner awr?

Faint o eiriau dych chi'n gallu eu teipio mewn hanner awr?

Faint o gwrw dych chi'n gallu ei yfed mewn hanner awr?

Faint o eiriau Cymraeg dych chi'n gallu eu dysgu mewn hanner awr?

Mae fy nghyfrifiadur wedi torri. Oes modd i ti ?

Mae fy mheiriant golchi wedi torri.

Mae fy ffeil wedi torri.

Mae fy meic wedi torri.

Mae fy mhensil wedi torri.

Mae fy mhensiliau wedi torri.

Mae fy nghadair wedi torri.

Mae fy ffôn wedi torri.

Mae fy allwedd wedi torri.

Mae fy allweddi wedi torri.

Mae fy nghamera wedi torri.

Mae problem gyda fi.

Oes modd i fi helpu?

Mae syched arna i.

.....

Mae eisiau bwyd arna i.

.....

Does dim arian gyda fi/

.....

Sgen i ddim pres.

Dw i ddim yn deall y

.....


cyfarwyddiadau.



## Darllen

### Y Llyfrgell gan Fflur Dafydd (Y Lolfa, 2009)

Geirfa:	gwystlon	tisian	hances	e-ddarllenwyr
	tasgu	deunyddiau	amneidio	cyfleu
	diedifar	rhagweladwy		



Mae *Y Llyfrgell* wedi'i lleoli yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn y dyfodol agos. Mae hi'n nofel gyffrous, sy'n adrodd stori dwy chwaer – Nan ac Ana – sy eisiau dial ar academydd o'r enw Eben Prydderch. Maen nhw'n credu taw Eben Prydderch oedd yn gyfrifol am farwolaeth eu mam, yr awdures Elena Wdig. Cafodd y nofel ei thro'i'n ffilm yn 2016.

Yn y darn yma, mae Nan ac Ana yn paratoi i gadw staff y llyfrgell yn **wystlon**.

Wedi i Nan nesáu at y swyddfa, **tisiodd** i mewn i'w **hances**. Dyma oedd yr arwydd i ddangos i Ana fod pob dim wedi mynd fel y dylai, ac y gallai adael y swyddfa fechan roedden nhw'n ei rhannu gyda'r tair arall. Fel y gwnaethon nhw ymarfer gannoedd o weithiau cyn hynny, cyrhaeddodd Ana'r drws yn union yr un pryd â Nan, yn cario pentwr o **e-ddarllenwyr**. Tarodd y ddwy yn erbyn ei gilydd, gan **dasgu** mynydd o **ddeunyddiau** ar y carped coch. Yn y dryswch a'r chwerthin a'r ailgasglu, llwyddodd Nan i drosglwyddo'r allwedd i bentwr Ana, yn ogystal â rhoi'r bag du yn llaw ei chwaer. Edrychodd Nan i fyny ar Ana ac **amneidio** tuag at y camerâu diogelwch. Edrychodd Ana 'nôl arni **mewn penbleth**. Roedd Nan yn ysu am y cyfle i ddweud wrthi fod neb yn eu gwyllo, ond methodd **gyfleu'r** neges yn ei llygaid. Cerddodd Ana i'r cyfeiriad arall gan edrych yn ddryslyd ar ei hôl, ac aeth Nan yn ôl at ei desg.

Roedd Nan yn gwybod yn iawn beth oedd ei rôl hi nawr, sef cadw'r tair merch – Gwelw, Haf, a Petal – yn eu seddau o fewn y swyddfa fechan, a'u rhwystro rhag crwydro oddi yno, rhag ofn iddyn nhw weld yr hyn a wnâi Ana yn y coridor. **Pur anaml** y byddai'r tair yn symud fel arfer, beth bynnag, gan eu bod yn gaeth i rythmau'r Llyfrgell. Te am un ar ddeg, cinio am un, coffi am dri, a'r dydd yn batrwm o disian, ochneidio, a thorri gwynt yn dawel a **diedifar**. Roedd Nan **yn dueddol o** fod **ar gyrion** eu sgysiau; gwrando wnâi hi, yn fwy na chyfrannu, a dros y misoedd diwethaf, roedd wedi astudio'u symudiadau, ac wedi synnu o weld pa mor **rhagweladwy** oedden nhw.



1. Mae'r darn yma'n cynnwys **rhwystro rhag**, sy'n golygu *to prevent from*. Rydyn ni'n defnyddio **rhag** gyda llawer o ferfenwau sy'n cyfleu elfen o fygythiad neu berygl. Gyda'ch partner, gwnewch frawddeg yn cynnwys pob un o'r rhain:

achub rhag .....

amddiffyn rhag .....

cadw rhag .....

cuddio rhag .....

dianc rhag .....

2. e-ddarllenwyr ydy *e-readers*. Beth ydy:

e-bostio ..... e-ddysgu .....

e-sigarennau ..... e-bortffolio .....

3. Gyda'ch partner, cysylltwch yr ymadroddion â'r diffiniad cywir.

mewn penbleth	dim ond weithiau
pur anaml	ymddwyn yn y ffordd yma fel arfer
yn dueddol o	ddim yn y canol
ar gyrion	teimlo'n ddryslyd ac yn ansicr

## Siaradwch



Mae Nan wedi sylwi ar drefn 'ragweladwy' y merched eraill yn y swyddfa.

- Ydych chi wedi gweithio yn rhywle lle mae pawb yn dilyn yr un drefn?
- Ydych chi'n hoffi trefn yn eich bywyd pob dydd?



## Siaradwch

Siaradwch am y Cynulliad Cenedlaethol. Llenwch y grid isod:

	Gwybod	Ddim yn siŵr	Eisiau gwybod
Cynulliad Cenedlaethol Cymru			

Beth sy'n cael ei drafod yn y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd?

.....

.....

.....

### Rhestr wirio

Dw i'n gallu...

defnyddio cymalau enwol.	
siarad am rai o sefydliadau Cymru.	

## Uned 6 – Rhyfel

### Nod yr uned hon yw...

- Defnyddio berfau amheronol (-wyd/-ir/-id)
- Siarad am wahanol agweddau ar ryfel
- Dysgu a defnyddio geirfa ac idiomau newydd

## Geirfa

<b>agwedd(au)</b>	<i>attitude(s)</i>
<b>dôr(au)</b>	<i>drws pren allanol</i>
<b>man(nau)</b>	<i>lle(oedd)</i>
<b>mawnog(ydd)</b>	<i>peatbog(s)</i>
<b>sain (seiniau)</b>	<i>sound(s)</i>

<b>dedfrydu</b>	<i>to sentence</i>
<b>didoli</b>	<i>to separate, to sort</i>
<b>dogni</b>	<i>to ration, to share</i>
<b>enwebu</b>	<i>to nominate</i>
<b>llochesu</b>	<i>to shelter</i>
<b>parhau</b>	<i>to continue</i>

<b>cadfridog(ion)</b>	<i>general(s)</i>
<b>cadoediad(au)</b>	<i>armistice(s), truce(s), ceasefire(s)</i>
<b>ffoadur(iaid)</b>	<i>refugee(s)</i>
<b>gro</b>	<i>gravel, shingle, earth</i>
<b>milwr (-wyr)</b>	<i>soldier(s)</i>
<b>olew olewydd</b>	<i>olive oil</i>
<b>rhyfel(oedd)</b>	<i>war(s)</i>
<b>troseddwr (-wyr)</b>	<i>criminal(s)</i>

<b>cyflawn</b>	<i>complete, entire</i>
<b>dwys</b>	<i>profound, intense, solemn</i>
<b>dyngarol</b>	<i>humanitarian, philanthropic</i>
<b>wythnosol</b>	<i>weekly</i>

**ar gyfartaledd**

*on average*

**Y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig**

*The Royal Welch Fusiliers*

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

## Ymarfer y goddefol

Cwblhewch y brawddegau isod gyda'ch partner, gan ddefnyddio berfau addas.

Cafodd y nodyn .....

Cafodd y bencampwriaeth .....

Cafodd y llenni .....

Cafodd y cadoediad .....

Cafodd y ffoadur.....

Cafodd y llwybr.....

Cafodd y llifddorau .....

Cafodd y rheol fantais.....

Cafodd y rhaglen .....

## Yr amhersonol

Newidiwch y brawddegau i'r amhersonol, e.e. Cafodd y bachgen ei weld –  
Gwelwyd y bachgen.

Cafodd y nodyn ei anfon.....

Cafodd y bencampwriaeth ei gohirio.....

Cafodd y llenni eu hagor.....

Cafodd y cadoediad ei barchu.....

Cafodd y ffoaduriaid eu croesawu.....

Cafodd y llwybr ei wella.....

Cafodd y rhaglen ei recordio.....

## Help llaw – Yr amhersonol



Rydych chi wedi dysgu sut i ddefnyddio'r goddefol (*passive*) i siarad am bethau sy'n cael eu gwneud i ni, er enghraifft:

**Cafodd hi ei magu yng Nghaerdydd.**

**Cafodd y tŷ ei adeiladu ugain mlynedd yn ôl.**

**Maen nhw'n cael eu cosbi am dorri rheol.**

**Mae'r cyngerdd yn cael ei gynnal heno.**

Ond mae ffordd fwy cryno (*concise*) o ddweud hyn, **sef berfau amhersonol**. Dydy berfau amhersonol ddim yn cael eu defnyddio'n aml ar lafar – dim ond, efallai, mewn adroddiadau newyddion. Ond byddwch chi'n siŵr o'u gweld nhw mewn erthyglau a dogfennau ffurfiol.

Edrychwch ar y brawddegau isod. Mae'r ystyr yr un peth â'r brawddegau goddefol uchod.

**Magwyd hi yng Nghaerdydd.**

**Adeiladwyd y tŷ ugain mlynedd yn ôl.**

**Cosbir nhw am dorri rheol.**

**Cynhelir y cyngerdd heno.**

Byddwch chi'n sylwi ein bod ni'n defnyddio terfyniad **-wyd** i siarad am y gorffennol, a therfyniad **-ir** i siarad am bethau sy'n digwydd yn y presennol neu'r dyfodol.

Gyda'r terfyniad **-ir**, mae'r **a** yn y ferf yn aml yn troi'n **e**, er enghraifft canu → cenir; rhannu → rhennir; cynnal → cynhelir.

Dyma rai o'r berfau amhersonol (gorffennol) y byddwch chi'n eu clywed amla ar y newyddion. Defnyddir ffurfiau amhersonol y gorffennol yn amlach na ffurfiau'r presennol/dyfodol.

Berfenw	Gorffennol	Enghraifft
cynnal	cynhaliwyd	Cynhaliwyd ymchwiliad.
rhoi	rhoddwyd	Rhoddwyd y gorau i chwilio am y rhai sydd ar goll.
arestio	arestiwyd	Arestiwyd pum dyn yn dilyn y ddamwain.
carcharu	carcharwyd	Carcharwyd y tair am gyfanswm o ugain mlynedd.
rhyddhau	rhyddhawyd	Rhyddhawyd nhw yn gynnar y bore 'ma.
lladd	lladdwyd	Lladdwyd dros gant o bobl.
cyhoeddi	cyhoeddwyd	Cyhoeddwyd y newyddion yn hwyr neithiwr.
ymosod (ar)	ymosodwyd (ar)	Ymosodwyd ar y pentref o'r awyr.
difrodi	difrodwyd	Difrodwyd y cartrefi gan y storm.
anafu	anafwyd	Anafwyd Sam Jones yn y gêm gwpan ddydd Sadwrn.
penderfynu	penderfynwyd	Penderfynwyd cau'r ysgol yn yr hydref.
achosi	achoswyd	Achoswyd y ddamwain gan niwl tew.
dal	daliwyd	Daliwyd y lladron y tu allan i'r banc.
galw	galwyd	Galwyd am heddwch rhwng y ddwy wlad.
geni	ganwyd	Ganwyd plentyn cyntaf Dafydd a Mari Davies neithiwr.

A dyma rai o'r ffurfiau mwya cyffredin wrth ddefnyddio'r terfyniad **-ir**.

Berfenw	Presennol/Dyfodol	Enghraifft
cynnal	cynhelir	Cynhelir ffair yr ysgol yfory.
agor	agorir	Agorir y drysau am dri o'r gloch.
cyhoeddi	cyhoeddir	Cyhoeddir enw'r bardd buddugol ar ddiwedd y gystadleuaeth.
gallu	gellir	Gellir codi tâl am barcio.
siarad	siaredir	Siaredir Cymraeg yma.
caniatáu	caniateir	Ni chaniateir ysmegu.

Yn ogystal â'r terfyniadau **-wyd** ac **-ir**, byddwch chi hefyd yn gweld y terfyniad **-id** weithiau, yn enwedig mewn hen lenyddiaeth ac erthyglau ffurfiol neu academaidd. Rydyn ni'n defnyddio'r **-id** wrth siarad am bethau a ddigwyddodd dros gyfnod o amser, neu bethau oedd yn arfer digwydd yn rheolaidd (sef yr amser amherffaith). Fel gyda'r berfau **-ir**, mae'r **a** yn y ferf yn aml yn troi'n **e**, fel canu → cenid; rhannu → rhennid.

Er enghraifft:

Roedd dillad yn cael eu golchi yn yr afon.

**Golchid dillad yn yr afon.**

Roedd seiren yn cael ei chanu i rybuddio am ymosodiad o'r awyr.

**Cenid seiren i rybuddio am ymosodiad o'r awyr.**

Roedd masgiau nwy yn cael eu rhoi i blant.

**Rhodid masgiau nwy i blant.**

Dyma rai berfau afreolaidd, sy'n dilyn patrwm ychydig yn wahanol i ffurfio'r amhersonol.

Berfenw	Gorffennol	Presennol / Dyfodol	Amherffaith
mynd	aethpwyd / aed	eir	eid
dod	daethpwyd	deuir	deuid
gwneud	gwnaethpwyd / gwnaed	gwneir	gwneid
cael	cafwyd ( <i>there was</i> )	ceir ( <i>there is</i> )	ceid

Byddwch chi'n gweld amhersonol **mynd** a **dod** pan fyddan nhw'n cael eu dilyn gan yr arddodiad **â**, er enghraifft:

Aethpwyd/Aed â nhw i'r ysbyty mewn ambiwlans.

Mae'n werth dysgu tair ffurf gyffredin arall:

Gellir	Gellir talu â cherdyn credyd.
Gellid	Gellid bod wedi osgoi'r tân.
Dylid	Dylid gorfodi seiclwyr i wisgo helmed.

### Cofiwch:

- **Does dim treigladd meddal ar ôl berf amhersonol.**

Anafwyd tri o bobl mewn damwain neithiwr.      Recordiwyd rhaglen radio yn y stiwdio.

- **Does dim GODDRYCH i ferf amhersonol** h.y. dydyn ni ddim yn gwybod pwy neu beth sy'n gwneud y weithred, e.e.

Enillwyd y tîm y cwpan. ✘	Enillodd y tîm y cwpan. ✓
Gwnaethpwyd y ferch y gwaith. ✘	Gwnaeth y ferch y gwaith. ✓
Trefnir y pwyllgor y cyngerdd. ✘	Mae'r pwyllgor yn trefnu'r cyngerdd. ✓

Os ydyn ni eisiau dweud **pwy sy'n gwneud y weithred**, rhaid i ni ddefnyddio **berf bersonol**, neu **ferf amhersonol** a **gan**, er enghraifft:

Adeiladwyd y tŷ <b>gan</b> gwmni o Ffrainc.	Codwyd llawer o arian <b>gan</b> elusennau lleol eleni.
---	---

Mantais defnyddio'r amhersonol wrth ysgrifennu yw nad oes rhaid i chi boeni am dreiglo, rhoi **h** cyn llafariaid na meddwl am **ei/eu**:

Cafodd y dyn ei gynghori.	Cynghorwyd y dyn.
Cafodd y ferch ei chynghori.	Cynghorwyd y ferch.
Cafodd y plant eu cynghori.	Cynghorwyd y plant.
Mae'r llythyr yn cael ei anfon.	Anfonir y llythyr.
Mae'r neges yn cael ei hanfon.	Anfonir y neges.
Mae'r llyfrau'n cael eu hanfon.	Anfonir y llyfrau.



## Ymarfer

### Ailysgrifennwch y brawddegau hyn gan ddefnyddio berfau amhersonol addas.

1. Cafodd gwobr ei rhoi i'r tîm gorau yn y gystadleuaeth.  
.....
2. Roedd cloch yn cael ei chanu bob amser chwarae yn fy hen ysgol.  
.....
3. Mae dosbarth Cymraeg yn cael ei gynnal yn Neuadd y Pentref.  
.....
4. Bydd y troseddwr yn cael ei ddedfrydu yfory.  
.....
5. Cafodd parcel ei anfon atoch chi ddoe.  
.....
6. Roedd dillad o bob math yn cael eu gwneud yn y ffatri hon.  
.....
7. Bydd enw'r enillydd yn cael ei gyhoeddi yr wythnos nesaf.  
.....
8. Cafodd deg pysgodyn eu dal gan y pysgotwr neithiwr.  
.....
9. Roedd gwasanaeth plygain yn cael ei gynnal yn yr eglwys hon ers talwm.  
.....
10. Mae swyddfa newydd y cwmni'n cael ei hagor yfory.  
.....

## Storom eirfa - Rhyfel

Nodwch o leia chwe gair sy'n gysylltiedig â rhyfel yn y blwch isod.

## Siaradwch



- Oes rhywun o blith eich teulu chi wedi bod i ryfel?

### Darllen 1 – Cymru a Rhyfel Cartref Sbaen



**Geirfa:**                      **cadfridog**                      **dyngarol**                      **ffoaduriaid**

Llenwch y bylchau yn y testun trwy ddewis y berfau amhersonol cywir o'r rhestr isod

**cafwyd**                      **cyhoeddwyd**                      **ysbrydolwyd**                      **ffurfiwyd**  
**lladdwyd**                      **ymosodwyd**                      **rhyddhawyd**

Dechreuodd Rhyfel Cartref Sbaen yn 1936 pan \_\_\_\_\_ ar Lywodraeth Gweriniaeth Sbaen gan filwyr y **Cadfridog** Franco.

Trwy Ffederasiwn Glowyr De Cymru a'r Blaid Gomiwnyddol, \_\_\_\_\_ llawer o gefnogaeth yng Nghymru i'r Brigadau Rhyngwladol oedd yn ymladd yn erbyn Franco.

Aeth 174 o Gymry i ymladd yn Sbaen (ac un yn unig fuodd yn ymladd dros Franco). \_\_\_\_\_ 33 ohonyn nhw.

Ar ôl cwmp Gwlad y Basg yn 1938, dan arweiniad David Lloyd George, \_\_\_\_\_ pwyllgorau **dyngarol** i helpu plant **ffoaduriaid** o Wlad y Basg.

\_\_\_\_\_ dwy nofel gan Lewis Jones o'r Rhondda sy'n trafod ymateb glowyr Cymru i Ryfel Cartref Sbaen, sef *Cwmardy* (1937) a *We Live* (1939).

Yn fwy diweddar, \_\_\_\_\_ y band o'r Coed Duon, The Manic Street Preachers, gan wirfoddolwyr o dde Cymru a ymladdodd yn y Brigadau Rhyngwladol. \_\_\_\_\_ 'If You Tolerate This Your Children Will Be Next' yn 1998, ac aeth i rif un y siartiau Prydeinig.



## Gwyllo a gwrando 1 – Ymweliad â'r Ysgwrn, cartref Hedd Wyn

**Geirfa:** dawnus

1. Ym mha bentref yng Nghymru mae'r Ysgwrn?

.....

2. Beth oedd enw 'go iawn' Hedd Wyn?

.....

3. Sut mae Gerald Williams yn perthyn i Hedd Wyn?

.....

4. Pwy sy'n gyfrifol am Yr Ysgwrn heddiw?

.....

5. Beth yw arwyddocâd y rhifau hyn?

1917 .....

14 .....

9 .....

### **"Rhoddwyd llen ddu dros y gadair yn ystod y seremoni."**

Ailysgrifennwch y frawddeg uchod gan ddefnyddio berfau cwmpasog yn lle rhoddwyd.

.....

.....

### **"Mae Eisteddfod Penbedw'n cael ei galw'n 'Eisteddfod y Gadair Ddu'."**

Ailysgrifennwch y frawddeg uchod gan ddefnyddio berf amhersonol yn lle cael ei galw.

.....

.....



## Darllen 2 – Detholiad o englynion coffa ‘Hedd Wyn’ gan R. Williams Parry

**Geirfa:** didoli dwys dôr mawnog gro

Math o farddoniaeth draddodiadol yw englyn. Mae beirdd yn aml yn cyfansoddi englynion i goffáu pobl, neu i ddathlu achlysuron arbennig fel geni plentyn neu briodas. Mae englynion R. Williams Parry i Hedd Wyn yn gyfarwydd i lawer o siaradwyr Cymraeg. Clywir plentyn yn eu canu ar ddiwedd y ffilm *Hedd Wyn* (Paul Turner, 1992).

Y bardd trwm dan bridd tramor,—y dwylaw  
Na ddidolir rhagor:  
Y llygaid dwys dan ddwys ddôr,  
Y llygaid na all agor.

Tyner yw'r lleuad heno—tros fawnog  
Trawsfynydd yn dringo;  
Tithau'n drist a than dy ro  
Ger y ffos ddu'n gorffwyso.

Atgynhyrchwyd trwy ganiatâd Gwasg Gee.



Gyda'ch partner, cymerwch dro i ddarllen yr englynion yn uchel er mwyn clywed eu sain nhw.

### Siaradwch



- Ydych chi wedi darllen cerddi eraill am ryfel?
- Ydych chi'n mwynhau dramâu neu ffilmiau am ryfel?
- Ydych chi wedi bod i unrhyw amgueddfeydd rhyfel?
- Wnaethoch chi gymryd rhan mewn unrhyw beth i goffáu'r Rhyfel Byd Cynta?

## Bywyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd



**Geirfa:** parhau      ar gyfartaledd      dogni      olew olewydd

Daeth yr Ail Ryfel Byd i ben yn 1945, ond roedd yn **parhau** i effeithio ar fywydau pobl ar ddechrau'r 1950au hefyd.

### Gyda'ch partner, rhowch gynnig ar ateb y cwestiynau hyn am 1953.

- **Ar gyfartaledd**, faint yn hirach mae pobl yn byw nawr nag yn 1953?
- Pa nwyddau oedd yn cael eu **dogni**?
- Sut roedd noson yn y sinema'n dod i ben?
- Pa fath o swyddi oedd gan wragedd?
- Sut roedd menyng yn cael ei werthu?
- Sut roedd dillad yn cael eu golchi a'u sychu?
- Faint o gyllideb wythnosol pobl oedd yn cael ei wario ar fwyd a diodydd ysgafn? Beth am heddiw?
- Pa raglenni radio oedd yn boblogaidd?
- Sut mae arferion gwyliau wedi newid i lawer?
- Pam roedd pobl yn prynu **olew olewydd**?
- Enwch un digwyddiad hanesyddol sy'n dyddio'n ôl i 1953.
- Beth na fydddech chi'n cael hyd iddyn nhw yn y rhan fwyaf o dai yn 1953?
- Sut mae prynu bisgedi wedi newid dros y blynyddoedd?
- Pa raglenni teledu oedd yn boblogaidd? Enwch un gwahaniaeth mawr rhwng y rhaglenni hyn a rhaglenni heddiw.

## Gwyllo a gwrando 2 – Ar y Bysus (Tinopolis, 2018)



**Geirfa:**      cadoediad      Y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig  
cyflawn      ffaelu

Byddwch chi'n gwyllo fideo am daith cwmni bysus Cwm Taf i Wlad Belg, i ymweld â mannau pwysig yn hanes y Rhyfel Byd Cyntaf.

Yn gyntaf, rhwch gylch o gwmpas y geiriau uchod pan fyddwch chi'n eu clywed nhw. Yna, atebwch y cwestiynau isod.

1. Beth ydy lluosog...

amgueddfa.....

mynwent .....

2. Beth mae Hubert (y gyrrwr) yn ei ddweud am Sat Nav?

3. Sut mae'r ffyrdd yng Ngwlad Belg yn cymharu â'r ffyrdd gartre, yn ôl Hubert?

4. Pa enw mae'r cyflwynydd yn ei ddefnyddio yn lle 'Y Rhyfel Byd Cyntaf'?

5. Pa gerdd mae'r siaradwr olaf yn ei hadrodd?

6. Hen air am ryfel yw **cad**, ac mae'n elfen mewn llawer o eiriau Cymraeg, fel **cadoediad** a **cadfridog**. Gyda'ch partner, trafodwch ystyr yr ymadroddion hyn:

**i'r gad**

**maes y gad**

**ar flaen y gad**

## Siaradwch



- Ydych chi wedi bod ar daith fws dramor? Beth yw manteision ac anfanteision mynd ar daith fws?

### Rhestr wirio

Dw i'n gallu...

defnyddio berfau amhersonol.	
siarad am ryfel.	

## Uned 7 - Diwydiant a byd gwaith

### Nod yr uned hon yw...

- Defnyddio cymalau 'a'
- Siarad am ddiwydiannau hen a newydd
- Dysgu a defnyddio geirfa ac idiomau newydd

### Geirfa

**amaethyddiaeth** *agriculture*

**amgylchiad(au)** *circumstance(s)*

**ffwrnais (ffwrneisi)** *furnace(s)*

**pleidlais**  
**(pleidleisiau)** *vote(s)*

**sgileffaith**  
**(sgileffeithiau)** *side effect(s)*

**tirwedd(au)** *landscape(s)*

**tywysoges(au)** *princess(es)*

**arallgyfeirio** *to diversify*

**clymu** *to tie*

**cydnabod** *to recognise*

**manwerthu** *to retail*

**noswyllo** *mynd i'r gwely*

**slafio** *gweithio'n galed iawn*

**annibynnol** *independent*

**gwladol** *national*

**gwledig** *rural*

**hamddenol** *leisurely*

**llewyrchus** *thriving,  
flourishing,  
prosperous*

**pwerus** *powerful*

**arlunydd (arlunwyr)** *artist(s)*

**blas(au)** *taste(s)*

**cefndir(oedd)** *background(s)*

**cylch(oedd)** *circle(s);  
area(s)*

**cynllunydd**  
**(cynllunwyr)** *designer(s)*

**cynnyrch** *produce*

**digrifwr (-wyr)** *entertainer(s);  
comedian(s)*

**dur** *steel*

**dywediad(au)** *saying(s)*

**dyffryn(noedd)** *valley(s)*

**llonyddwch** *silence;  
calmness*

**melinydd(ion)** *miller(s)*

**metel(au) tawdd** *molten metal(s)*

**nwyddau** *goods*

**ergyd farwol** *final blow*

**gwrthwynebydd**  
**cydwybodol** *conscientious  
objector*

**pedwar ban**  
**y byd** *four corners  
of the world*

**yn ei anterth** *at its height*

**yn rhannol** *partly;  
partially*



## Help llaw – Cymalau 'a'

Yn yr uned hon, rydyn ni'n edrych ar y cymal **a** (*which, who*) rydyn ni'n ei ddefnyddio i gysylltu cymalau'r frawddeg â'i gilydd, fel hyn:

Fe yw'r dyn **a** welais i yn y siop ddoe.

Mae **treigladd meddal** ar ôl yr **a** yma.

Mewn Cymraeg ysgrifenedig, byddwch chi'n siŵr o weld cymalau **a**.

Wrth siarad, dydy pobl ddim bob amser yn dweud yr **a**, ond mae'r treigladd yno, e.e.

Hon yw'r gân glywais i ar y radio neithiwr.

Rydyn ni'n gweld **a** mewn cymalau pwysleisiol. Rydyn ni'n defnyddio **sy** yn y presennol ond **a** yn yr amserau eraill:

Siân **sy**'n arwain y côr heno.

Siân **a** fydd yn arwain y côr yr wythnos nesaf.

Siân **a** arweiniodd y côr yr wythnos diwethaf.

Siân **a** oedd yn arfer arwain y côr.

Sylwch nad yw'r **a** yn newid o flaen llafariad.

Sylwch hefyd ein bod ni'n defnyddio ffurf **trydydd person unigol** y ferf gyda'r lluosog hefyd:

Dyma'r person **a** gollodd ei swydd yn y ffatri.

Dyma'r bobl a **gollodd** eu swyddi yn y ffatri.

Lori **a** achosodd yr oedi ar yr M4 ddoe.

Loriau **a achosodd** yr oedi ar yr M4 ddoe.

Bydd y myfyriwr **a** gaiff y marciau uchaf yn ennill gwobr.

Bydd y myfyrwyr **a gaiff** y marciau uchaf yn ennill gwobr.

### Ymarfer

#### 1. Ar lafar gyda'ch partner, gwnewch yr ymarfer yma. Dilynwch y patrwm:

rhedeg y ras	Hi yw'r ferch a redodd y ras./Hi ydy'r ferch a redodd y ras.
bwyta'r caws	
nofio yn yr afon	
ffonio'r heddlu	
clywed y larwm	
achub fy nghath	
gweld y ddamwain	
canu yn y cyngerdd	
trwsio'r ffenest	
tacluso'r ardd	



2. Gwnewch frawddegau gyda'r cymal **a**. Dilynwch y patrwm:

Hi + merch + gweld + damwain > **Hi yw'r ferch a welodd y ddamwain.**

1. Dyma'r bont + adeiladu + Rhufeiniaid

2. Fe yw'r ci + bwyta + fy + gwaith cartref

3. Dyma'r gacen + coginio + fi + neithiwr

4. Dyma'r côr + canu + yn y cyngerdd + wythnos diwethaf

5. Dyna'r tractor + achosi + damwain

6. Fe ydy'r bachgen + canu unawd + yn y briodas nesa

7. Nhw yw'r bobl + dod i fyw + drws nesa + y mis nesa

8. Nhw ydy'r merched + rhedeg + ras + yn y gystadleuaeth nesa

3. Mewn iaith ffurfiol, caiff berfau amhersonol eu defnyddio'n aml gydag **a**, er enghraifft:

Mae'r ferch a arestiwyd neithiwr wedi cael ei rhyddhau.

Mae'r sbwriel a welir ar ein strydoedd y dyddiau hyn yn warthus.

Y Plygain yw'r gwasanaeth arbennig a gynhelir adeg y Nadolig.

**Gyda'ch partner, cysylltwch y cymalau hyn â'i gilydd i wneud brawddegau synhwyrol.**

Mae'r Nadolig yn wyl	a glywir cyn i Gymru chwarae rygbi
Mae'r briallu'n flodau	a ysgrifennwyd gan Gwyneth Lewis
'Hen Wlad Fy Nhadau'	a chwaraeir yn yr Alban
Ar Ganolfan y Mileniwm, mae barddoniaeth	a gynhelir ar Ragfyr y pumed ar hugain
Mae'r bagbib yn offeryn	a gynlluniwyd gan William Edwards
'Mam Cymru' yw'r enw	a roddir i fardd yn yr Eisteddfod Genedlaethol
Ym Mhontypridd mae'r bont enwog	a welir yn y gwanwyn
Cadair yw'r wobr	a roddir i Ynys Môn

4. Atebwch y cwestiynau gyda phwyslais gan ddefnyddio'r cymal **a**.
1. Pa ddiwydiant oedd yn bwysig yn ne Cymru yn y gorffennol? (y diwydiant glo)  
.....
2. Beth fydd yn datblygu mwy a mwy yn y dyfodol? (twristiaeth)  
.....
3. Beth fasai'n dda i'r economi? (mwy o swyddi'n gofyn am sgiliau uchel)  
.....
4. Beth oedd yn bwysig iawn i economi gogledd Cymru yn y gorffennol?  
(y chwareli llechi)  
.....
5. Beth gaeodd yn 2018? (y pwll glo olaf)  
.....

## Beth yw diwydiant? diwydiant eg. ll. diwydiannau

1. y broses o gynhyrchu nwyddau mewn ffatrioedd *industry*
2. ffurf neu gangen benodol o weithgaredd diwydiannol neu fasnachol, e.e. y diwydiant ceir *industry*

*Geiriadur Cymraeg Gomer*

## Storom eirfa

Nodwch eiriau eraill sy'n gysylltiedig â diwydiant yn y blwch isod.



### Amaethyddiaeth

Mae llawer o ardaloedd **gwledig** yng Nghymru a dyna pam roedd amaethyddiaeth mor bwysig i'r economi. Erbyn hyn, dim ond tua 4% o boblogaeth Cymru sy'n ffermio, ond mae hyn yn ganran uwch na gweddill Prydain. Mae'r ffermydd eu hunain yn llai yma yng Nghymru. Rydyn ni'n ffermio defaid, gwartheg, moch a ieir yn bennaf. Tyfir rhai cnydau yma ond dyw tir Cymru ddim yn addas iawn i gnydau. Mae twristiaeth yn dod yn fwy pwysig i economi cefn gwlad Cymru ac mae llawer o ffermwyr yn arallgyfeirio.

### Siaradwch



- Mae llawer o bobl yng Nghymru yn gweithio mewn llywodraeth leol, iechyd ac addysg. Oes profiad gyda chi o weithio yn un o'r meysydd yma?
- Mae'r sector gwasanaethau (e.e. manwerthu a thwristiaeth) yn bwysig yng Nghymru. Beth yw'r sefyllfa yn eich ardal chi?
- Beth yn eich barn chi yw'r atyniadau mwyaf poblogaidd i dwristiaid yng Nghymru? Ydych chi wedi ymweld â rhai o'r atyniadau hyn?

### Gwyllo a gwrando 1 - Cynefin (Rondo)



Mae Heledd Cynwal yn ymweld â Dyffryn Clwyd a busnes llwyddiannus Llaeth y Llan.

Rhowch gylch o gwmpas y geiriau hyn pan fyddwch chi'n eu clywed nhw:

<b>ffwrnais</b>	<b>clymu</b>	<b>dyffryn</b>	<b>dosbarthu</b>	<b>cynnyrch</b>
<b>pedwar ban y byd</b>	<b>llonyddwch</b>	<b>blas</b>	<b>slafio</b>	<b>noswyllo</b>
<b>hamddenol</b>	<b>cefnidir</b>	<b>llewyrchus</b>	<b>amgylchiadau</b>	

1. Beth ydy arwyddocâd y rhifau yma yn y darn?

30,000 .....

14 .....

1985 .....

9 neu 10 o'r gloch .....

**2.** Mae Heledd Cynwal yn dweud bod yr "hen reilffyrdd...wedi hen ddiflannu". Beth ydy ystyr yr ymadrodd 'hen ddiflannu'?

.....

Beth ydy *high time*? .....

Ymatebwch:

Mae hi wedi colli ei swydd hi.

Mae'n hen bryd iddi hi ddod o hyd i swydd newydd.

Mae ei arholiadau'n dechrau'n fuan.

.....

Mae'r bil coch wedi cyrraedd eu tŷ nhw.

.....

Rwyf ti'n edrych yn flinedig iawn.

.....

Mae'r bws yn gadael mewn hanner awr.

.....

Mae hi'n gobeithio prynu ei thŷ ei hun.

.....

Mae fy nghefn i'n brifo eto.

.....

**3.** Mae Owain Roberts yn dweud, "Sdim pwysau ar neb i ddod yn ôl i'r busnes". Pa eiriau sy'n gallu cael eu defnyddio gyda'r gair **pwysau**?

.....

.....

## Siaradwch



- Ydych chi'n gallu meddwl am fwy o gwmnïau Cymreig sy'n gwneud bwydydd?
- Ydych chi'n prynu bwydydd Cymreig?
- Mae Owain Roberts yn dweud nad oedd wedi breuddwydio am bacio iogwrts pan oedd e'n blentyn. Beth oedd eich breuddwyd chi pan oeddech chi'n blentyn?

## Gwyllo a gwrando 2 – Myrddin ap Dafydd



Mae Myrddin ap Dafydd yn dod o ardal Llanrwst ac mae e'n ddyn busnes. Gwrandewch arno fe'n siarad am fyd busnes. Gwrandewch am y geiriau isod.

**dywediad**

**annibynnol**

**cylch**

**cydnabod**

## Siaradwch



- Oes trefi marchnad yn eich ardal chi?
- Ydych chi erioed wedi rhedeg busnes? Beth am aelodau o'ch teulu neu'ch ffrindiau chi?
- Pa fath o berson ddylech chi fod er mwyn rhedeg busnes yn llwyddiannus?
- Hoffech chi redeg busnes?
- Tasech chi'n gallu dechrau busnes, beth fasai fe?

## Darllen 2 – Gwenallt



**Geirfa:**      **tirwedd**      **pwerus**      **gwrthwynebydd cydwybodol**  
                   **metel**            **tawdd**            **sgileffeithiau**

Gwenallt, neu David James Jones (1899–1968) yw'r bardd Cymraeg **a gysylltir** fwyaf â diwydiannau trwm de Cymru. Cafodd ei fagu yn yr Allt-wen, Cwm Tawe, a dyna sut cafodd ei enw barddol.

Roedd ei dad yn dod o Rydcymerau, sir Gaerfyrddin yn wreiddiol. Symudodd y teulu i Gwm Tawe i gael gwaith, ond wnaethon nhw ddim colli cysylltiad â'u gwreiddiau. Roedd Gwenallt wrth ei fodd yn mynd i aros gyda pherthnasau yn Rhydcymerau. Mae cerddi fel 'Sir Gaerfyrddin' a 'Golden Grove' yn dangos ei gariad at **dirwedd** a phobl yr ardal.

Er ei fod yn ysgrifennu cerddi **pwerus** am y byd diwydiannol, wnaeth Gwenallt erioed weithio dan ddaear na dilyn ei dad i waith tun Cwm Tawe. Buodd yn athro ysgol gynradd i ddechrau, cyn cael ei garcharu am ddwy flynedd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf am fod yn **wrthwynebydd cydwybodol**. Ar ôl y Rhyfel, cafodd radd Gymraeg a Saesneg, a dod yn ddarlithydd yn Adran Gymraeg Prifysgol Aberystwyth. Ond, cafodd brofiad personol ofnadwy o

berygl y diwydiannau trwm pan laddwyd ei dad gan **fetel tawdd** yn y gwaith tun. Collodd ffrindiau trwy **sgileffeithiau** diwydiant hefyd, fel y gwelwn ni yn y rhan yma o'r gerdd, 'Y Meirwon'.

### Y Meirwon

Bydd dyn wedi troi'r hanner-cant yn gweld yn lled glir  
 Y bobl a'r cynefin a foldiodd ei fywyd e',  
 A'r rhaffau dur a'm deil dynnaf wrthynt hwy  
 Yw'r beddau mewn dwy fynwent yn un o bentrefi'r De.

Wrth yrru ar feisiglau wedi eu lladrata o'r sgrap  
 A chwarae rygbi dros Gymru â phledrenni moch,  
 Ni freuddwydiais y cawn glywed am ddau o'r cyfoedion hyn  
 Yn chwydu eu hysgyfaint i fwced yn fudr goch.





1. "Gwenallt yw'r bardd Cymraeg a **gysylltir** fwyaf â diwydiannau trwm de Cymru."

Dilynwch y frawddeg yma fel patrwm i lenwi'r bylchau yn y brawddegau isod.

1. Y gwcw yw'r aderyn \_\_\_\_\_ gyntaf yn y gwanwyn.  
[clywed]
2. Dyma'r dyn \_\_\_\_\_ yn y llyfrgell bob dydd.  
[gweld]
3. Y Gymraeg yw'r iaith \_\_\_\_\_ ar Radio Cymru.  
[siarad]
4. Coch yw lliw'r crys \_\_\_\_\_ fel arfer gan dîm rygbi Cymru. [gwisgo]
5. Blawd codi \_\_\_\_\_ yn y rysâit yma.  
[defnyddio]

2. Mae'r geiriau isod yn y darn darllen. Allwch chi feddwl am eiriau sy'n gysylltiedig â nhw?

diwydiannau .....

gwreiddiau .....

carcharu .....

peryl .....  
.....  
.....

3. "Wnaeth Gwenallt erioed weithio **dan ddaear**." Allwch chi feddwl am ymadroddion eraill sy'n cynnwys **dan**?

.....  
.....

4. Mae'r bardd yn dweud ei fod yn gweld yn "lled glir". Ystyr **lled** yw *width*. Ond, mae hefyd yn gallu golygu **eithaf**, **braidd** neu **hanner**.

Sut byddech chi'n cyfieithu'r geiriau hyn?

**lled-awtomatig** .....

**lled-barhaol** .....

**lled-ferwi** .....

**lled-orwedd** .....

**lled-gytuno** .....



## Siaradwch



**Mae'r bardd yn sôn am "y bobl a'r cynefin a foldiodd ei fywyd e".**

Beth a phwy sydd wedi 'moldio' eich bywyd chi? Siaradwch â'ch partner.



## Gwrando - 'Melinydd oedd fy nhaid'

Byddwch chi'n gwrando ar Plethyn yn canu'r gân werin, 'Melinydd oedd fy nhaid.' Mae hi'n sôn am bobl sy'n gweithio mewn gwahanol ddiwydiannau (melinydd, chwarelwr a physgotwr). Mae brawddegau pwyslais yn y gân; llenwch y bylchau â berfau addas.

\*pan ddelo fo = pan ddaw o/e

Melinydd ..... fy nhaid,  
 Melinydd ..... fy nhad,  
 Melinydd ..... innau, y gorau yn y wlad;  
 Melinydd ..... y baban pan ddelo fo i'r byd,  
 On'd ydyw yn beth rhyfedd bod ni'n felinyddion i gyd?

Chwarelwr ..... fy nhaid,  
 Chwarelwr ..... fy nhad,  
 Chwarelwr ..... innau, y gorau yn y wlad;  
 Chwarelwr ..... y baban pan ddelo fo i'r byd,  
 On'd ydyw yn beth rhyfedd bod ni'n chwarelwyr i gyd?

Physgotwr ..... fy nhaid,  
 Physgotwr ..... fy nhad,  
 Physgotwr ..... innau, y gorau yn y wlad;  
 Physgotwr ..... y baban pan ddelo fo i'r byd,  
 On'd ydyw yn beth rhyfedd bod ni'n bysgotwyr i gyd?

### Rhestr wirio

Dw i'n gallu...

defnyddio cymalau 'a'.	
siarad am ddiwydiant yng Nghymru.	

## Uned 8 – Chwaraeon

### Nod yr uned hon yw...

- Ymarfer defnyddio cymalau negyddol (na/nad)
- Trafod chwaraeon
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

## Geirfa

<b>buddugoliaeth(au)</b>	<i>victory (victories)</i>
<b>dadl(euon)</b>	<i>argument(s); debate(s)</i>
<b>ysgol fonedd (ysgolion bonedd)</b>	<i>public school(s)</i>

<b>cydlynu</b>	<i>to coordinate</i>
<b>gwirfoddoli</b>	<i>to volunteer</i>

<b>rhyfeddol</b>	<i>amazing</i>
------------------	----------------

<b>adolygiad(au)</b>	<i>review(s)</i>
<b>anabledd(au)</b>	<i>disability (disabilities)</i>
<b>arolwg (arolygon)</b>	<i>survey(s)</i>
<b>cyfartaledd</b>	<i>average</i>
<b>cyfarwyddwr (-wyr)</b>	<i>director(s)</i>
<b>gorfoledd</b>	<i>elation</i>
<b>llysgennad (llysgenhadon)</b>	<i>ambassador(s)</i>
<b>noddwr (-wyr)</b>	<i>sponsor(s)</i>
<b>rhagair</b>	<i>foreword</i>
<b>rhagolwg (rhagolygon)</b>	<i>forecast(s)</i>

<b>ar draul</b>	<i>at the expense of</i>
<b>ar fin</b>	<i>about to</i>
<b>heb os nac oni bai</b>	<i>without a shadow of a doubt</i>
<b>i bob pwrpas</b>	<i>to all intents and purposes</i>
<b>llwyddiant ysgubol</b>	<i>a resounding success</i>
<b>o blith</b>	<i>from amongst</i>
<b>pob cwr o'r byd</b>	<i>pob rhan o'r byd</i>
<b>Y Gamp Lawn</b>	<i>The Grand Slam</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

## Adolygu cymalau 'a'

Unwch ddau hanner y frawddeg gan ddefnyddio **a**:

Dyma'r adnodd...

Cafodd yr adnodd ei gyfieithu i'r Gymraeg.

Dyma'r car...

Llogodd fy nhad y car i fynd ar wyliau.

Dw i'n adnabod rhywun...

Bydd e'n symud i fyw yn Rhufain.

Maen nhw'n mynd i gyfarfod undeb...

Cynhelir y cyfarfod yn Ystafell Bwyllgor 5.

Mae'n adolygiad pwysig...

Bydd yr adolygiad yn helpu'r gwaith cynllunio yn y dyfodol.

Welaist ti'r rhagair?

Ysgrifennodd yr awdur y rhagair yn y llyfr.

Glywoch chi'r ddadl?

Cynhaliwyd y ddadl ar y teledu neithiwr.

Dyma'r ysgol fonedd...

Roedd hi yn y newyddion y mis diwetha.

Maen nhw'n cynnal arolwg...

Bydd yr arolwg yn eu helpu nhw i ysgrifennu polisi.

Daeth dyn i mewn i'r banc bwyd.

Bydd e'n gwirfoddoli yma yn y dyfodol.

Darllenais i am y cwmni...

Buddsoddodd y cwmni yn y busnes.

## Storom eirfa

Ysgrifennwch o leia ddeg gair sy'n ymwneud â chwaraeon yn y blwch:



## Gwyllo a gwrando

**Geirfa:**            **llwyddiant ysgubol**            **anabledd/au**

Byddwch chi'n gweld clip fideo gyda Rhodri Gomer Davies yn mynychu digwyddiad chwaraeon anabledd yng Nghyncoed ar ran rhaglen *Heno* yn ystod Gemau Paralympaidd Rio 2016.

1. Ar ddechrau'r clip, mae Rhodri'n dweud bod tîm Prydain wedi cael **llwyddiant ysgubol** yn y gemau Paralympaidd yn Llundain bedair blynedd ynghynt. Ydych chi'n gallu meddwl am rywbeth rydych chi wedi'i wneud, neu ddigwyddiad rydych chi wedi bod ynddo, oedd yn **llwyddiant ysgubol**?
2. Tua diwedd y clip, byddwch chi'n clywed siaradwr arall yn dweud '**o'n i wastad yn meddwl...**' i siarad am y ffordd roedd yn meddwl am bethau yn gyson pan oedd yn ifanc. Meddylwch am rywbeth roeddech chi'n arfer ei wneud yn gyson ar ryw gyfnod yn y gorffennol:

(R)o'n i wastad yn....

Meddylwch hefyd am rywbeth rydych chi'n ei wneud yn gyson nawr. Gallwch chi ddefnyddio'r amser presennol i drafod hynny, neu mae'r amser dyfodol yn cael ei ddefnyddio'n aml wrth siarad am rywbeth rydyn ni'n ei wneud yn gyson:

Dw i wastad yn...

neu: Bydda i wastad yn...

3. Edrychwch ar y clip unwaith a cheisiwch gofio cymaint ag y gallwch chi o wahanol gampau/chwaraeon sydd i'w gweld.



Ar ôl gweld y fideo eto, atebwch y cwestiynau canlynol:

**4.** Sut newidiodd agwedd pobl at athletwyr ag anableddau ar ôl Gemau Paralympaidd Llundain, yn ôl Steffan Hughes?

.....

**5.** Beth roedd Lois wedi mwynhau ei wneud? (dau beth)

.....

**6.** Sawl gwaith roedd y digwyddiad wedi cael ei gynnal o'r blaen?

.....

**7.** Tua faint o blant a phobl ifanc fynychodd y digwyddiad?

.....

**8.** Beth ydy cysylltiad Phil Pratt â'r digwyddiad yng Nghyncoed?

.....

**9.** Yn ôl James Lusted, sut mae pethau wedi newid o safbwynt pobl anabl a chwaraeon ers pan oedd e'n ifanc?

.....

**10.** Mae'r tri dyn sy'n siarad ar y clip yn dod o dair rhan wahanol o'r wlad. Pwy sy'n dod o ba un o'r ardaloedd canlynol?

Sir Conwy    Sir Gaerfyrddin    ardal Caernarfon

Enw	O ba ardal?
Steffan Hughes	
Tom Rogers	
James Lusted	

Pam gwnaethoch chi roi'r atebion hyn? Beth glywoch chi yn iaith y siaradwyr sy'n eich helpu chi i wybod o ba ardal maen nhw'n dod?

## Siaradwch



- Ydych chi'n cymryd rhan mewn unrhyw fath o chwaraeon neu weithgaredd corfforol y dyddiau yma?
- Beth fyddwch chi'n ei wneud, a pha mor aml?
- Oeddech chi'n mwynhau chwaraeon neu ymarfer corff pan oeddech chi yn yr ysgol?
- Sut mae eich arferion chi wedi newid dros y blynyddoedd?
- Oes digon o gyfleoedd i bobl o bob oed a chefnidir, yn wrywaidd a benywaidd, abl ac anabl, i gymryd rhan mewn chwaraeon yn eich ardal chi?
- Ydych chi wedi gwirfoddoli i helpu clwb neu grŵp chwaraeon mewn rhyw ffordd?

## Darllen 1 – Chwaraeon a'r iaith Gymraeg



**0 (x3)**                      **3**                      **2016 (x2)**                      **350,000**                      **miloedd**

Euros \_\_\_\_\_: Cymru \_\_\_\_\_ Rwsia \_\_\_\_\_. Tra oedd \_\_\_\_\_ o Gymry yn dawnsio mewn gorfoledd yn y stadiwm ac o flaen sgriniau teledu, roedd cwmni o Gaerdydd yn paratoi un o'r ymgyrchoedd marchnata mwyaf llwyddiannus erioed yn y Gymraeg.

Yn ystod Pencampwriaeth Euro \_\_\_\_\_ roedd cwmni Mela yn un o bartneriaid Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac yn cydlynu rhan o'u gwaith cyfathrebu.

Gyda Chymru ar fin trechu Rwsia, ac yn edrych fel eu bod am ennill y grŵp, cysylltodd tîm marchnata cwmni chwaraeon Adidas ag Ashok Ahir, cyfarwyddwr Mela.

"Adidas oedd un o brif noddwyr y gystadleuaeth ac fel ro'dd hi'n digwydd, y nhw hefyd oedd yn cynhyrchu gwisgoedd tîm Cymru ac ro'dd Gareth Bale yn llysgennad iddyn nhw," meddai Ashok Ahir.

"Gan fod sgôr gêm Lloegr a Slofacia'n gyfartal (\_\_\_\_\_ - \_\_\_\_\_), roedd yn edrych fel bod Cymru am ennill y grŵp ac ro'dd y cwmni am adlewyrchu llwyddiant tîm Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol. Fe ofynnion nhw i ni gyfieithu y slogan hysbysebu roedden nhw wedi bod yn ddefnyddio i hyrwyddo ymgyrch Cymru yn ystod y gystadleuaeth i'r Gymraeg."

Roedd beth ddigwyddodd wedyn yn rhyfeddol yn ôl Ashok.

"Wedi i'r neges Gymraeg gael ei hanfon o gyfrif Twitter Adidas, yn fuan ar ôl y chwiban olaf, fe gafodd hi ei rhannu yn gyflym ac fe gyrhaeddodd yr iaith Gymraeg bob cwr o'r byd mewn byr amser. Gwelodd dros \_\_\_\_\_ o bobl y neges", meddai.

(Addasiad o erthygl ar *Cymru Fyw*)

Sut mae dweud?

*marketing campaigns* \_\_\_\_\_ *communication work* \_\_\_\_\_  
*sports company* \_\_\_\_\_ *social media* \_\_\_\_\_  
*advertising slogan* \_\_\_\_\_ *final whistle* \_\_\_\_\_

Nesa, meddyliwch am o leiaf 3 enghraifft arall ar gyfer y geiriau yma.

ymgyrchoedd \_\_\_\_\_  
 cwmni \_\_\_\_\_  
 gwaith \_\_\_\_\_



### Siaradwch

- Ydych chi'n cofio Euros 2016? Os ydych chi, pa fath o atgofion sy gyda chi?
- Ydych chi'n gwylio chwaraeon ar S4C?
- Oes rhywun sy'n llysgennad dros y Gymraeg yn y byd chwaraeon yng Nghymru ar hyn o bryd?
- Os ydych chi'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, faint o Gymraeg rydych chi'n ei gweld arny'n nhw? Ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg?



## Help llaw – Cymalau 'na/nad'

Mae llawer o ffyrdd gwahanol o ffurfio **cymalau cadarnhaol** mewn brawddegau, e.e. cymalau enwol yn defnyddio **bod**, neu **y**:

Dwedodd rhywun **ei bod hi'n** byw yn Llanarthur.

Dw i'n siŵr **fy mod i** wedi gweld popeth.

Dw i'n gwybod **y byddwch** chi'n gweithio.

neu gymalau **a**:

Dyma'r grŵp **a** enillodd y sioe dalent.

neu gymalau enwol gyda phwyslais – cymalau **mai/taw**:

Mae hi'n gwybod **mai** ti wnaeth.

Clywais i **taw** Dafydd enillodd y ras.

Ar gyfer pob un o'r patrymau uchod, gallwch chi ffurfio **cymalau negyddol** trwy ddefnyddio **na** (neu **nad** o flaen llafariad):

Dwedodd rhywun **nad** ydy hi'n byw yn Llanarthur.

Dw i'n siŵr **nad** ydw i wedi gweld popeth.

Dw i'n gwybod **nad** oes dosbarth yr wythnos nesaf.

Clywais i **nad** oedd hi yn y dosbarth neithiwr.

Dyma'r grŵp **nad** enillodd y sioe dalent.

Dw i'n gwybod **na** fyddwch chi'n gweithio.

Byddwch chi'n gweld nad oes rhaid i chi ddefnyddio'r gair **ddim** pan fyddwn ni'n defnyddio **na** neu **nad**. Fel gyda phopeth arall yn y negyddol, mae **na** yn achosi treigladau llaes/treigladau meddal.

**Nad** sy'n cael ei ddefnyddio hefyd i droi cymalau enwol gyda phwyslais (cymalau **mai/taw**) yn negyddol:

Mae hi'n gwybod mai ti wnaeth.

>

Mae hi'n gwybod **nad** ti wnaeth.

Clywais i taw Dafydd enillodd y ras.

>

Clywais i **nad** Dafydd enillodd y ras.

Dysgwch:

**nad ydw i**

**nad ydyn ni**

**nad wyt ti**

**nad ydych chi**

**nad yw/ydy Sam**

**nad ydyn nhw**



## Ymarfer

Cysylltwch ddau hanner y brawddegau isod, gan ddefnyddio **na** neu **nad**:

- |  |   |
|--|---|
| 1. Roedd y rhagolygon yn dweud...      | Fydd hi ddim yn bwrw glaw heddiw.                         |
| 2. Clywais i...                        | Does dim rhagor o arian gyda hi/ganddi hi.                |
| 3. Dych chi'n siŵr?                    | Dyw e/Dydy o ddim yn bwyta cig.                           |
| 4. Cyhoeddodd Undeb Rygbi Cymru...     | Fydd Steff Jones ddim yn y tîm i chwarae yn erbyn Lloegr. |
| 5. Dywedodd y rheolwr...               | Nid yn Wreccsam bydd y gêm nesaf.                         |
| 6. Dw i'n gobeithio...                 | Fyddwn ni ddim yn colli'r gêm.                            |
| 7. Roedd yr hyfforddwr yn gwybod...    | Doedd yr amddiffyn ddim yn gadarn iawn.                   |
| 8. Roedd Siân yn benderfynol...        | Fyddai hi ddim yn rhoi'r gorau i redeg.                   |
| 9. Cofiwch...                          | Dyw/Dydy'r amgueddfa ddim ar agor ar ddydd Llun.          |
| 10. Dw i wedi dweud...                 | Dw i ddim yn hoff iawn o bwyllgora.                       |
| 11. Gwnest ti'n dda iawn o ystyried... | Dwyt ti ddim wedi bod wrthi'n hir iawn.                   |
| 12. Mae'r arolwg yn dangos...          | Nid nofio yw'r gweithgaredd mwyaf poblogaidd.             |

Byddwch chi hefyd yn clywed **nad** yn troi yn **nag** ar lafar mewn rhai ardaloedd. A chofiwch hefyd fod y ffurfiau isod yn gyffredin ar lafar.

fy mod i ddim/bo fi ddim  
dy fod ti ddim/bo ti ddim  
ei fod e/o ddim/bo fe ddim  
ei bod hi ddim/bo hi ddim

ein bod ni ddim/bo ni ddim  
eich bod chi ddim/bo chi ddim  
eu bod nhw ddim/bo nhw ddim

Ymatebwch i'r brawddegau isod gan ddefnyddio **Gobeithio na/nad...**

e.e. Dw i ddim eisiau i Siôn fynd. Gobeithio na fydd e/o'n mynd.

1. Dw i ddim eisiau i'r Scarlets gollu. Gobeithio na...
2. Dw i ddim eisiau i chi wylltio.
3. Dw i ddim eisiau i Megan weld.
4. Dw i ddim eisiau i Dewi anghofio.

Ymatebwch i'r brawddegau canlynol gyda chwestiwn yn dechrau gyda

### **Pam na wnei di...?**

e.e. Dw i eisiau colli pwysau. (bwyta) Pam na wnei di fwyta llai?

Hoffwn i wella fy handicap. (ymarfer)

Mae rhaid i fi arbed arian. (aros i mewn)

Does gen i ddim amser i baratoi swper. (prynu pryd parod)

Dw i eisiau bod yn fwy ffit. (cymryd rhan yn y *Parkrun*)

Mae gormod o stwff yn y tŷ. (gwerthu pethau ar *ebay*)

Defnyddiwch **Pam nad ewch chi...?** neu **Pam na ddewch chi...?**

i ymateb i'r brawddegau nesaf:

e.e. Mae'r gêm ar *Sky*. (mynd i'r dafarn) Pam nad ewch chi i'r dafarn?

'Dyn/Dan ni ddim wedi gweld eich tŷ newydd chi. (dod draw nos Wener)

'Dyn/Dan ni erioed wedi bod yn Sbaen. (mynd ar eich gwyliau nesa)

'Dyn/Dan ni wedi teithio yma mewn dau gar eto. (dod gyda/efo fi y tro nesa)

'Dyn/Dan ni eisiau gwella ein Cymraeg.

## Darllen 2 – Y Gêm Genedlaethol



Bydd eich tiwtor yn gofyn i chi ddarllen un o'r darnau isod. Cyn gwneud hynny, edrychwch ar yr ymadroddion yma sy'n cael eu defnyddio yn y ddau ddarn:

### 1. o blith

Rydyn ni'n defnyddio **o blith** (o + plith) wrth siarad am un neu fwy o bobl neu bethau sy'n rhan o grŵp mwy, e.e. Cymru yw'r orau **o blith** holl wledydd y byd.

Gyda **ni, chi a nhw**, mae'n dilyn yr un patrwm ag **o gwmpas**, h.y. o'n cwmpas ni, o'ch cwmpas chi, o'u cwmpas nhw. Llenwch y bylchau yn y brawddegau isod â'r ffurf gywir ar **o blith**:

- "Dim ond un neu ddau \_\_\_\_\_ chi fydd yn llwyddo yn yr arholiad yma", meddai'r athro.
- Aeth deg o ffrindiau ar y daith i Baris, ond dim ond un \_\_\_\_\_ nhw oedd yn siarad Ffrangeg.
- Bydd un \_\_\_\_\_ ni'n mynd ymlaen i'r rownd derfynol.

### 2. heb os nac oni bai

Os ydych chi'n gwbl sicr o rywbeth (ffaith neu farn), mae modd defnyddio **heb os nac oni bai** i ddweud bod dim amheuaeth o gwbl, e.e. Heb os nac oni bai, Haf yw'r athletwraig orau yn ei blwyddyn.

Meddylwch am ddwy ffaith neu farn y byddech chi'n eu cyflwyno â 'heb os nac oni bai':

.....

.....

## Darn 1 – Y Gêm Genedlaethol?

**i bob pwrpas  
o blith**

**Y Gamp Lawn  
heb os nac oni bai**

**buddugoliaeth**

Pa un yw gêm genedlaethol Cymru? Rygbi wrth gwrs! Pan welwch chi faint o bobl sydd ar strydoedd Caerdydd ar ddiwrnod gêm rygbi ryngwladol, mae'n amlwg i bawb. Mae'r Cymry'n cefnogi eu tîm rygbi cenedlaethol bob amser. Ar 15 Hydref 2011 daeth 60,000 o bobl i Stadiwm y Mileniwm i wylïo Cymru'n chwarae yn erbyn Ffrainc. Does dim byd yn anarferol yn hynny, meddech chi, ond roedd hi'n 8 o'r gloch y bore a'r gêm yn cael ei chwarae 11,500 o filltiroedd i ffwrdd yn Seland Newydd! Dim ond sgrin oedd yn y stadiwm. Mae hynny'n dangos pa mor bwysig yw rygbi i'r Cymry.

Mae tîm rygbi Cymru yn un o'r timau gorau yn y byd hefyd. Er nad ydyn ni wedi ennill Cwpan y Byd eto, mae ein tîm ni yno'n cystadlu yn y twrnamaint bob pedair blynedd. Rydyn ni wedi ennill Pencampwriaeth y Chwe Gwlad (sy'n golygu bod yn bencampwyr Ewrop i **bob pwrpas**) sawl gwaith, ac wedi ennill Y **Gamp Lawn** bedair gwaith rhwng 2005 a 2019, sef ennill pob gêm yn y bencampwriaeth. Hefyd, mae gemau'n cael eu cynnal yn erbyn prif dimau'r byd yn rheolaidd. Mae Cymru wedi cael sawl **buddugoliaeth** yn erbyn timau fel Awstralia a De Affrica. Yr unig dîm **o blith** y goreuon yn y byd nad ydyn ni wedi llwyddo i'w drechu'n ddiweddar yw Seland Newydd. **Heb os nac oni bai**, nhw yw'r tîm cryfaf yn y byd ac mae Cymru wedi cael sawl gêm agos yn eu herbyn nhw.

Mae mwy o hwyl i'w gael wrth gefnogi rygbi. Does dim angen cadw cefnogwyr y timau ar wahân, fel sy'n digwydd mewn gemau pêl-droed. Mae pawb yn ffrindiau, yn cefnogi eu tîm ond eto'n gyfeillgar â phawb arall. Gall y cefnogwyr weiddi dros bob chwaraewr sy'n gwisgo'r crys coch dros Gymru, hyd yn oed os yw'n chwarae i dîm nad ydyn nhw'n ei gefnogi ar adegau eraill.

Dyna pam mai rygbi yw'r gêm genedlaethol a pham mae'r wlad yn dod i stop pan fydd ein tîm cenedlaethol yn chwarae.

## Darn 2 – Y Gêm Genedlaethol?

### ysgol fonedd

### cyfartaledd

### o blith

### heb os nac oni bai

Mae pobl, am ryw reswm, yn meddwl mai rygbi yw gêm genedlaethol Cymru. Dim o gwbl! Cerddwch chi drwy'r parc, ar gae ysgol amser cinio neu ar stryd hyd yn oed, pêl-droed mae'r Cymry yn ei chwarae, nid rygbi. Yn Lloegr dechreuodd rygbi, wrth i William Webb-Ellis afael yn y bêl a rhedeg, a hynny ar ganol gêm bêl-droed mewn **ysgol fonedd**.

Mae'r Cymry'n hoffi cael rheswm i fynd i Gaerdydd ar ddiwrnod gêm rygbi ryngwladol ond mae'r ffigurau'n dangos nad oes cymaint o gefnogaeth i rygbi drwy'r flwyddyn. Ar **gyfartaledd**, bydd 8,863 o gefnogwyr yn mynd i weld Gleision Caerdydd yn chwarae rygbi tra bydd 23,194 yn mynd i weld Dinas Caerdydd yn chwarae pêl-droed; mae 8,265 yn mynd i weld y Gweilch ond 15,558 yn mynd i weld Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe. Mae'n amlwg pa un ydy'r gêm genedlaethol.

A phwy all anghofio llwyddiant anhygoel tîm pêl-droed Cymru yn cyrraedd rownd gyn-derfynol pencampwriaeth Ewro 2016? Tra oedd miloedd o gefnogwyr wedi teithio i Ffrainc i ddilyn y tîm drwy'r twrnaint, roedd yr awyrgylch gartref ym mhob rhan o Gymru yn wych hefyd. Efallai eich bod yn cofio'r croeso anhygoel a gafodd y pêl-droedwyr wrth ddychwelyd o Ffrainc. Daeth degau o filoedd o bobl i lenwi strydoedd Caerdydd i longyfarch y tîm. Dychmygwch sut basai hi wedi bod tasai Cymru wedi ennill y gystadleuaeth!

Rhaid cofio nad ydy hi mor hawdd i Gymru lwyddo mewn pencampwriaethau pêl-droed mawr fel yr Ewros a Chwpan y Byd. Gan fod y gêm yn cael ei chwarae ym mhob gwlad ledled y byd, mae llawer mwy o gystadleuaeth nag sydd gan y tîm rygbi ac roedd cyrraedd y pedwar olaf **o blith** holl wledydd Ewrop yn dipyn o gamp – llawer mwy o gamp nag ennill pencampwriaeth sydd â dim ond chwe gwlad yn cystadlu ynddi bob blwyddyn!

**Heb os nac oni bai** felly, pêl-droed ydy ein gêm genedlaethol.

Ar ôl darllen un o'r darnau uchod, trafodwch yn eich grŵp a rhowch bedwar rheswm yn y tabl isod pam mai rygbi/pêl-droed ddylai gael ei hystyried yn gêm genedlaethol Cymru. Wedyn holwch rywun sydd wedi darllen y darn arall i gael dadleuon o blaid y gamp arall:

Rygbi	Pêl-droed
1.	1.
2.	2.
3.	3.
4.	4.

## Siaradwch



- Ydych chi'n mwynhau gwyllo pêl-droed neu rygbi neu'r ddwy gamp – yn fyw neu ar y teledu?
- Oes un ohonyn nhw'n haeddu'r teitl 'Y Gêm Genedlaethol' yn eich barn chi?
- Ydy rygbi a/neu bêl-droed yn cael gormod o sylw ar draul campau neu ddiddordebau eraill?

### Rhestr wirio

Dw i'n gallu...

defnyddio cymalau 'na/nad'.	
siarad am chwaraeon.	

## Uned 9 – Papurau bro

### Nod yr uned hon yw...

- Adolygu Unedau 1–8
- Dysgu a defnyddio geirfa ac idiomau newydd

## Geirfa

<b>bro(ydd)</b>	ardal(oedd)
<b>rhinwedd(au)</b>	virtue(s)

<b>gwatwar</b>	to mock, to ridicule (through imitation)
<b>gweddu (i)</b>	to suit, to befit
<b>tystio</b>	to testify, to witness

<b>colofnydd (colofnwyr)</b>	columnist(s)
<b>golygydd(ion)</b>	editor(s)
<b>hanfod(ion)</b>	essence(s), nature, essentials
<b>llywydd(ion)</b>	president(s)
<b>rhifyn(nau)</b>	issue(s), instalment(s)
<b>trysorydd(ion)</b>	treasurer(s)

<b>addysgiadol</b>	educative, educational
<b>cymunedol</b>	community
<b>dyddiol</b>	daily
<b>gwadd</b>	guest, i.e. guest speaker
<b>misol</b>	monthly
<b>newyddiadurol</b>	journalistic
<b>teilwng (o)</b>	deserved, deserving, worthy (of)

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....



## Storom eirfa – Papurau newydd a chylchgronau

Nodwch o leia 6 gair sy'n gysylltiedig â'r rhain yn y blwch hwn.

## Gwyllo a gwrando 1 – Papurau bro



Byddwch chi'n gwyllo fideo sy'n trafod papurau bro, a sut mae'r broses o greu papur bro wedi newid dros y blynyddoedd. Mae tri siaradwr ar y fideo, sef Mari Emlyn yn gyntaf, Penri Jones yn ail, a Dylan Iorwerth yn drydydd.

Yn gyntaf, rhowch gylch o gwmpas y geiriau hyn pan fyddwch chi'n eu clywed nhw.

**golygydd**

**gwatwar**

**ymwneud (â)**

**colofnydd**

**newyddiadurol**

**rhinwedd**

**misol**

**gweddu**

**rhifyn**

**hanfod**

**dyddiol**



1. Beth ydy atgofion **Mari Emlyn** o'r cyfnod pan oedd ei mam yn gweithio ar bapur bro *Y Dinesydd*?  
.....  
.....
2. Gwrandewch yn ofalus ar Mari Emlyn a llenwch y bylchau hyn:  
"..... Mam yn olygydd ac yn gyd-olygydd."  
"Mi fuodd hi'n golofnydd ..... am o leia pymtheg ....."
3. Yn ôl **Penri Jones**, beth sy'n bwysig wrth roi papur bro at ei gilydd?  
.....  
.....
4. Beth ydy barn **Dylan Iorwerth** am steil newyddiadurol papurau bro?  
.....  
.....
5. Beth ydy arwyddocâd y rhifau hyn yn y fideo?  
**1973** .....  
**1978** .....  
**50,000** .....
6. Gyda'ch partner, trafodwch yr ymadroddion hyn ac ysgrifennwch frawddeg sy'n defnyddio pob un.

**byth ers hynny** .....

**o nerth i nerth** .....

**tan berfeddion** .....

**rhoi'r papur i'w wely** .....

**oes aur** .....

## Siaradwch



Ar ddiwedd yr eitem, mae Dylan Iorwerth yn poeni am effaith technoleg ar bapurau bro: "Mae 'na **rinwedd** mewn pobl yn dod at ei gilydd i blygu papur". Oes pobl yn dod at ei gilydd yn eich cymuned chi i wneud rhywbeth?

- Allwch chi feddwl am enghraifft arall o dechnoleg yn effeithio ar sut mae pobl yn cymdeithasu?

## Darllen – Newyddion Merched y Wawr, *Papur Fama*



**Geirfa:**

**llywydd  
addysgiadol**

**trysorydd  
tystio**

**gwadd  
teilwng**

Dewiswch y berfenwau cywir o'r rhestr isod a llenwch y bylchau, gan eu troi nhw'n **ferfau amhersonol** (y terfyniad **-wyd**). Er enghraifft, cyflwyno → cyflwynwyd.

**cyflwyno  
rhoi**

**diolch (x2)  
cynnal (x2)**

**croesawu  
llongyfarch**

**atgoffa  
dweud**

\_\_\_\_\_ ein cyfarfod misol yng Nghapel Bethel ar nos Fawrth, Ebrill y 10fed. \_\_\_\_\_ pawb gan ein **llywydd**, Anwen Edwards. \_\_\_\_\_ ni am ginio'r Rhanbarth yng Nghae Cymro ar Fehefin yr 8fed, ac am daith y gangen i Ysbyty Ifan ar Fehefin y 12fed. \_\_\_\_\_ ein **trysorydd**, Menna Evans, achos mai ei merch Elin Angharad fydd golygydd newydd cylchgrawn *Y Wawr*.

Ein siaradwraig **wadd** oedd Carys Edwards o Ganllwyd, Dolgellau. \_\_\_\_\_ hi gan Anwen. \_\_\_\_\_ ei bod yn wraig hynod o brysur yn ei chymdogaeth. Mae'n rheolwr llwyfan mewn theatrau – yn aelod o Theatr Maldwyn, ac yn feirniad ac yn enillydd cenedlaethol gyda mêl. Mae ganddi 80 o gychod gwenyn ar hyn o bryd, ond ei nod yw cael 200 i 250 ohonyn nhw. \_\_\_\_\_ yn gynnes iawn iddi am noson ddi-ddorol ac **addysgiadol**. \_\_\_\_\_ hefyd i Enid ac Eluned am y baned.

Ar Ebrill yr 21ain, aeth rhai ohonon ni i ginio'r **llywydd** yn y gogledd. \_\_\_\_\_ yr achlysur yng Ngwesty Meifod, Caernarfon. Roedd yn dywydd bendigedig ac roedd yn dipyn o her bwydo 180 o aelodau, a hynny gyda phryd poeth o fwyd, ond gallwn ni **dystio** iddyn nhw lwyddo. \_\_\_\_\_ yr ail wobwr i'n cangen ni am y cynnydd mewn aelodaeth drwy ogledd Cymru, gyda changen Golan yn gyntaf, a Phorthmadog yn drydydd. I roi clo **teilwng** i ddiwrnod bendigedig, cawson ni ein swyno gan ddawn arbennig Dylan Cernyw ar y delyn.

## Siaradwch



Ydych chi'n aelod o glwb neu gymdeithas leol? Beth rydych chi'n ei wneud? Neu efallai nad yw clybiau fel hyn yn apelio atoch chi. Os felly, esboniwch pam.

## Llenwi bylchau – ansoddeiriau

syfrdanol  
crefftus  
pwerus rhyfeddol  
moethus deheuol  
achlysurol credadwy  
cyflogedig dawnus

Dewiswch ansoddeiriau addas o'r cwmwl geiriau uchod i lenwi'r bylchau yn y brawddegau. Cofiwch fod angen **treiglo ansoddair ar ôl gair benywaidd** ac ar ôl **yn**.

1. Magwyd Lisa ym Mhontypridd felly roedd ganddi hi acen \_\_\_\_\_.
2. Wnes i ddim mwynhau'r ffilm. Do'n i ddim yn meddwl bod y stori'n \_\_\_\_\_ o gwbl.
3. Mae Sam a Lyn yn ennill cyflogau da, felly maen nhw bob amser yn aros mewn gwestai \_\_\_\_\_.
4. Clywais i newyddion \_\_\_\_\_ bore 'ma – mae'r ferch drws nesaf wedi ennill y loteri!
5. Saer o Wlad Belg wnaeth Gadair Ddu Hedd Wyn. Mae hi'n gadair \_\_\_\_\_ iawn.
6. Roedd gweld dyn yn cerdded ar y lleuad am y tro cynta yn brofiad \_\_\_\_\_.
7. Yn \_\_\_\_\_, dw i'n prynu dillad o siop ddrud yn Llundain.
8. Mae llais \_\_\_\_\_ iawn gan y canwr opera yma – mae e bron â chodi'r to!
9. Roedd llawer o berfformwyr \_\_\_\_\_ iawn yn y cyngerdd gwych a welais i ar y teledu neithiwr.
10. Mae llawer mwy o fenywod yn \_\_\_\_\_ heddiw nag yn y 1950au.



## Gwrando 2

Gwrandewch ar y ddeialog a llenwch y bylchau yn y sgrïpt isod. Yna, darllenwch y ddeialog gyda'ch partner, gan gymryd tro i wneud y ddwy ran.

- A:** \_\_\_\_\_ ti yn y sêl cist car ar gae yr ysgol \_\_\_\_\_ Sadwrn?
- B:** Naddo. \_\_\_\_\_ rhaid i mi wneud tipyn o waith tŷ. \_\_\_\_\_ ti?
- A:** Do. \_\_\_\_\_ hi'n un dda. \_\_\_\_\_ i yno erbyn chwech.
- B:** Chwech y bore?
- A:** Ie. \_\_\_\_\_ i lwyth o fargeinion. \_\_\_\_\_ i ddwy bunt am hen record Elvis sy'n werth cannoedd o bunnau ar-lein!
- B:** Waw, da iawn ti!
- A:** Roedd dillad hyfryd yno hefyd. Pethau o safon. \_\_\_\_\_ ti wedi mwynhau edrych o gwmpas.
- B:** \_\_\_\_\_, siŵr o fod. Ond \_\_\_\_\_ hi'n well i mi gadw draw. Ti'n gwybod sut \_\_\_\_\_ i pan mae 'na fargeinion. \_\_\_\_\_ i wedi dod adre â llond tŷ o bethau newydd.
- A:** Mae'r tŷ dan ei sang yn barod.
- B:** Ydy... Pryd \_\_\_\_\_ nhw'n gwneud y sêl nesa?
- A:** Bydd un arall \_\_\_\_\_ y mis, dw i'n credu.
- B:** O? Falle \_\_\_\_\_ i gyda ti.
- A:** I edrych o gwmpas, ie?
- B:** Ie. Dim ond i edrych.

## Adolygu gramadeg

**Gorfennwch y brawddegau hyn, trwy gyfieithu'r geiriau yn y cromfachau:**

1. Hi yw'r ferch (*who took*) y lluniau i'r papur bro.  
.....
2. Dw i'n credu (*I bought*) ffrog o siop ail-law.  
.....
3. Weloch chi'r person (*who scratched*) fy nghar i?  
.....
4. Ro'n nhw'n dweud (*it won't*) bwrw glaw fory.  
.....
5. Chawson ni ddim lle yn y bwyty neithiwr achos (*we arrived*) yn hwyr.  
.....
6. Pam (*don't you come*) am dro heno?  
.....
7. Dyma'r band (*who performed*) ar y teledu neithiwr.  
.....
8. Cafodd y babi ei alw'n Hefin achos (*he was born*) ym mis Mehefin.  
.....

## Gwaith grŵp

1. Bydd pob grŵp yn cael erthygl i'w thrafod. Gwnewch nodiadau, a chadwch eich nodiadau'n ddiogel. Byddwch chi'n defnyddio'r nodiadau i wneud eich gwaith cartref. Yna, gyda'ch grŵp, rhowch **grynodeb** o'r erthygl ar lafar i weddill y dosbarth.
2. Paratowch eitem i'ch papur bro lleol chi. Cewch chi ysgrifennu am newyddion eich ardal, portread o gymeriad lleol, rysáit, adolygiad neu unrhyw beth a fyddai o ddiddordeb i ddarllenwyr eich papur bro lleol chi.

### Rhestr wirio

Dw i'n gallu...

defnyddio geirfa a phatrymau gramadegol Unedau 1–8 yn hyderus.	
trafod papurau bro a mentrau cymunedol eraill.	

## Uned 10 – Gwlad y Menig Gwynion?

### Nod yr uned hon yw...

- Ymarfer ffurfiau benywaidd a lluosog ansoddeiriau
- Dysgu am droseddwr enwog o Gymru, a thrafod trosedd a chosb yn ein bywydau heddiw

## Geirfa

**caseg (cesig)** *mare(s)*

**cigfran (cigfrain)** *raven(s)*

**dirwy(on)** *fine(s)*

**sgil(iau)** *skill(s)*

**gast (geist)** *bitch(es)*

**trosedd(au)** *crime(s)*

**drysni** *perplexity,  
confusion*

**gwrthryfel(oedd)** *rebellion(s),  
revolt(s)*

**herwr (-wyr)** *outlaw(s)*

**rheithgor(au)** *jury(juries)*

**swllt (sylltau)** *shilling(s)*

**twrnai (twrneiod)** *attorney(s),  
lawyer*

**ustus(iaid)** *magistrate(s),  
justice(s)*

**caniatáu** *to allow,  
to permit,  
to let*

**cofnodi** *to minute,  
to note,  
to record,  
to register*

**dienyddio** *to execute*

**dogni** *to apportion,  
to ration, to share*

**dodwy (wyau)** *to lay*

**llechu [rhag]** *to hide, to lurk,  
to skulk*

**ymbil** *to beg, to entreat,  
to plead*

**ymddiddori** *to take interest in*

**ariannol** *financial*

**digrif** *amusing,  
funny, humorous*

**heddychlon** *peaceful*

**ieithyddol** *linguistic*

**llym** *strict*

**nodweddiadol** *characteristic,  
typical*

**cyfraith a threfn** *law and order*

**fatha** *yr un fath â, fel*

**y Gorllewin Gwyllt** *the Wild West*

**mynd i'r afael â** *to deal with something,  
to get to grips with something*

**oherwydd** *achos*

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

## Defnyddio ansoddeiriau

Dewiswch y gair mwy addas o waelod y blwch i'w roi yn y bylchau:

1. Mae tafodiaith \_\_\_\_\_ iawn yn sir Benfro.
2. A'r \_\_\_\_\_ flaenoriaeth eleni fydd marchnata gwell.
3. Roedd brwydr \_\_\_\_\_ rhwng y ddwy ochr.
4. Mae llawer o offer newydd yn y gampfa \_\_\_\_\_.
5. Mae'n bwysig bod pawb yn gwybod lle mae'r ddihangfa \_\_\_\_\_.
6. Maen nhw'n cau'r ysgol \_\_\_\_\_ yn y pentre oherwydd diffyg plant.
7. Mae ymgyrch \_\_\_\_\_ ar y gweill i wella sgiliau pobl ifainc.
8. Yn 1920 roedd yr Ymerodraeth \_\_\_\_\_ yn ymestyn dros 24% o holl dir y byd.
9. Cyflwynodd y darlithydd ddarlith \_\_\_\_\_ iawn.
10. Mae llawer o ddisgyblion talentog yn y dosbarth ond mae un ferch \_\_\_\_\_ yn eu plith.

**cenedlaethol**  
**modern**

**cynradd**  
**pert**

**diddorol**  
**Prydeinig**

**disglair**  
**tân**

**gwaedlyd**  
**trydedd**







## Ymarfer

Gyda'ch partner, llenwch y bylchau yn y tabl yma.

Ansoddair	Benywaidd	Lluosog
bychan		
glas	Dim ffurf fenywaidd	
gwyrdd		
byr		
dwfn		
gwyn		
melyn		
coch	Dim ffurf fenywaidd	
llyfn		
cryf		

## Cymru - Gwlad y Menig Gwynion?

Roedd pobl yn meddwl am Gymru fel lle perffaith. Roedd y barnwr yn gwisgo menig gwynion pan doedd dim troseddwr ger ei fron.

### Storom eirfa - Trosedd a chosb

Nodwch o leiaf 6 gair ar y thema yma.

## Siaradwch



### Ydych chi wedi torri'r gyfraith? Trafodwch y pethau hyn gyda'ch partner.

1. Prynu tocyn bws neu drên plentyn pan oeddech chi'n hŷn nag un ar bymtheg.
2. Cymryd rhan mewn *sweepstake* yn y gwaith.
3. Prynu alcohol cyn eich bod chi'n ddeunaw.
4. Seiclo ar y pafin/palmant.
5. Mynd i bysgota heb drwydded bysgota.
6. Parcio ar linellau melyn dwbl.
7. Bwyta wrth yrru.
8. Defnyddio ID ffug i fynd i mewn i ddigwyddiad 18+.
9. Hedfan barcud mewn parc.
10. Cadw'r newid pan oedd rhywun wedi rhoi gormod i chi trwy gamgymeriad.
11. Prynu sigarêts cyn eich bod chi'n un ar bymtheg.
12. Gwyllo'r teledu heb drwydded deledu.
13. Curo ar ddrws rhywun a rhedeg i ffwrdd.
14. Newid CD yn y car wrth yrru.
15. Mynd â'ch plentyn ar wyliau yn ystod y tymor ysgol heb ofyn am ganiatâd pennaeth yr ysgol.
16. Rhoi colur ar eich wyneb wrth yrru.
17. Defnyddio WiFi rhywun heb iddyn nhw wybod.
18. Gwyllo ffilm 18 yn y sinema cyn eich bod chi'n ddeunaw oed.
19. Parcio ar y pafin/palmant.
20. Seiclo yn y nos heb oleuadau ar y beic.

## Gwrando - Troseddau hanesyddol



Byddwch chi'n gwrando ar Aled Hughes yn holi Lowri Ifor, sy'n arbenigo ar hen droseddau.

1. I ddechrau, rhowch gylch o gwmpas y geiriau hyn pan fyddwch chi'n eu clywed nhw:

**dirwy  
fatha**

**ymddiddori  
dogni**

**cofnodi  
swllt**

**nodweddiadol  
caniatáu**

**digri'**

2. Troseddau o ba ardal yng Nghymru mae Lowri Ifor yn sôn amdany'n nhw i ddechrau?  
.....
3. Pa drosedd roedd 'pasio pres' yn ei disgrifio?  
.....
4. Beth fuodd tri bachgen yn ei wneud yn Nhonypandy?  
.....
5. Beth oedd trosedd Blodwen Jones o Flaenclydach?  
.....
6. Pam cafodd Thomas William Abraham ddirwy?  
.....
7. Pam roedd llawer o droseddau'r cyfnod yn ymwneud â bwyd?  
.....
8. Gyda'ch partner, trafodwch beth yw ystyr yr ymadroddion hyn, yn eich barn chi.

**o gwmpas eu pethau  
creu miri  
o flaen ei gwell**

## Darllen – Gwyliaid Cochion Mawddwy



**Geirfa:**

**heddychlon  
llechu  
mynd i'r afael â**

**y Gorllewin Gwylt  
herwyr  
ymbil**

**cyfraith a threfn  
gwrthryfel**

Wrth yrru trwy harddwch **heddychlon** Mawddwy heddiw, mae'n anodd dychmygu bod y lle fel y **Gorllewin Gwylt** yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Roedd Mawddwy ar y ffin, rhwng y Mers a Meirionnydd, felly doedd dim modd cadw **cyfraith a threfn**. Yn **llechu** yn y coedwigoedd, byddai Gwyliaid Cochion Mawddwy yn barod i ymosod – a'ch lladd, tasai'n rhaid. Criw o **herwyr** oedden nhw, a gafodd eu henw achos gwalltiau cochion llawer o'r aelodau.

Teulu John Goch ap Gruffudd ap Huw oedd y Gwylliaid enwocaf. Roedd llawer o'r aelodau eraill yn bobl a gefnogodd **wrthryfel** Owain Glyndŵr. Ar ôl i'r **gwrthryfel** ddod i ben, collon nhw eu cartrefi, eu heiddo a'u hawliau, felly doedd dim dewis ond llochesu yn y coed.

Penderfynodd y Barwn Lewys ab Owain – Siryf Sir Feirionnydd – geisio **mynd i'r afael â'r** Gwylliaid. Ar noswyl Nadolig 1554, cafodd wyth deg o'r Gwylliaid eu crogi o ganghennau'r deri ger Rhos Goch.

Roedd un ohonyn nhw'n ifanc iawn, ac **ymbiliodd** ei fam arnyn nhw i arbed ei fywyd. Lowri ferch Gruffudd Llwyd oedd ei henw hi. Ond, cafodd y bachgen ifanc ei grogi yn y fan a'r lle. Wedi hynny, yn ôl y stori, agorodd Lowri ei chrys i ddangos ei bronau, gan ddweud ei bod hi wedi bwydo meibion eraill a fyddai'n ymolchi yng ngwaed y Barwn. Does dim tystiolaeth bod hyn wedi digwydd, ond gallwch chi ddarllen y stori yn llyfr taith Thomas Pennant a ysgrifennwyd tua 1770.

Tua deg mis yn ddiweddarach, daeth cyfle i'r Gwylliaid ddial. Roedd y Barwn a'i ddynion yn teithio'n ôl o'r Trallwng. Yn sydyn cwmpodd dwy dderwen – un o'u blaenau a'r llall y tu ôl iddyn nhw. Cafodd y Barwn ei saethu ddeg ar hugain o weithiau.

Daeth y felltith yn wir wrth i feibion Lowri ymolchi yng ngwaed y Barwn.



**1. Beth ydy arwyddocâd y rhifau hyn yn y darn darllen?**

16.....

1554.....

80.....

1770.....

10.....

2.....

30.....

**2. Yn y darn, mae 'Gwylliaid Cochion' a 'gwalltiau cochion'.****Rhowch y lliwiau cywir (yn y lluosog) yn y brawddegau hyn:**

Bwyd môr poblogaidd yw cregyn .....

Ar lan y môr mae rhosys .....

Os ewch chi i Barc Dinefwr, fe welwch chi'r gwartheg ..... unigryw.

Mynachod oedd y Brodyr .....

Enw arall ar dîm rygbi Seland Newydd yw'r .....

Enw tîm rygbi Caerdydd yw .....

**3. Yn y tabl isod, mae disgrifiadau o eiriau sy'n ymddangos yn y darn darllen. Ysgrifennwch y geiriau yn y golofn dde.**

Symud car neu anifail.	
Llinell sy'n gwahanu dau le neu ddau beth.	
Llefydd lle mae llawer o goed a phlanhigion yn tyfu.	
Pethau mae'r gyfraith yn caniatáu i ni eu gwneud.	
Dyma sut roedd pobl yn cael eu dienyddio ym Mhrydain tan y 1950au.	
Rhoi bwyd i berson neu i anifail.	
Mae pobl fel arfer yn gwneud hyn bob dydd, fel arfer yn y bore a chyn mynd i'r gwely.	
Defnyddio dryll i anafu neu i ladd.	

## Siaradwch



- Mae llawer o droseddwr, e.e. Twm Siôn Cati, Robin Hood a'r Gwylliaid yn cael eu gweld fel arwyr mewn llawer o storïau. Ydych chi'n credu bod hyn yn iawn? Beth am ddihirod y cyfnod modern? Oes perygl i ni ramantu eu hanesion nhw?
- Ydych chi wedi bod ar reithgor erioed? Sut brofiad oedd e?
- Oes digon o blismyn ar ein strydoedd ni? Sut mae'r sefyllfa wedi newid dros y blynyddoedd?
- Ydych chi'n gwybod pa fath o droseddau sy'n gyffredin yn eich ardal chi?

## Gwyllo a gwrando - 'Hanes y Sesiwn yng Nghymru'



Byddwch chi'n gwyllo fideo o'r canwr gwerin Gwilym Bowen Rhys yn cyflwyno ac yn perfformio'r gân 'Hanes y Sesiwn yng Nghymru' gan Jac Glan y Gors. Mae e'n disgrifio'r llysoedd yng Nghymru rhwng 1542 ac 1830. Sefydlwyd y Llys fel rhan o'r Ddeddf Uno yn 1542. Cynhaliwyd y Llys ddwywaith y flwyddyn ym mhob sir, ac roedd popeth yn Saesneg. O'r 217 o farnwyr oedd wedi gwethio yn y llysoedd, dim ond 30 oedd yn Gymry a llond llaw oedd yn gallu siarad Cymraeg. Does dim angen i chi ddeall pob gair – ceisiwch fwynhau'r stori!

**Geirfa:**      **drysni**      **ieithyddol**      **twrnai (twrneiod)**      **ustus**  
                  **dodwy**      **gast**      **caseg**      **cigfran**

1. Mae'r gân yn dweud bod y twrneiod yn 'chwarae'r ffon ddwybig'. Gyda'ch partner, ceisiwch ddyfalu beth yw ystyr hynny.
2. 'A'r ustus **ar ddodwy** wrth wrando (a)r y ddadl.'  
 Rydyn ni'n aml yn defnyddio **ar** i ddweud bod rhywbeth yn mynd i ddigwydd cyn hir. Fan hyn, mae'n golygu bod yr ustus yn edrych fel tasai'n mynd i ddodwy wŷ unrhyw eiliad! Yr ymadrodd mwyaf cyffredin yw **ar fin**, sy'n golygu *just about to*.

Er enghraifft:

Ro'n i **ar gychwyn** pan ganodd y ffôn.

Mae canolfan siopa newydd **ar fin** cael ei hagor yn y dref.

Gyda'ch partner, trafodwch sut byddech chi'n cyfieithu:

*He was about to leave the field when he got injured.*

.....  
*She was just about to confess when someone walked into the room.*

.....  
*The book is about to be published.*

Ydych chi'n gallu meddwl am dair brawddeg arall sy'n cynnwys **ar fin**?

1. ....

2. ....

3. ....

### Rhestr wirio

Dw i'n gallu...

defnyddio ffurfiau benywaidd a lluosog ansoddeiriau.	
trafod trosedd a throseddwr.	



## Uned 11 - Hiwmor

### Nod yr uned hon yw...

- Ymarfer deall ystyr geiriau
- Siarad am hiwmor
- Dysgu a defnyddio geirfa ac idiomau newydd

## Geirfa

**deuoliaeth(au)** *dualism(s)*

**apelio (at)** *to appeal (to)*

**seilio** *to base*

**treiddio** *to penetrate*

**anghysurus** *uncomfortable*

**celfyddydol** *art*

**cyfarwydd** *familiar*

**cyferbyniol** *contrasting*

**cyfoes** *contemporary*

**cyntefig** *primitive*

**dychmygus** *imaginative*

**maleisus** *malicious*

**rheibus** *predatory*

**dan warchae** *under siege*

**synnwyr digrifwch** *sense of humour*

**testun sbort** *laughing stock*

**digrifwch** *amusement,  
fun, humour*

**dirgelwch  
(dirgelion)** *mystery  
(mysteries)*

**drewdod** *stink, stench*

**endorffin(au)** *endorphin(s)*

**grym(oedd)** *power(s)*

**hyder** *confidence*

**rhyddhad** *relief, liberation,  
release*

**seiciatrydd(ion)** *psychiatrist(s)*

**seicolegydd  
(seicolegwyr)** *psychologist(s)*

**ymennydd  
(ymenyddiau)** *brain(s)*

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....



## Help llaw – Adnabod Ystyr Geiriau

Byddwn ni'n edrych ar dri rhagddodiad (rhywbeth sy'n dod o flaen gair arall) a thri ôl-ddodiad (terfyniad sy'n dod ar ôl gair arall) i'n helpu ni i ddeall ystyr geiriau.

### Rhagddodiaid

<b>gwrth-</b> (yn erbyn), e.e.	gwrthwynebydd	gwrthdaro	gwrth-gloc
<b>di-</b> (heb), e.e.	diofalwch		diniwed

Bydd cysylltnod (-) pan fydd gair unsill yn dilyn **di-**, e.e. tâl – di-dâl

<b>an-</b> (rhoi ystyr negyddol)	anfantais	anghofio	anhapus
----------------------------------	-----------	----------	---------

Sylwch ar y treigladau:

**gwrth-** treiglad meddal

**di-** treiglad meddal

**an-** treiglad trwynol gyda t, c, p, d

teg	annheg	cytuno	anghytuno
perffaith	amherffaith	difyr	annifyr

Sylwch fod **nn** pan fydd **an** yn rhagddodiad o flaen **t** a **d** (ac eithrio'r gair anhrefn).

**an-** treiglad meddal gyda b, g, m

bodlon	anfodlon	gobeithiol	anobeithiol
mantais	anfantais		

### Beth yw ystyr?

di-waith .....	gwrthryfel .....
anghyffredin .....	annibynnol .....
dieuog .....	gwrth-blaid .....

### Sut basech chi'n cyfieithu?

<i>to oppose</i> .....	<i>homeless</i> .....
<i>disabled</i> .....	<i>incorrect</i> .....
<i>collision</i> .....	<i>free of charge</i> .....

### Ôl-ddodiaid

**-gar** (yn hoff o neu gyda'r nodweddion (*characteristics*) sy yn y bôn)

ariangar	amyneddgar
----------	------------

**-lon** (gyda'r nodweddion sy yn y bôn – mae'n dod o'r ansoddair llawn)

ffyddlon	ffrwythlon
----------	------------

**-us** (gyda'r nodweddion sy yn y bôn, yn aml iawn i ddisgrifio pobl)

hapus	gwybodus
-------	----------

**Beth yw ystyr?**

prydlon ..... goddefgar .....  
 cyffrous ..... adnabyddus .....  
 cyfeillgar ..... heddychlon .....

**Sut basech chi'n cyfieithu?**

*colourful* ..... *lawful* .....  
*faithful* ..... *romantic* .....  
*keen* ..... *patient* .....

**Llenwch y bylchau.** Gwrandewch ar y bwletin newyddion a llenwch y bylchau.

Carcharwyd troseddwr ..... iawn am gyfanswm o  
 ugain mlynedd heddiw. Cyflawnodd Ffred John nifer o droseddau  
 ..... iawn yn y ddinas.

Bydd yr ..... yn cynnig pleidlais o ddiffyg hyder yn y  
 Prif Weinidog heddiw. Maen nhw'n dweud bod y Prif Weinidog yn hollol  
 ..... erbyn hyn, ar ôl yr holl ddigwyddiadau  
 ..... o fewn ei blaid ei hunan yn ddiweddar.

Arestwyd bachgen pymtheg oed am werthu cyffuriau ..... y tu  
 allan i ysgol yng ngorllewin Cymru brynhawn ddoe. Tabledi bach .....  
 yw'r cyffuriau hyn sydd wedi'u creu er mwyn apelio at blant a phobl ifainc.

**Hiwmor****Pryd mae'r ddafad yn cael ei phen-blwydd?**

Ym mis Meeeeehefin.

**Pryd mae'r ddafad arall yn cael ei phen-blwydd?**

Ym mis Meeeedi.

**Pa gi yw'r canwr gorau?**

Corgi.

**Pa bysgodyn mae'r plismon eisiau ei ddal?**

Yr eog!

**Beth wyt ti'n galw mwy nag un dyn?**

Dai.

**Siaradwch:** Allwch chi ddweud jôc yn Gymraeg? Ysgrifennwch eich jôc chi  
 neu jôc eich partner fan hyn.

.....

.....

.....



## Darllen – Pam rydyn ni’n chwerthin?

Mewn cyfweiliad ar Radio Cymru yn 2007, dyma ddwedodd y **seiciatrydd**, Dr Dafydd Huws:

<b>Geirfa: seicolegydd</b>	<b>seiciatrydd</b>	<b>dirgelwch</b>	<b>cyntefig</b>
<b>dan warchae</b>	<b>rheibus</b>	<b>rhyddhad</b>	<b>ymennydd</b>
<b>endorffinau</b>	<b>synnwyr digrifwch</b>	<b>deuoliaeth</b>	<b>cyferbyniol</b>

“Does ‘na ddim un **seicolegydd** na **seiciatrydd** yn y byd yn gwybod pam rydyn ni’n chwerthin. Mae’n gymaint o **ddirgelwch** ag erioed. Mae rhai wedi dweud ei fod e’n dod o gyfnod **cyntefig** iawn pan oedd dyn yn byw **dan warchae** ac ofn o hyd ... ofn gelynyon ac ofn anifeiliaid **rheibus**. Pan oedd e’n cael buddugoliaeth dros elyn neu dros anifail **rheibus**, roedd y **rhyddhad** hwnnw’n gollwng cemegau yn yr **ymennydd – endorffinau** – cemegau sy’n gwneud i ni deimlo’n hapus ac yn wych, a hynny wedyn yn arwain at chwerthin.

Rydyn ni’n nabod rhai pobl sydd â **synnwyr digrifwch** cryf. Maen nhw’n gweld ochr ddoniol bron pob sefyllfa. Ac mae ‘na bobl eraill – maen nhw fel pwddin – yn gweld dim byd yn ddoniol. A’r peth arall dw i’n meddwl sy’n ddiddorol ydy’r dyn

neu’r ddynes sy’n troedio’r ffin rhwng **digrifwch** a thristwch: nhw ydy’r bobl â’r **synnwyr digrifwch** mwya. Rydyn ni’n gwybod am gomedïwyr fel Tony Hancock, y ddau Ronnie, a Tudur Owen: pobl sy’n gallu gweld y **ddeuoliaeth**.”

1. “Mae’n gymaint o ddirgelwch ag erioed,” meddai Dr Dafydd Huws. Gyda’ch partner, ysgrifennwch ddwy frawddeg yn defnyddio **erioed**, a dwy frawddeg yn defnyddio **byth**.

---



---



---



---

2. Mae cyfuniadau o eiriau diddorol yn y darn yma: , **synnwyr digrifwch**, **dan warchae** ac **anifeiliaid rheibus**. Allwch chi feddwl am eiriau eraill sy’n cyd-fynd ag **anifeiliaid**, **synnwyr** a **dan**?

anifeiliaid	synnwyr	dan

3. Mae **digrifwch a thristwch** yn eiriau **cyferbyniol**. Allwch chi feddwl am eiriau cyferbyniol eraill? **Beth yw geiriau cyferbyniol y geiriau isod?**

cul  
deheuol  
gwirionedd  
hardd  
gwrthod

amddiffyn  
caeth  
esgeulus  
gorffennol  
diog

## Siaradwch



- Ydych chi'n cofio tro pan nad oeddech chi'n gallu stopio chwerrhin?
- Allwch chi feddwl am gomedïwyr eraill sy'n "troedio'r ffin rhwng digrifwch a thristwch"?

## Gwyllo a gwrando 1 - Gŵyl Ffrinj Caeredin



Byddwch chi'n gwyllo ffilm am Tudur Owen a Steffan Alun yn perfformio yng Ngŵyl Ffrinj Caeredin. Gwnewch nodiadau yn y blwch ac yna ysgrifennwch o leiaf dri chwestiwn.

### Cwestiynau:

---



---



---



---

### Ceisiwch gwblhau hanner arall yr ymadrodd sy'n cael ei ddefnyddio yn y ffilm:

.....gelfyddydol	.....gyfarwydd
enwau .....	canol .....
..... y byd	gwerthu .....
mis .....	llawn .....



## Siaradwch

- Ydych chi erioed wedi bod yng Nghaeredin?
- Ydych chi wedi bod mewn lleoedd eraill yn yr Alban?
- Oes gennych chi hoff ddinas?

## Gwahanol fathau o hiwmor

<p><b>Chi eich hunan yw'r jôc</b> Dyma'r math o hiwmor a welwch chi mewn llawer o sioeau stand-yp. Maen nhw'n gwneud eu hunain yn <b>destun sbort</b>.</p>	<p><b>Corfforol</b> Ers dyddiau Charlie Chaplin, mae'r math yma o hiwmor yn boblogaidd mewn ffilmiau (baglu, cwmpo, ac ati).</p>	<p><b>Swreal</b> Sefyllfaoedd rhyfedd, absŵrd a hurt.</p>
<p><b>Byrfyfyr</b> Does dim sgript ac mae'r perfformwyr yn creu'r <b>digrifwch</b> wrth fynd ymlaen.</p>	<p><b>Chwarae ar eiriau</b> Hiwmor <b>ffraeth</b>, lle mae pobl yn defnyddio geiriau mewn ffordd glyfar a <b>dychmygus</b>.</p>	<p><b>Amserol</b> Hiwmor wedi'i seilio ar y newyddion a digwyddiadau <b>cyfoes</b>. Mae'n rhaid i chi wybod beth sy'n digwydd yn y byd i fwynhau hiwmor fel hyn.</p>
<p><b>Bywyd pob dydd</b> Comedi sy'n dod o hyd i <b>ddigrifwch</b> mewn sefyllfaoedd cyffredin, bob dydd.</p>	<p><b>Tŷ bach</b> Mae plant bach yn hoff o hiwmor fel hyn: toiledau, <b>drewdod</b> amheus ac ati.</p>	<p><b>Tywyll</b> Fel arfer, mae themâu tywyll a digalon o dan yr wyneb, sy'n gwneud i bobl deimlo'n <b>anghysurus</b> yn ogystal â chwerthin.</p>



## Siaradwch

- Beth sy'n gwneud i chi chwerthin?
- Pwy yw eich hoff berfformwyr comedi, ac i ba gategori maen nhw'n perthyn?
- Ydych chi wedi bod mewn gŵyl gomedi neu ŵyl gelfyddydol arall?
- Pa fath o berfformiadau byŵ sy'n apelio atoch chi?

## Gwyllo a gwrando 2 - 'Y Wers Gymraeg'



Byddwch chi'n gwyllo fideo o'r opera sebon 'Y Wers Gymraeg', oedd ar *Hwb*, y rhaglen i ddysgwyr.

Mae camddealltwriaeth yn codi yn y wers rhwng **ti** a **tea**. Oes sefyllfa ddoniol wedi codi yn eich dosbarth Cymraeg chi o'r blaen? Siaradwch â'ch partner am hyn.

### Rhestr wirio

Dw i'n gallu...

defnyddio rhagddodiaid ac ôl-ddodiaid.	
trafod hiwmor, rhaglenni comedi a pherfformwyr comedi.	

## Uned 12 – Cefndryd Celtaidd

### Nod yr uned hon yw...

- Ymarfer ffurfiau lluosog
- Dysgu am y gwledydd Celtaidd
- Dysgu a defnyddio geirfa ac idiomau newydd

### Geirfa

**asiantaeth(au)** *agency(-ies)*

**Brythoneg** *Brittonic*

**Cernyweg** *Cornish*

**hunaniaeth(au)** *identity(-ies)*

**Llydaweg** *Breton*

**mamiaith** *mother tongue*

**perchnogaeth** *ownership*

**pobl(oedd)** *people(s)*

**albwm (albymau)** *album(s)*

**arholwr (-wyr)** *examiner(s)*

**Brython(iaid)** *Briton(s)*

**bwrlwm** *activity and excitement, buzz*

**cyfeilydd(ion)** *accompanist(s)*

**degawd(au)** *decade(s)*

**hwb** *boost*

**tlws (tlysau)** *trophy(trophies)*

**ymfudwr(-wyr)** *emigrant(s)*

**ysgrifennydd (ysgrifenyddion)** *secretary*

**atgyfodi** *to revive, to resurrect*

**beirniadu** *to judge, to adjudicate*

**cyfeilio** *to accompany (cerddoriaeth)*

**cymharu** *to compare*

**gwahanu** *to separate*

**ymrannu** *to divide*

**Cernyw** *Cornwall*

**clamp o ...** *giant, whopper*

**blaenorol** *former; previous*

**breintiedig** *privileged*

**brwd** *enthusiastic*

**corawl** *choral*

**cynyddol** *increasing*

**lleiafrifol** *minority*

**unigol** *individual*

**ymwybodol** *conscious; aware*

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....



## Deall ystyr geiriau – adolygu

Ychwanegwch o leiaf un rhagddodiad (e.e. di-) neu ôl-ddodiad (e.e. –gar) i greu geiriau newydd:

grym .....	deall .....
rhyfel .....	gwaith .....
ffydd .....	trefn .....

## Adolygu ffurfiau lluosog

### Beth ydy ffurfiau lluosog y creaduriaid hyn? Beth ydy'r patrwm?

cath .....	.....
cwningen .....	.....
cranc .....	.....
gwylan .....	.....
buwch .....	.....
morfil .....	.....

### Beth ydy ffurfiau lluosog y geiriau hyn?

dant .....	amgueddfa .....
cant .....	swyddfa .....
punt .....	mynedfa .....
diwydiant .....	allanfa .....

### Cyfieithwch:

<i>toothpaste</i> .....	<i>bacon</i> .....
<i>pencil case</i> .....	<i>book quiz</i> .....
<i>student flats</i> .....	<i>dishcloth</i> .....

### Trafodwch:

Ydyn ni'n defnyddio'r unigol neu'r lluosog gyda **sawl**?

Ydyn ni'n defnyddio'r unigol neu'r lluosog gyda **faint**?

Pryd rydyn ni'n defnyddio **rhif + enw unigol**? Pryd rydyn ni'n defnyddio **rhif + o + enw lluosog**?



## Help llaw

Rydych chi wedi dysgu rhai o reolau a phatrymau'r lluosog yn Uwch 1. Ond mae'r lluosog yn gymhleth iawn yn Gymraeg, ac mae llawer o batrymau eraill – ac eithriadau (*exceptions*) i'r rheolau!

### -iaid

Rydyn ni'n defnyddio'r terfyniad yma wrth sôn am **bobloedd** neu grwpiau o bobl (a rhai anifeiliaid). Er enghraifft, Gwylliaid Cochion Mawddwy, Celtiaid, y Brythoniaid, y Rhufeiniaid. Gallwn ni ddefnyddio'r terfyniad hwn wrth sôn am **deuluoedd** hefyd, er enghraifft y Tuduriaid, y Sioriaid. Byddwch chi'n clywed pobl yn gwneud hyn gyda theuluoedd modern hefyd, er enghraifft 'Y Tomosiaid' neu 'Y Jonesiaid' (ond mewn ffordd ysgafn fel arfer.)

**-iaid** sy'n cael ei ddefnyddio yn y ffurfiau lluosog Hindwâiaid a Mwslimiaid. **Ond:** Cristnogion a Bwdhyddion yw ffurfiau lluosog Cristion a Bwdhydd.

### -wyr

Mae'r terfyniad **-wyr** hefyd yn cael ei ddefnyddio gyda **phobloedd**, er enghraifft Sbaenwyr, Almaenwyr, Llydawyr. Mae eithriadau sydd ddim yn dilyn y patrwm, er enghraifft: **Saeson, Cymry, Gwyddelod**. Hefyd, mae Ffrancwyr neu Ffrancod yn gywir i ddisgrifio pobl o Ffrainc.

### Newid llafariad

Mae llafariad rhai geiriau'n newid wrth ffurfio'r lluosog.

cloch → clychau	castell → cestyll	tŷ → tai	oen → wŷn
cwlwm → clymau	pabell → pebyll	bwthyn → bythynnod	gŵr → gwŷr

### Tafodiaith

Byddwch chi'n clywed ffurfiau lluosog eraill ar lafar mewn gwahanol ardaloedd. Er enghraifft, **ll'gada** yn lle **llygaid** mewn rhai rhannau o Wynedd, a **perci** a **cathe** yn lle **parciau** (caeau) a **cathod** yn sir Benfro.



## Yr Ieithoedd Celtaidd



Wrth edrych ar y llun, gallwch chi weld fod ieithoedd Celtaidd Prydain ac Iwerddon wedi'u rhannu'n ddwy gangen, sef Goedeleg a Brythoneg. Enwau eraill ar y ddwy gangen yw 'Celteg Q' a 'Celteg P'. Y rheswm am hyn yw bod sŵn **kw** Celteg wedi troi'n **c** mewn Celteg Q (Goedeleg) ac yn **p** mewn Celteg P (Brythoneg), er enghraifft **ceathoir** (Gwyddeleg) a **pedwar** (Cymraeg).

Dyma'r gair am **Beth** yn yr ieithoedd eraill. Dyfalwch ba iaith:

Cad .....

Dé .....

Petra .....

Beth .....

Cre .....

Nesa, gwrandewch ar bobl yn siarad yr ieithoedd Celtaidd. Pa ieithoedd?

1. ....

2. ....

3. ....

4. ....

5. ....

## Darllen 1 – Chwaer-ieithoedd y Gymraeg



<b>Geirfa:</b>	<b>Brythoneg ymfudwyr Cernyw mamiaith</b>	<b>ymrannu Cernyweg Eingl-Sacsoniaid atgyfodi</b>	<b>Llydaweg Brythoniaid ynysu</b>
----------------	---	---	---

Pan ddaeth y Rhufeiniaid i Brydain, roedd y **Frythoneg** yn cael ei siarad trwy Brydain i gyd, heblaw am rai ardaloedd yn yr Alban. Credir bod y **Frythoneg** wedi **ymrannu**'n ieithoedd gwahanol erbyn ail hanner y chweched ganrif.

### Llydaweg

Cyflwynwyd y **Llydaweg** i Lydaw (yng ngogledd-orllewin Ffrainc) gan **ymfudwyr** o dde-ddwyrain Prydain rhwng y bedwaredd a'r chweched ganrif. Mae gan Lydaw draddodiadau ac arferion gwahanol iawn i weddill Ffrainc. Ond, does dim statws swyddogol gan y Llydaweg, ac ers y 1950au, does dim llawer o rieni wedi trosglwyddo'r iaith i'w plant. Er hynny, mae nifer y plant sy'n mynd i ysgolion dwyieithog Ffrangeg-Llydaweg yn cynyddu 15% bob blwyddyn ac mae *Ofis ar Brezhoneg* (Bwrdd yr iaith Lydaweg) yn hyrwyddo'r iaith ac yn datblygu ei defnydd.

### Cernyweg

Cafodd y **Brythoniaid** eu **trechu** gan yr **Eingl-Sacsoniaid** ym mrwydr Deorham, 577. Wedi hynny, gwthiwyd Brythoniaid y de-orllewin yn bellach i lawr i'r de. Datblygodd eu hiaith nhw'n wahanol i'r Gymraeg oherwydd eu bod nhw wedi'u **hynysu** yng **Nghernyw** erbyn 810. **Cernyweg** yw ei henw hi.

Yn ôl y chwedl, y person olaf i siarad **Cernyweg** fel **mamiaith** oedd Dolly Pentreath, a fu farw yn 1777. Ond, mae tystiolaeth fod pobl yn siarad yr iaith wedi hynny.

Heddiw, mae'r Gernyweg wedi cael ei **hatgyfodi**, a thua mil o bobl yng Nghernyw yn ei siarad hi. Diolch i'r we, mae'n haws dysgu ac ymarfer y **Gernyweg**. Mae'r gantores Gwenno, sy'n canu yn Gymraeg ac yn **Gernyweg**, wedi gwneud llawer i godi ymwybyddiaeth o'r iaith.

### Cymbrieg

Defnyddir yr enw **Cymbrieg** (*Cumbric*) i ddisgrifio iaith yr Hen Ogledd, sef tiroedd y **Brythoniaid** yn ne'r Alban a gogledd Lloegr. Roedd yr iaith yn perthyn yn agos i Hen Gymraeg, ac os edrychwch chi ar enwau lleoedd yr ardal, gallwch chi weld adlewyrchiad o'r Gymraeg: Pebyll (*Peeblesshire*) ac Aeron (*Ayrshire*).

Bu farw'r **Gymbrieg** tua'r drydedd ganrif ar ddeg. Ond, tan ddechrau'r ganrif ddiwetha, byddai rhai o fugeiliaid yr Hen Ogledd yn defnyddio rhifau gwahanol i gyfri defaid. Mae rhai ohonyn nhw'n debyg iawn i rifau Cymraeg, er enghraifft pimp (pump) a dec (deg).

1. Dewch o hyd i'r ffurfiau lluosog yn y darn, a rhowch nhw yn y categori cywir yn y tabl isod. Yna, yn y rhes waelod, rhowch enghreifftiau eraill o eiriau lluosog sydd â'r un terfyniadau.

-oedd	-iaid	-wyr	-au	Ffurfiâu anghyffredin

2. Gyda'ch partner, ceisiwch feddwl beth yw ystyr yr ymadroddion hyn, sy'n cynnwys y gair **iaith**.

iaith pob dydd  
 iaith arwyddion  
 iaith ffurfiol  
 iaith y nefoedd  
 yr iaith fain  
 iaith anweddu

**Pwynt pwysig:** cofiwch fod iaith yn **fenywaidd**. Felly, rydyn ni'n treiglo 'y Gymraeg' ac 'y Gernyweg.' Dydyn ni ddim yn treiglo **ll** a **rh** ar ôl **y** felly 'y Llydaweg' sy'n gywir. Hefyd, er bod 'y Gymraeg' yn fenywaidd, dydyn ni ddim yn treiglo ar ei hôl hi, e.e. Cymraeg cywir.

3. Mae'r ymadrodd **nifer y plant** yn y darn. Sylwch ar y gwahaniaeth:  
 nifer y plant – *the number of children*; nifer o blant – *a number of children*.

Cyfieithwch:

*the number of resources* .....

*a number of resources* .....

*the number of collections* .....

*a number of collections* .....

*the number of factories* .....

*a number of factories* .....

## Siaradwch



- Ydych chi wedi bod yn un o'r gwledydd Celtaidd: Cernyw, Llydaw, Iwerddon, yr Alban neu Ynys Manaw?
- Ydych chi wedi clywed iaith Geltaidd arall yn cael ei siarad?

## Gwyllo a gwrando 1



**Geirfa:**      **brwd**            **corawl**            **degawd**            **bwrlwm**            **clamp o ...**  
                  **breintiedig** **tlws**            **cyfeilio**            **beirniadu**  
                  **cyfeilydd/cyfeilyddes**

1. Yn gyntaf, rhowch gylch o gwmpas y geiriau uchod pan fyddwch chi'n eu clywed nhw.
2. Beth sy'n digwydd yn yr Ŵyl Ban Geltaidd? Ticiwch y pedwar dewis cywir.

adloniant stryd	
chwaraeon	
ffair	
hwyl yn y tafarndai	
cystadlu	

3. Enillodd y Brodyr Magee gystadleuaeth y grŵp gwerin. Faint oedd yn cystadlu?  
 .....
4. Enillodd Gwilym Bowen Rhys yr unawd gwerin. Pryd roedd e ar y llwyfan?  
 .....

5. Enillodd Anni Llŷn ar y gân wreiddiol orau. Ym mha gystadleuaeth arall buodd hi'n cystadlu?
- .....

**Gyda'ch partner, trafodwch yr ymadroddion hyn sydd yn y fideo. Allwch chi esbonio eu hystyr nhw yn Gymraeg?**

"clamp o gystadleuaeth"

"wrth reswm"

"dod i'r brig"

"er mwyn cadw'r ddysgl yn wastad"

"dan deimlad"

"dw i'n rhacs!"

## Gwyllo a gwrando 2 - Y Llydaweg a'r Gernyweg



Byddwch chi'n gwyllo fideo o Aneirin Karadog ac Ani Saunders yn siarad am y tebygrwydd rhwng y Llydaweg a'r Gernyweg.

Atebwch y cwestiynau hyn:

1. Pam mae'n rhaid bod yn ofalus wrth ofyn am win koc'h (coch) yn Llydaw, yn ôl Aneirin?  
.....
2. Pan oedd Ani'n fach, beth oedd ymateb pobl pan oedden nhw'n clywed ei bod hi'n siarad Cernyweg?  
.....
3. Beth sy'n "ddadl dda" ym marn Aneirin?  
.....
4. Yn ôl Aneirin, pam does dim llythyren **k** yn Gymraeg?  
.....
5. Pa eiriau Cernyweg sy'n cael eu defnyddio fwyaf ar *Twitter*, yn ôl Ani?  
.....
6. Pa sant fuodd yn Llydaw ac yng Nghymru?  
.....



## Siaradwch



Mae Aneirin yn dweud ein bod ni'n defnyddio rhan arall o'n hunain wrth siarad iaith wahanol. Ydych chi'n cytuno? Ydy'ch personoliaeth chi'n wahanol wrth siarad Cymraeg? Ym mha ffordd?

## Darllen 2 – Mwy'n astudio'r Gernyweg wedi llwyddiant albwm Gwenno



<b>arholwyr</b>	<b>cymharu</b>	<b>blaenorol</b>	<b>ysgrifennydd</b>
<b>asiantaethau</b>	<b>lleiafrifol</b>	<b>hwb</b>	<b>hunaniaeth</b>
<b>ymwybodol</b>	<b>cynyddol</b>	<b>perchnogaeth</b>	

**Mae Gwenno Saunders yn gantores sy'n canu yn Gymraeg ac yn Gernyweg. Dyma erthygl ymddangosodd ar Cymru Fyw. Darllenwch yr erthygl a llenwch y bylchau.**

Safodd nifer uwch nag ..... arholiadau Cernyweg yn 2018 a hynny, yn ..... **arholwyr**, achos llwyddiant y gantores o Gymru, Gwenno Saunders. Dywedodd Bwrdd yr Iaith Gernyweg ..... 77 o bobl wedi sefyll arholiad yn 2019 - cynnydd o 15% o'i **gymharu** â'r flwyddyn **flaenorol**. Mae'r cynnydd, medd yr **ysgrifennydd** arholiadau Tony Hak, yn rhannol oherwydd llwyddiant yr albwm Cernyweg, Le Kov.

Mae'r Gernyweg ar restr UNESCO, un o **asiantaethau'r** Cenhedloedd Unedig, o ..... a allai ddiflannu ac mae'n cael ei chydabod fel iaith **leiafrifol** gan Gyngor Ewrop.

### Hunaniaeth

"Mae albwm Gwenno yn **hwb** ardderchog i'r iaith," ..... Mr Hak.  
 "Mae cymaint o bobl yn ei gweld yn amlach ..... cwmpas ac maen nhw wedi dangos diddordeb." Ychwanegodd fod pobl Cernyw hefyd yn dod yn ..... **ymwybodol** o'u **hunaniaeth** ac o le maen nhw'n dod," meddai.

'Synnwyr o le' yw ystyr Le Kov - ail albwm Gwenno, a ..... ei magu yn Gymraeg a Chernyweg. .... Wobr Albwm Cymraeg y Flwyddyn a'r Wobr Gerddoriaeth Gymreig yn 2015 gyda'i halbwm unigol cyntaf, Y Dydd Olaf.

Dywedodd fod defnydd **cynyddol** o'r Gernyweg mewn bywyd o ddydd i ..... yn "gyffrous".

## Perchnogaeth

"Mae'n eitha' anhygoel bod yr iaith yn fyw," meddai. "Mae hynny'n dangos pa ..... wydn ydy hi achos dydy hi ddim wedi cael llawer o gefnogaeth." Dywedodd fod yr iaith yn ffordd berffaith o gyflwyno hanesion Cernyw "sydd â hanes cyfoethog ac anferthol nad ydy llawer o bobol yn ymwybodol ohono". Mae'n cynnig perspectif arall... mae'n rhywbeth y mae poblogaeth Cernyw yn teimlo **perchnogaeth** drosto," meddai. "Mae pobl yn dweud 'gadewch i ni ei defnyddio mewn ffordd ddiddorol neu sy'n gwneud synnwyr i ni".

## Siaradwch



- Ydych chi wedi sefyll arholiadau Cymraeg i oedolion? Os ydych chi, ydyn nhw wedi eich helpu chi? Hoffech chi sefyll arholiad Uwch?
- Ydych chi'n hapus i wrando ar ganeuon mewn iaith dydych chi ddim yn ei deall?
- Oes digon o bethau cyffrous yn digwydd yn Gymraeg?

## Rhestr wirio

Dw i'n gallu...

deall a defnyddio ffurfiau lluosog amrywiol.	
deall y berthynas rhwng yr ieithoedd Celtaidd.	

## Uned 13 – Gwnewch y pethau bychain

### Nod yr uned hon yw...

- Defnyddio ffurfiau *for* (ar gyfer, i, dros, er mwyn, am)
- Dysgu am Dewi Sant, a siarad am bobl gymwynasgar a charedig
- Dysgu a defnyddio geirfa ac idiomau newydd

### Geirfa

**amheuaeth (amheuon)** *doubt(s)*  
**mynachlog(ydd)** *monastery*  
*(monasteries)*

**clochdar** *to cackle, to crow,*  
*to boast*  
**darfod** *to end*  
**enwi** *to name*  
**gosod** *to put; to set*  
**gwerthfawrogi** *to appreciate*  
**pryderu** *poeni*

**ar fy marw** *honestly, upon my*  
*word*  
**ar ran** *on behalf of*  
**coroni'r cyfan** *to crown it all*  
**diolch o galon** *thank you very*  
*much*  
**halen y ddaear** *salt of the earth*  
**yma ac acw** *here and there*  
**yn gefn i ni** *supportive*

**cadeirydd(ion)** *chairperson(s)*  
**creadur(iaid)** *creature(s)*  
**cyfandir(oedd)** *continent(s)*  
**dyfyniad(au)** *quotation(s)*  
**llywodraethwr (-wyr)** *governor(s)*  
**mynach(od)** *monk(s)*  
**nawddsant (nawddsaint)** *patron*  
*saint(s)*

**annisgrifiadwy** *indescribable*  
**anrhydeddus** *honourable*  
**cymwynasgar** *helpful*  
**dibynadwy** *dependable*  
**diwyd** *industrious*  
**dyfal** *diligent*  
**eithriadol** *exceptional*  
**haeddiannol** *worthy*

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....



## Help llaw – Cyfieithu *for*

Beth yw'r ffurfiau hyn yn Saesneg? Ai *for* neu *about*?

Cymraeg	Saesneg	Cymraeg	Saesneg
ysgrifennu am		siarad am	
pryderu am		edrych am	
disgwyl am		gobeithio am	
cyfnewid am		chwilio am	

Mae sawl ffordd o gyfieithu *for* i'r Gymraeg. Gallwn ni ddefnyddio arddodiaid syml (un gair), e.e. **i**, **dros**, **at** neu **am**, neu arddodiaid cyfansawdd (mwy nag un gair) e.e., **er mwyn** neu **ar gyfer**. Rhaid cofio nad *for* yw ystyr yr arddodiaid hyn bob tro.

### am

Weithiau, mae **am** yn cael ei ddefnyddio gyda berfau lle rydyn ni'n defnyddio *for* yn Saesneg, e.e. **chwilio am**. Byddwn ni hefyd yn defnyddio **am** gydag amser ac arian, e.e. Dw i'n **mynd am** dair noson, Ces i'r sgert **am bum punt** yn y sêl. Weithiau byddwn ni'n ei ddefnyddio gyda berfau lle rydyn ni'n defnyddio *about* yn Saesneg, e.e. **dysgu am**.

### i

Mae **i** yn cael ei ddefnyddio gyda phobl, e.e. **i fi**, i'r **plant**. Hefyd, byddwn ni'n defnyddio **i** i ddisgrifio ein prydau bwyd, e.e. **i ginio**.

### dros

Mae **dros** fel arfer yn awgrymu bod symud yn digwydd (*over*), e.e. '**cerdded dros y caeau**'. Ond, weithiau, byddwn ni'n defnyddio **dros** i gyfieithu *for*, e.e. **chwarae dros Gymru**, **dadlau dros achos**, **ateb dros ffrind**, **gwneud y gwaith cartref drosto fe** (yn ei le fe).

### ar gyfer

Byddwn ni'n defnyddio **ar gyfer** pan fyddwn ni'n golygu 'yn baratoad at' (*to prepare for*), e.e. 'Mae'n bwysig adolygu **ar gyfer yr arholiad**'. Hefyd, rydyn ni'n defnyddio **ar gyfer** pan fyddwn ni'n golygu 'i'w roi i', e.e. Bydd angen digon o fwyd **ar gyfer dau gant**.

### er mwyn

Ystyr **er mwyn** fel arfer yw pan fydd rhywbeth yn cael ei wneud 'er daioni' (*for the benefit of*), e.e. Mae e'n dysgu Cymraeg **er mwyn y plant**. Dydy e ddim bob tro yn cyfieithu '*for*'; mae'n gallu golygu 'gyda'r bwriad' (*in order to*), e.e. Cododd yn gynnar **er mwyn dal y trôn**.

Lluniwch frawddegau gan ddefnyddio'r geiriau isod:

e.e. prynu, ar gyfer > Prynais i ddigon o fwyd ar gyfer pawb.

1. ateb, dros > .....
2. coginio, i > .....
3. chwarae, dros > .....
4. cael, am > .....
5. adeiladu, ar gyfer > .....
6. ymgyrchu, dros > .....
7. gwneud, er mwyn > .....
8. siarad, dros > .....
9. agor, er mwyn > .....
10. agor, ar gyfer > .....

## Gwranddo - Eitem 'Diolch o galon', Radio Cymru



1. Rhowch gylch o gwmpas y geiriau hyn pan fyddwch chi'n eu clywed nhw:

**creadur clochdar cydnabod haeddiannol anrhydeddus eithriadol**

2. Gyda pha ddigwyddiad mae J R Owen wedi bod yn weithgar iawn?

.....

3. Beth yw rhinweddau John?

.....

.....

4. Sut mae John yn cyfrannu at y digwyddiad bob blwyddyn?

.....

.....

5. Beth wnaeth i bobl sylweddoli cymaint oedd cyfraniad John?

.....

.....

6. Beth oedd swydd John a pha mor hir fuodd e yn y swydd honno?

.....

.....

7. Beth yw'r berfenw sy'n cael ei ddefnyddio wrth siarad am y rhinweddau y mae John wedi eu cael oddi wrth ei dad?

.....

.....



## Darllen – Dewi Sant

<b>Geirfa:</b>	<b>nawddsant</b>	<b>mynach</b>	<b>cyfandir</b>	<b>mynachlog</b>
	<b>dylanwadol</b>	<b>cadeiriol</b>	<b>enwi</b>	<b>dyfyniad</b>
	<b>amheuaeth</b>	<b>dibynadwy</b>	<b>gosod</b>	

Dewi Sant yw **nawddsant** Cymru ac rydyn ni'n dathlu ei fywyd ar ddydd Gŵyl Dewi, 1 Mawrth, bob blwyddyn. Ond pwy yn union oedd Dewi?

Roedd yn **fynach** Celtaidd a oedd yn byw yng Nghymru yn ystod y chweched ganrif. Yn ôl yr hanes, Sant, Tywysog Ceredigion oedd ei dad, ac roedd Non, ei fam, yn ferch i bennaeth tiroedd lleol. Bu Non farw yn Llydaw.

Ganwyd Dewi ger Capel Non, sydd heb fod ymhell o Dyddewi. Cyn iddo deithio Cymru a'r **cyfandir** yn pregethu, cafodd ei addysg mewn **mynachlog** yn Hen Fynyw gan fynach dall o'r enw Pawliniws.

Tyfodd Dewi yn un o aelodau mwyaf **dylanwadol** Eglwys Geltaidd y cyfnod, gan ledu neges Cristnogaeth ymysg y llwythau paganauidd.

Sefydlodd fynachlog yn y porthladd Rhufeinig, Menevia, yn sir Benfro. Yn ddiweddarach, daeth y lle hwn yn ddinas **gadeiriol** wedi ei **henwi** ar ei ôl – Tyddewi.

Un o'r straeon mwyaf adnabyddus amdano yw pan aeth i gyfarfod yn Llanddewibrefi. Gan fod cymaint o dorf yno, doedd llawer ddim yn gallu ei glywed. **Gosododd** Dewi hances ar y llawr cyn sefyll arni, ac yn sydyn, cododd bryn bach o dan ei draed gan ei godi fel y gallai pawb ei weld.



Yn ôl yr hanes, roedd Dewi dros 100 oed pan fu farw ar 1 Mawrth 589. Mae ei bregeth olaf yn cynnwys ei **ddyfyniad** enwocaf:

"Arglwyddi, frodyr a chwiorydd, byddwch lawen a chedwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf i."

Mae llawer o'r hyn rydyn ni'n ei wybod am Dewi yn dod o waith Rhigyfarch ap Sulien, awdur o'r 11eg ganrif a ysgrifennodd *Buchedd Dewi*. Gan iddo ysgrifennu dros 500 mlynedd wedi i Dewi farw, mae **amheuaeth** ynglŷn â pha mor **ddibynadwy** yw rhai o'r hanesion amdano.

1. Nodwch unrhyw eiriau newydd rydych chi wedi eu dysgu wrth ddarllen y darn hwn.  
Allwch chi eu cysylltu â geiriau tebyg sy'n perthyn iddyn nhw?

Geiriau newydd	Geiriau tebyg

## 2. Ansoddeiriau lluosog

Yn y clip sain, clywon ni fod JR Owen yn "gwneud y pethau bach". Ffurf **unigol** yr ansoddair sy'n cael ei defnyddio, er bod yr enw'n lluosog, **pethau**. Dyma yw'r arfer cyffredin erbyn heddiw, ond mae Dewi Sant yn enwog am y dyfyniad 'Gwnewch y pethau bychain', lle defnyddir ffurf lluosog yr ansoddair, **bychain**. Beth am droi rhai o'r enwau unigol yn y darn yn lluosog gan ddewis ansoddair lluosog addas i fynd gyda'r enw? Mae un wedi'i wneud i chi.

Enw lluosog	Ansoddair lluosog
hancesi	gwynion

3. Beth yw arwyddocâd y llefydd hyn yn y darn darllen?

Tyddewi .....

.....

Llanddewibrefi .....

.....

Capel Non .....

.....



## Gwyllo a gwrando - 'Halen y ddaear' - Jean Huw Jones



Byddwch chi'n gwyllo clip fideo sy'n dangos Jean Huw Jones yn derbyn gwobr 'Halen y ddaear' am ei gwaith fel llywodraethwraig yn Ysgol Gynradd Rhydaman.

Ar ôl gwyllo'r ffilm, nodwch y prif bwyntiau yn y darn yma (o leiaf tri):

1. ....
2. ....
3. ....

**Yna, cyfieithwch y brawddegau hyn:**

1. *Jean has given forty years of service to the school.*  
.....
2. *She was the chairwoman of the board of governors for twenty years.*  
.....
3. *Her friends and family came to the school for a celebration.*  
.....
4. *She was stunned when she was given an award for her work.*  
.....
5. *It's important to recognise her contribution to the school.*  
.....
6. *Her friends and staff at the school nominated Jean for the award.*  
.....
7. *Jean enjoyed her work because she did it for the children.*  
.....

## Siaradwch



- Ydych chi'n nabod rhywun tebyg i John Owen neu Jean Huw Jones?
- Pa ansoddeiriau fyddech chi'n eu defnyddio i'w disgrifio nhw?
- Ydych chi'n credu y dylai pobl gael eu gwobrwyo fel hyn am eu gwaith? Fydddech chi'n derbyn gwobr am waith cyflogedig neu wirfoddol rydych chi wedi ei wneud?
- O'i gymharu â'r gorffennol, oes llai o bobl fel John a Jean sy'n gwneud y 'pethau bychain' yn ein cymdeithas heddiw? Pam, yn eich barn chi?

### Rhestr wirio

Dw i'n gallu...

defnyddio arddodiaid yn gywir wrth gyfieithu <i>for</i> .	
siarad am bobol sy'n haeddu clod am fod yn weithgar a chymwynasgar.	

## Gwaith cartref – Uned 1



### 1. Darllen a deall – *Cyw Haul*

Edrychwch eto ar y darn o *Cyw Haul* yn yr uned hon, ac atebwch y cwestiynau hyn.

- i. Sut rydyn ni'n gwybod bod Bleddyn yn teimlo'n nerfus?

.....

.....

- ii. Pwy ydy'r 'hen bobol' mae Bleddyn yn siarad amdany'n nhw?

.....

.....

- iii. Pa fath o ddillad mae Bleddyn yn eu gwisgo?

.....

.....

- iv. Sut mae'r dillad yn gwneud iddo deimlo?

.....

.....

2. Beth sy'n bwysig i chi wrth ddysgu Cymraeg? Ydych chi eisiau swnio fel y bobl yn eich ardal chi? Ydy hi'n bwysig i chi eich bod chi'n siarad yn gywir?

.....

.....


.....

.....

.....

.....

.....



3. Gwyliwch raglen ar S4C neu gwrandewch ar raglen ar Radio Cymru, a nodwch unrhyw eiriau tafodieithol y byddwch chi'n eu clywed.

**Gair gan y tiwtor:**

Y Tro Nesa - Ewch â 3 llun ohonoch chi ar wyliau i'r wers nesa.



## Gwaith cartref – Uned 2

1. Llenwch y bylchau yn y brawddegau hyn, gan ddefnyddio **roedd** neu **bu/buodd**.

- i. Ble .....chi am 7.30 y bore 'ma?
- ii. Ble ..... ti'n teithio ar dy flwyddyn 'gap'?
- iii. .... fy nghath farw yr wythnos diwethaf.
- iv. .... nhw'n arfer gwrando ar y radio bob nos.
- v. .... i'n bwyta fy nghinio yn y caffi am 12.30.
- vi. .... chi dramor y llynedd?
- vii. .... nhw erioed ym Mharc yr Arfau?
- viii. .... y tywydd yn braf ddoe?
- ix. .... neb yn ateb y ffôn bob tro ro'n i'n ffonio.
- x. .... e'n ymarfer yn galed ar gyfer y ras hon.

### 2. Darllen a deall

Edrychwch eto ar *Milionêrs*, ac atebwch y cwestiynau hyn.

- i. Pam mae Wendi yn poeni am y daith i Mauritius?

.....

.....

- ii. Sut basech chi'n disgrifio cartref Gwyn a Nicola?

.....

.....

- iii. Pa fath o wyliau mae Mal a Wendi yn eu cael fel arfer?

.....

.....

- iv. Beth yw ymateb Gwyn a Nicola i newyddion Wendi a Mal?

.....

.....

3. Ble buoch chi ar eich gwyliau tramor cyntaf? Ysgrifennwch am y profiad. Os nad ydych chi wedi bod dramor, ysgrifennwch am unrhyw wyliau neu daith ddiddorol.

**Gair gan y tiwtor:**

---

---

---

## Gwaith cartref – Uned 3



### 1. Darllen a deall

Edrychwch eto ar y darn darllen **Pedair Cainc y Mabinogi** ac atebwch y cwestiynau hyn.

i. Pa mor hen yw *Pedair Cainc y Mabinogi*?

.....

ii. Pwy sy'n cysylltu'r chwedlau hyn â'i gilydd?

.....

iii. Beth sy'n arbennig am Bendigeidfran?

.....

iv. Pam mae adar yn bwysig yn y bedwaredd gainc?

.....

v. Beth yw arwyddocâd y llefydd hyn yn y darn darllen?

Aberystwyth .....

Iwerddon .....

Dyfed .....

2. Cyfieithwch y brawddegau hyn, gan ddefnyddio **dydd**, **ddydd** neu **ar ddydd**, **nos** neu **ar nos** yn gywir.

i. *Saturday is my favourite day of the week.*

.....

.....

ii. *The children used to take a packed lunch to school on Wednesdays.*

.....

.....

iii. *Since retiring, I enjoy meeting friends for coffee on Friday.*

.....

.....

iv. *Would you like to go to the cinema next Thursday?*

.....

.....

v. *Our Welsh class will be on Tuesday night from now on.*

.....

.....

vi. *I usually finish work at 4.30, but I have to work late this Monday.*

.....

.....

vii. *I'm sorry, I can't help you on any Sunday – I'm busy.*

.....

.....

viii. *Your parcel will arrive on Friday, between 9.00a.m. and 12.00p.m.*

.....

.....

### 3. Ysgrifennu

Ysgrifennwch grynodedb (tua 200 o eiriau) o chwedl buoch chi'n ei thrafod yn y dosbarth, **neu**

Ysgrifennwch chwedl neu stori dda sy'n perthyn i'ch ardal neu i'ch teulu chi (tua 200 o eiriau).

**Gair gan y tiwtor:**

.....

.....

.....





## Gwaith cartref - Uned 4

1. Cyfieithwch y brawddegau isod fel eu bod nhw'n cynnwys **byddwn i** ac ati.

i. *I would like to go to Spain on my holidays.*

.....

ii. *Gruff would retire tomorrow, if that were possible.*

.....

iii. *Would you go on a raft down a river?*

.....

iv. *They would move to Australia if they won the lottery.*

.....

v. *We wouldn't like to live next door to noisy neighbours.*

.....

vi. *She had better go home - she is tired.*

.....

vii. *What would you do with a million pounds?*

.....

viii. *Could she look after the cat when we'll be on our holidays?*

.....

2. Edrychwch eto ar y darn darllen 'operâu sebon' ac atebwch y cwestiynau hyn.

i. Sut dechreuodd y term 'opera sebon'?

.....

ii. Pam rydych chi'n meddwl bod sianeli'n awyddus i gael opera sebon?

.....

iii. Nodwch ddau wahaniaeth rhwng operâu sebon a dramâu go iawn.

.....

.....

iv. Pam mae operâu sebon yn gallu bod yn bwysig i gymdeithas?

.....

.....

3. Ysgrifennwch ddau neu dri pharagraff am eich hoff gymeriad mewn opera sebon. Os nad ydych chi'n gwyllo opera sebon, ysgrifennwch am eich hoff gymeriad mewn ffilm, rhaglen deledu neu lyfr.

**Gair gan y tiwtor:**

---

---

---



## Gwaith cartref - Uned 5

**1.** Unwch y ddau hanner gan ddefnyddio cymal enwol (**bod, y, i** neu **mai/taw**)

- |                                |   |
|--------------------------------|---|
| <b>i.</b> Clywais i...         | Maen nhw'n ystyried symud y pencadlys.        |
| <b>ii.</b> Mae'n debyg...      | Mae pob sefydliad yn nodi ei ganmlwyddiant.   |
| <b>iii.</b> Dw i'n siŵr...     | Bydd yr adeilad yn cael ei ddatblygu yn fuan. |
| <b>iv.</b> Dwedodd e...        | Dylai fy nghasgliad fod mewn amgueddfa.       |
| <b>v.</b> Does dim dwywaith... | Nhw yw'r mudiad pwysica yng Nghymru.          |
| <b>vi.</b> Clywais i...        | Ymddiswyddodd e ar unwaith.                   |

**2.** Edrychwch eto ar y darn o'r nofel *Y Llyfrgell*, ac atebwch y cwestiynau hyn:

**i.** Beth mae Nan yn ei wneud i ddangos i Ana ei bod hi'n gallu gadael y swyddfa?

.....

**ii.** Beth mae Nan yn ei roi i Ana?

.....

**iii.** Beth hoffai Nan ei ddweud wrth Ana?

.....

**iv.** Beth mae'n rhaid i Nan ei wneud yn y swyddfa?

.....

**v.** Ydy Nan yn ffrind i Gwelw, Haf a Petal?

.....

**vi.** Sut byddech chi'n disgrifio Gwelw, Haf a Petal?

.....

3. Gwnewch ychydig o ymchwil, ac ysgrifennwch ddarn tua 250 o eiriau ar un o'r sefydliadau yma: Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Gair gan y tiwtor:**

---

---

---



## Gwaith cartref – Uned 6

**1. Cyfieithwch y brawddegau hyn gan ddefnyddio berfau amheronol addas.**

i. *Thousands of Welshmen were killed in the First World War.*

.....

ii. *Hedd Wyn and hundreds of Welsh soldiers were buried in Artillery Wood cemetery.*

.....

iii. *A memorial service is held every year in Ypres.*

.....

iv. *A film was made about Hedd Wyn in 1992.*

.....

v. *The film was nominated for an Oscar.*

.....

**2. Darllen a deall:** Edrychwch eto ar **Cymru a Rhyfel Cartref Sbaen**, ac atebwch y cwestiynau hyn:

i. Beth ddigwyddodd yn 1936?

.....

ii. Ar ba ochr roedd y rhan fwyaf o wirfoddolwyr o Gymru'n ymladd?

.....

iii. Pa ranbarth sy'n cael ei enwi yn y darn?

.....

iv. Pa wleidydd o Gymru a helpodd i sefydlu pwyllgorau dyngarol?

.....

v. Sut mae Rhyfel Cartref Sbaen wedi ysbrydoli Cymry mewn ffordd greadigol?


.....

### 3. Ysgrifennu

Ysgrifennwch ddau baragraff am aelod o'ch teulu a fuodd yn ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf neu'r Ail Ryfel Byd.

**neu:** Ysgrifennwch ddau baragraff am berson enwog a gafodd ei ladd mewn rhyfel.

**neu:** Ydych chi wedi ymweld ag unrhyw gofeb neu amgueddfa ryfel? Ysgrifennwch ddau baragraff am y profiad.



**Gair gan y tiwtor:**

---

---

---



## Gwaith cartref – Uned 7

### 1. Cyfieithwch y brawddegau hyn:

i. *Huw is the man who had an accident.*

.....

ii. *Here is the ball that broke the window.*

.....

iii. *The class which is held here on Tuesdays is very popular.*

.....

iv. *The Great Glasshouse, which was designed by Sir Norman Foster, is in the National Botanic Garden of Wales.*

.....

.....

v. *There's the mouse that my cat caught.*

.....

vi. *The books that were published last year are very popular.*

.....

### 2. Darllen – Gwenallt

Edrychwch eto ar y darn darllen, ac atebwch y cwestiynau hyn:

i. Sut cafodd Gwenallt ei enw barddol?

.....

ii. Ble roedd gwreiddiau ei deulu?

.....

iii. Ble roedd ei dad yn gweithio?

.....

iv. Beth oedd swydd gyntaf Gwenallt?

.....

v. Pam cafodd ei garcharu?

.....

vi. Ble buodd e'n darlithio?

.....

vii. Am beth mae 'Y Meirwon' yn sôn?

.....

### 3. Ysgrifennu

Ysgrifennwch ddau baragraff am sut mae diwydiant wedi effeithio ar eich ardal chi. Oes olion hen bwll glo neu chwarel yno? Pa waith sydd yn yr ardal nawr?

**neu:** Ysgrifennwch ddau baragraff am ffrind neu aelod o'ch teulu fuodd yn gweithio mewn diwydiant trwm o ryw fath.

**neu:** Ysgrifennwch ddau baragraff am rywbeth rydych chi wedi'i fwynhau yn yr uned hon.

---



---



---



---



---



---



---



---



---



---



---



---



---



---



---



---



---



---

#### Gair gan y tiwtor:

---



---



---





## Gwaith cartref - Uned 8

### 1. Cyfieithwch

i. *I'm surprised that you didn't read the review on the sports pages.*

.....

ii. *I believe that there aren't enough opportunities for adults with disabilities.*

.....

iii. *I hope the pupils won't beat the teachers in the game at the end of term.*

.....

iv. *We now know that no-one can win the Grand Slam this year.*

.....

v. *I heard that Ceri won't be the captain next season.*

.....

### 2. Darllenwch y ddau ddarn am 'Y Gêm Genedlaethol' ac atebwch y cwestiynau:

i. Beth oedd yn anarferol am y gêm rygbi ar 15 Hydref 2011?

.....

ii. Beth yw record tîm rygbi Cymru yn erbyn Seland Newydd?

.....

iii. Sut mae cefnogwyr rygbi'n wahanol i gefnogwyr pêl-droed, yn ôl y darn?

.....

iv. Pa gamp yw'r hyna – rygbi neu bêl-droed? Sut rydych chi'n gwybod hyn?

.....

v. Beth ddigwyddodd yng Nghymru ar ôl twrnamaint yr Euros yn 2016?

.....

**3. Beth yw'r gair?**


Mae'n dod ar ddechrau llyfr. ....

Gwneud gwaith am ddim. ....

Pob rhan o'r byd. ....

Ysgol breifat. ....

Dweud sut bydd y tywydd. ....

**4. Ysgrifennwch am eich profiad chi o chwaraeon – nawr ac yn y gorffennol.****Gair gan y tiwtor:**

.....

.....

.....

## Gwaith cartref - Uned 9



1. Dewiswch **wyth** o'r ymadroddion isod, ac ysgrifennwch un frawddeg yn defnyddio pob un ohonyn nhw.

ar hyd y blynyddoedd  
cael gwared ar  
hud a lledrith  
medden nhw  
newyddion da o lawenydd mawr  
heb os nac oni bai  
yn fyw ac yn iach  
gwrthwynebydd cydwybodol  
bod wrthi  
ar gyfartaledd  
i bob pwrpas

i. ....

ii. ....

iii. ....

iv. ....

v. ....

vi. ....

vii. ....

viii. ....

2. Defnyddiwch eich nodiadau ar yr erthygl papur bro i ysgrifennu **crynodeb** o'r erthygl.

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

3. Ysgrifennwch hysbyseb i'ch papur bro ar gyfer digwyddiad yn eich ardal leol. Gall y digwyddiad fod yn wir.

**Gair gan y tiwtor:**

---

---


---



## Gwaith cartref – Uned 10

1. Ysgrifennwch (ffurf fenywaidd) ansoddeiriau i ddisgrifio'r enwau benywaidd hyn, e.e. merch dlos.
  - i. rhestr .....
  - ii. ffrog .....
  - iii. het .....
  - vi. tylluan .....
  - v. craig .....
  
2. Ysgrifennwch ansoddeiriau (lluosog) i ddisgrifio'r enwau hyn, e.e. storiâu byrion.
  - i. pobl .....
  - ii. gwalltiau .....
  - iii. tîm Caerdydd – Y .....
  - iv. tîm Seland Newydd – Y Crysau .....
  - v. mwyar .....
  
3. **Edrychwch eto ar y darn darllen ac atebwch y cwestiynau isod.**
  - i. Pam roedd hi'n anodd cadw cyfraith a threfn ym Mawddwy?  
.....
  - ii. Sut colodd rhai o'r Gwylliaid eu cartrefi?  
.....
  - iii. Pwy oedd y Barwn Lewys ab Owain?  
.....
  - iv. Beth oedd ateb y Barwn Lewys ab Owain i'r broblem?  
.....
  - v. Ym mha lyfr mae hanes Lowri ferch Gruffudd Llwyd?  
.....
  - vi. Pam roedd hi'n teimlo'n ddig tuag at y Barwn?  
.....
  - vii. Sut cafodd y Barwn a'i ddynion eu dal?  
.....
  - viii. Beth wnaeth meibion Lowri ar ôl i'r Barwn gael ei ladd?  
.....

4. Ysgrifennwch dri pharagraff am droseddwr enwog o'ch ardal chi, **neu** ysgrifennwch dri pharagraff am ffilm, rhaglen deledu neu lyfr sy'n trafod trosedd a chosb mewn rhyw ffordd.



**Gair gan y tiwtor:**

---

---

---



## Gwaith cartref - Uned 11

1. Casglwch gymaint o eiriau â phosib yn dechrau gyda **gwrth-**, **an-**, **di-**, neu yn gorffen gyda **-us**, **-ion**, **-gar**.

.....

.....

.....

.....

.....

.....

2. **Edrychwch eto ar y darn darllen, ac atebwch y cwestiynau hyn.**

- i. Beth ydy'r "dirgelwch" mae Dr Dafydd Huws yn sôn amdano?

.....

.....

- ii. Beth oedd yn achosi i endorffinau gael eu rhyddhau i'r ymennydd mewn "cyfnod cyntefig"?

.....

.....

- iii. Pwy sydd â'r synnwyr digrifwch mwya, ym marn Dr Dafydd Huws?

.....

.....

3. **Ysgrifennwch jôc.**

.....

.....

.....

.....

.....

3. Ysgrifennwch ddarn byr (rhwng dau a phedwar paragraff) am eich hoff raglen, ffilm neu lyfr doniol.

Gair gan y tiwtor:

---

---

---





## Gwaith cartref – Uned 12

### 1. Beth ydy ffurfiau lluosog y geiriau hyn?

amgueddfa	.....	camlas	.....	dihiryn	.....
llosgfynydd	.....	dadl	.....	caer	.....
atyniad	.....	enghraifft	.....	golygydd	.....
caseg	.....	dirwy	.....	ffoadur	.....
brenin	.....	digrifwr	.....	seiciatrydd	.....

### 2. Cyfieithwch:

i. *The number of resources for learners of Welsh has increased.*

.....

ii. *A number of resources have been developed.*

.....

iii. *The number of collections by postmen has declined (gostwng).*

.....

iv. *There are a number of collections in the library.*

.....

v. *The Prime Minister announced that the number of factories in Wales has remained steady (yn sefydlog).*

.....

.....

vi. *A number of factories have shut down recently.*

.....

**3. Edrychwch eto ar y darn darllen, ac atebwch y cwestiynau hyn.**

**i.** Beth oedd prif iaith Prydain pan ddaeth y Rhufeiniaid i Brydain?

.....

**ii.** Ble mae Llydaw?

.....

**iii.** Beth ydy sefyllfa'r Llydaweg heddiw?

.....

**iv.** Beth ddigwyddodd yn y flwyddyn 577?

.....

**v.** Pwy oedd Dolly Pentreath?

.....

**vi.** Beth sydd wedi digwydd i'r Gernyweg yn ddiweddar?

.....

**vii.** Ble roedd yr Hen Ogledd?

.....

**viii.** Beth oedd yn arbennig am y ffordd roedd bugeiliaid yr Hen Ogledd yn cyfri defaid?

.....

.....

**4. Ysgrifennwch am eich profiad o ddysgu unrhyw iaith neu ieithoedd heblaw am y Gymraeg.**

**Gair gan y tiwtor:**

.....

.....

.....

## Gwaith cartref - Uned 13



### 1. Cyfieithwch

i. *He was the chairperson for ten years.*

.....

ii. *She wrote a report for the governors.*

.....

iii. *They did the shopping for their neighbours.*

.....

iv. *He bought me a new dress for the wedding.*

.....

v. *We did it for her sake.*

.....


### 2. Darllen a deall

Edrychwch eto ar y darn darllen **Dewi Sant** ac ysgrifennwch y pum ffaith bwysicaf, yn eich barn chi, sy yn y darn. Defnyddiwch eich geiriau eich hun.

.....

### 3. Ysgrifennu

Rydych chi wedi penderfynu enwebu rhywun am wobr debyg i 'Diolch o galon' neu 'Halen y ddaear'. Ysgrifennwch i'r cwmni teledu neu i'r rhaglen radio yn enwebu'r person gan roi rhesymau pam maen nhw'n haeddu cael eu cydnabod (tua 200 o eiriau).



**Gair gan y tiwtor:**

---

---

---



Y Ganolfan  
Dysgu Cymraeg  
Genedlaethol —  
National Centre  
for Learning Welsh

[www.dysgucymraeg.cymru](http://www.dysgucymraeg.cymru)